# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 7 Tachwedd 2019

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09:00)

**2.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid – Adroddiad ar Alldro 2018-19**

(Tudalennau 1 - 14)

## 3 Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru: Sesiwn dystiolaeth

(09:00-10:30) (Tudalennau 15 - 317)

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Isobel Everett, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol, Swyddfa Archwilio Cymru

Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, Swyddfa Archwilio Cymru

Papur 1 – Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2014-15

Papur 2 – Swyddfa Archwilio Cymru – Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

Papur 3 – Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru – Cynllun Blynyddol 2019-20

Papur 4 – Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru – Adroddiad interim 1 Ebrill i 30 Medi 2019

Papur 5 – Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

Brîff ymchwil

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, o'r cyfarfod nesaf yn ei gyfanrwydd ar 13 Tachwedd 2019 ac ar ddechrau'r cyfarfod ar 21 Tachwedd 2019.

(10:30)

## 5 Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trafod y dystiolaeth

(10:30–10:45)

## 6 Goblygiadau ariannol Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

(10:45–11:00) (Tudalennau 318 – 330)

Papur 6 – Adroddiad drafft

Eitem 2.1

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref RE/22/2019

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

29 Hydref 2019

Annwyl Llyr,

Mae Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 bellach wedi eu harchwilio, a'u cyhoeddi ar 27 Awst 2019. Yn unol â'm hymrwymiad i arferion da a thryloywder, gallaf yn awr ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar alldro terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 yn erbyn y cynlluniau gwario sydd wedi eu cymeradwyo yn Ail Gyllideb Atodol 2018-19.

Cwmpas yr alldro terfynol ar gyfer 2018-19 yw £16.8 biliwn yn erbyn Cyllideb Llywodraeth Cymru o £17.1 biliwn. Mae hyn yn cynrychioli amrywiant o 1.1% yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd.

Mae'r adroddiad a'r atodiadau perthnasol yn darparu'r canlynol crynodeb o wariant yn ôl portffolio o fewn cyfansymiau rheolaeth y Trysorlys, amrywiadau o'u cymharu â'r gyllideb, eglurhad o  amrywiannau sylweddol a manylion symiau sydd i'w cario ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

Byddwn yn hapus i drefnu bod y Cyfarwyddwr Cyllid a'i staff  ar gael i drafod manylion yr adroddiad os ydych yn teimlo y byddai hynny o fudd.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Llywodraeth Cymru

# Adroddiad ar Alldro 2018-19

Adroddiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i'r Pwyllgor Cyllid ar alldro archwiliedig Llywodraeth Cymru 2018-19 wedi'i osod yn erbyn y gwariant arfaethedig yn Ail Gyllideb Atodol 2018-19.

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r protocol a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mawrth 2012 ynghylch newidiadau i gynnig y Gyllideb a'u heffeithiau ar gylch y Gyllideb yn ystod y flwyddyn.

**1.2** Fel rhan o'r protocol, cytunodd Llywodraeth Cymru ar y canlynol:

*Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, bydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar y canlyniadau terfynol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac eglurhad o'r amrywiadau sylweddol.*

**1.3** Cafodd yr ymrwymiad hwn ei ailddatgan yn y protocol diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Mehefin 2017.

**1.4** Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwnnw ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19.

**1.5** Cymeradwywyd Ail Gyllideb Atodol 2018-19 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 6 Mawrth 2019. Mae'r alldro terfynol yn dilyn cyhoeddi Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar 27 Awst 2019. Gweler y ddolen ganlynol:

https://llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru?_ga=2.207081690.857021244.1566917239-1879009853.1543503049

**1.6** Llunnir yr adroddiad ar yr alldro ar sail strwythur cyllideb Llywodraeth Cymru a oedd mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn ac a gaiff ei gofnodi yn y cyfrifon.

## 2. Alldro Prif Grwpiau Gwariant[1] 2018-19

**2.1** Cyflwynwyd Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru gerbron y Cynulliad ar 27 Awst 2019. Mae'r cyfrifon archwiliedig yn cynnwys Crynodeb o Alldro Adnoddau yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig Ail Gyllideb Atodol 2018-19.

**2.2** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau lefel is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EM. Adroddir ar y cyllidebau gweinyddol hyn yn y dogfennau a'r tablau a oedd yn cyd-fynd â'r Ail Gyllideb Atodol.

**2.3** Mae'r adroddiad hefyd yn darparu esboniadau o bob gorwariant ynghyd ag unrhyw danwariant o fwy na 1% o gyllidebau lefel MEG ym mhob un o'r cyfansymiau rheoli (yn ddarostyngedig i lefel de minimis o £0.5 miliwn). Mae dadansoddiad o'r alldro yn ôl MEG ar gael yn Atodiad 1.

### Alldro Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)[2]

**2.4** Alldro DEL archwiliedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 oedd £16,318 miliwn. Mae hyn yn danwariant o £86.8 miliwn yn erbyn y gyllideb, fel y cytunwyd arno yn yr Ail Gyllideb Atodol.

**2.5** Mae'r alldro hwn yn cynnwys tanwariant o £11.7 miliwn yn erbyn y gyllideb Adnoddau Cyllidol (refeniw) a thanwariant o £20.7 miliwn yn erbyn y gyllideb Gyfalaf.  Mae hyn yn danwariant o lai na 0.1% yn erbyn Adnoddau Cyllidol ac 1% yn erbyn Cyfalaf.

---

[1] Cyllideb lefel uwch sy'n cynrychioli portffolio gweinidogol neu weinyddu canolog yw Prif Grŵp Gwariant neu MEG.

[2] Terfyn Gwariant Adrannol: cyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys ei Mawrhydi sy'n cael ei rannu ymhellach yn gyfansymiau rheoli Adnoddau Cyllidol (refeniw), Adnoddau Anghyllidol (refeniw wedi'i glustnodi) a Chyfalaf Cyffredinol a Thrafodiadau Ariannol Cyfalaf.

**Alldro DEL Adnoddau Cyllidol (Refeniw)**

**2.6** Unwaith eto roedd gwariant yn y dosbarthiad hwn o'r gyllideb ar lefel MEG yn agos iawn ati. Cafwyd gwybod am danwariant bach iawn mewn pump o'r chwe MEG. Dim ond un gyllideb wnaeth ragori ar amrywiad o 1% o'i mesur yn erbyn yr Ail Gyllideb Atodol, a chaiff hyn ei egluro isod.

**2.7** Y tanwariant o ran refeniw'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu oedd £8.8 miliwn. Mae tair prif elfen i'r tanwariant hwn: tanwariant o £3.7 miliwn ar gostau staff Llywodraeth Cymru y gellir ei briodoli'n bennaf i'r ffaith y cafwyd llai o geisiadau na'r disgwyl am y cynllun ymadael gwirfoddol; tanwariant o £4.3 miliwn ar broses bontio'r UE o ganlyniad i oedi wrth recriwtio; a thanwariant o £1 filiwn ar Buddsoddi i Arbed o ganlyniad i lai o gyfleoedd buddsoddi addas.

**Alldro DEL Cyfalaf**

**2.8** Y tanwariant ar gyfer y DEL Cyfalaf yn 2018-19 oedd £20.7 miliwn. O fewn y tanwariant, roedd pedwar MEG wedi tanwario mwy nag 1% gydag un MEG yn cofnodi gorwariant, ond dim ond gorwariant o £0.5 miliwn (neu lai na 0.1%). Caiff yr amrywiannau eu hegluro isod.

**2.9** Cofnodwyd y gorwariant bach (£0.5 miliwn) yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol. O fewn y ffigur hwn, cofnodwyd gorwariant o £1 filiwn yn erbyn cyllideb y Parciau Cenedlaethol, £0.6 miliwn yn erbyn Rheoli a Gwella Gwastraff a £0.2 miliwn yn erbyn y gyllideb Byw'n Annibynnol. Cafodd y rhain eu gwrthbwyso gan danwariant o £1.2 miliwn yn erbyn y gyllideb Cyfleusterau Cymunedol.

**2.10** Y tanwariant cyfalaf mwyaf oedd £5.3 miliwn yn y portffolio Addysg. Mae'r tanwariant ar gyllidebau gwyddoniaeth ac arloesedd a gafodd eu trosglwyddo i mewn o MEG yr Economi a Thrafnidiaeth lle parhaodd y

gwariant. O ganlyniad, cofnodwyd gorwariant cyfatebol yn sefyllfa'r Economi a Thrafnidiaeth.

**2.11** Cofnodwyd tanwariant o £4.8 miliwn yn MEG yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae'r sefyllfa yn cynnwys gwariant lle cafodd y cyllidebau eu symud, ar ôl trosglwyddo cyfrifoldebau gweinidogol, i'r MEG Addysg a'r MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg lle cofnodwyd tanwariant cyfatebol. Mae prif elfennau'r tanwariant yn erbyn cyllidebau cymorth i fusnesau (£11.7 miliwn), teithio cynaliadwy (£4.9 miliwn) a diogelwch ar y ffyrdd (£2.9 miliwn). Caiff y rhain eu gwrthbwyso gan orwariant o £14.3 miliwn ar gyllidebau sy'n ymwneud â thraffyrdd a chefnffyrdd.

**2.12** Cofnododd y MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg danwariant cyfalaf o £4.1 miliwn sy'n ymwneud yn bennaf â chyllid i'r diwydiannau creadigol (£4.6 miliwn) sydd wedi llithro. Caiff hyn ei wrthbwyso gan orwariant ar gyllideb gyfalaf Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

**2.13** Cafodd y prif amrywiannau yn nhanwariant yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig o £2.1 miliwn eu cofnodi yn erbyn y Cynllun Datblygu Lleol, lle roedd tanwariant o £2.8 miliwn, a rhaglenni Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd lle roedd gwariant £1.2 miliwn yn uwch na'r disgwyl. Ysgogwyd y gorwariant hwn gan y ffaith bod mwy o alw am raglen Twf Gwyrdd Cymru.

**2.14** Y prif reswm dros y tanwariant cyfalaf o £3.7 miliwn a gofnodwyd yn erbyn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yw lleihad yn y galw am grantiau adnewyddu cymunedau Sipsiwn a Theithwyr (£4 miliwn).

### Alldro DEL Adnoddau Anghyllidol (refeniw wedi'i glustnodi)

**2.15** Cofnodwyd tanwariant o £54.4 miliwn yn erbyn y gyllideb Adnoddau Anghyllidol. Mae'n bwysig nodi bod y gyllideb Adnoddau Anghyllidol wedi'i chlustnodi ac na ellir ei hailgyfeirio i raglenni gwariant Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyllidebau hyn yn cwmpasu addasiadau cyfrifyddu megis dibrisiant, addasiad i ddarpariaethau a darpariaeth i ddileu taliadau benthyciadau i fyfyrwyr.

**2.16** O'r tanwariant hwn mae 99% yn ymwneud â darpariaeth i ddileu taliadau benthyciadau i fyfyrwyr o fewn y MEG Addysg. Roedd y tanwariant ar fenthyciadau i fyfyrwyr wedi codi am fod y gyllideb yn cynnwys digon wrth gefn i ddiogelu rhag effaith bosibl IFRS 9[3] ac effaith barhaus y cynnydd yn y trothwy ad-dalu.

## Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

**2.17** Mae cyfran fawr o'r amrywiant a gofnodwyd yn y cyfrifon blynyddol yn ymwneud â thanwariant yn erbyn cyllidebau AME.

**2.18** Mae Trysorlys EM yn cydnabod pa mor ansefydlog yw rhaglenni penodol a'u bod yn seiliedig ar alw, yn ogystal â pha mor anodd yw amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad, rheolir cyllidebau'r rhaglenni hyn yn flynyddol, ac fel arfer, y Trysorlys sy'n darparu'r arian hwn. Mae'r mwyafrif o'n cyllidebau AME yn cwmpasu taliadau heb fod yn arian parod ac mae enghreifftiau'n cynnwys diffygiant asedau, codiadau mewn darpariaeth, benthyciadau i fyfyrwyr sydd wedi'u rhoi a'u had-dalu a phrisiadau pensiwn cyrff a noddir. Ni all Llywodraeth Cymru ailddyrannu arian sydd heb ei wario yn erbyn rhaglenni AME. Esbonnir y prif amrywiannau isod.

**2.19** Bu tanwariant o £83.2 miliwn yng nghyllideb AME Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cynrychioli 46% o gyfanswm y tanwariant AME. Mae'r prif esboniad dros y gwarged ar y gyllideb AME yn ymwneud â'r newid yn narpariaeth Cronfa Risg Cymru ar gyfer hawliadau Esgeulustod Meddygol

[3] Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) yw IFRS 9. Mae'n ymdrin â chyfrifyddu ar gyfer offerynnau ariannol sy'n cwmpasu benthyciadau i fyfyrwyr.

ac Anafiadau Personol yn GIG Cymru. Roedd y ddarpariaeth yr oedd ei hangen ar ddiwedd y flwyddyn yn llai na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Y rheswm am hyn oedd bod nifer yr achosion wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ac roedd y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer disgowntio elfennau cyfandaliadau disgwyliedig yn y dyfodol wedi newid hefyd. Cafodd y newid ei gyflwyno gan Drysorlys EM ym mis Rhagfyr 2018.

**2.20** Bu tanwariant o £28.2 miliwn ar gyllideb AME y MEG Tai a Llywodraeth Leol. Y rheswm dros yr amrywiant oedd addasiadau i drefniadau cyfrifyddu gwerth teg a wnaed mewn perthynas ag eiddo'r cynllun Cymorth i Brynu ar ôl mabwysiadu IFRS 9.

**2.21** Mae'r amrywiant AME o £16.4 miliwn yn MEG yr Economi a Thrafnidiaeth yn deillio o lefelau is o ddiffygiant na'r disgwyl ar eiddo buddsoddi a gofyniad llai am ddarpariaethau yn erbyn rhwymedigaethau yn y dyfodol, yn benodol darpariaethau yn erbyn rhwymedigaethau pensiwn cyrff a noddir yn y dyfodol.

**2.22** Nodwyd tanwariant o £42 miliwn yn erbyn cyllideb AME Addysg sy'n ymwneud â benthyciadau i fyfyrwyr a chyllidebau ad-dalu. Mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu harwain gan y galw, ac maent yn anodd eu darogan. Roedd nifer y benthyciadau a nifer yr ad-daliadau yn y flwyddyn yn llai na'r disgwyl.

**2.23** Bu tanwariant AME o £3 miliwn yn erbyn y MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg. Mae hyn yn ymwneud â'r tanwariant ar y cyllidebau sy'n cwmpasu rhwymedigaethau pensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.

**2.24** Mae'r tanwariant o £2.4 miliwn yn erbyn MEG Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn arfaethedig a gododd wrth i staff drosglwyddo o Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru i Cyfoeth

Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013. Er bod y gyllideb wedi'i chynnwys ym mhob blwyddyn ers y trosglwyddo, nid yw wedi'i defnyddio.

**2.25** Nodwyd tanwariant o £5.7 miliwn yng nghyllideb MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae'r amrywiad hwn yn ymwneud â darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a chostau pensiwn eraill staff Llywodraeth Cymru. Y costau pensiwn yw'r gwahaniaeth rhwng buddion a gronnwyd yn ystod y flwyddyn a chyfraniadau ariannol a wnaed i'r gronfa. Mae'n anodd iawn darogan y cyfraniadau hyn.

**2.26** Mae Atodiad 2 i'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o alldro yn erbyn Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

## 3. Cario symiau ymlaen o fewn Cronfa Wrth Gefn Cymru

**3.1** Mae Cronfa Wrth Gefn ar wahân yn bodoli i Gymru er mwyn helpu i reoli amrywiadau mewn refeniw o drethi ac mae'r Gronfa hefyd yn cynnig gallu cyfyngedig i gario tanwariant drosodd rhwng blynyddoedd. Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru wedi'i chyfyngu i gyfanswm o £350 miliwn. Mae'r swm y gellir ei dynnu i lawr bob blwyddyn o Gronfa Wrth Gefn Cymru wedi'i gyfyngu i £125 miliwn o Adnoddau Cyllidol a £50 miliwn o Gyfalaf. Cawsom ganiatâd gan Drysorlys EM i gario £90 miliwn o Drafodion Ariannol Cyfalaf drosodd i 2019-20 yn ychwanegol at y terfynau arferol.

**3.2** Yn Ail Gyllideb Atodol 2018-19, cofnododd Llywodraeth Cymru DEL Adnoddau Cyllidol heb eu dyrannu o £35.4 miliwn a DEL Cyfalaf o £11 miliwn. Ni ddefnyddiwyd y symiau hyn ac felly maent wedi cael eu hychwanegu at Gronfa Wrth Gefn Cymru.

**3.3** Derbyniodd Llywodraeth Cymru drosglwyddiad cyllideb hwyr oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig o £0.6m o adnodd yllidol a chyfalaf cyffredinol o £0.4m yr oedd hi’n rhy hwyr i’w gynnwys yn yr Ail Gyllideb Atodol sydd wedi’i ychwanegu at Gronfa Wrth Gefn Cymru.

**3.4** Cafodd gofyniad benthyca o £76 miliwn ei bennu yn yr Ail Gyllideb Atodol hefyd. Roedd y gofyniad benthyca £11 miliwn yn is yn ystod chwarter olaf y flwyddyn. Caiff y lleihad yn y gofyniad benthyca ei ddangos fel symudiad yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

**3.5** Cafodd cyllid cyfalaf o £50 miliwn ei dynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru i mewn i DEL cyfalaf heb ei ddyrannu yn yr Ail Gyllideb Atodol. Caiff y swm hwn a dynnwyd i lawr ei ddangos fel symudiad yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru hefyd.

**3.6** Mae'r tanwariant ar Adnoddau Cyllidol a DEL Cyfalaf a nodir uchod yn y ddogfen hon wedi cael eu hychwanegu at Gronfa Wrth Gefn Cymru hefyd.

**3.7** Yn ogystal â'r tanwariant a gofnodwyd gan Lywodraeth Cymru, rhaid cynnwys alldro cyrff eraill a gaiff eu cyllido gan DEL Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

**3.8** Rhagwelwyd gwerth £286m o drethi datganoledig yn yr Ail Gyllideb Atodol. Roedd yr union drethi a gasglwyd werth £272.3m. Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru wedi amsugno'r diffyg o £13.7m.

**3.9** Ad-delir DEL trafodion ariannol cyfalaf ad-daladwy i Drysorlys EM drwy ostyngiad ym malans Cronfa Wrth Gefn Cymru yn unol â'r proffil ad-dalu y cytunwyd arno â Thrysorlys Ei Mawrhydi. Ad-dalwyd £2.9 miliwn gennym yn 2018-19.

**3.10** Caiff cyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol sydd heb ei dyrannu na'i gwario ei cholli ac ni ellir ei chario drosodd yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

**3.11** Mae Tabl 1 yn dangos balans Cronfa Wrth Gefn Cymru ar ddechrau blwyddyn ariannol 2019-20.

**3.12** Y balansau i'w cario drosodd ar gyfer DEL Cymru fydd £305.5 miliwn Adnoddau Cyllidol, £8.8 miliwn Cyfalaf Cyffredinol a £104.3 miliwn Trafodion Ariannol Cyfalaf. Cyfanswm y balans i'w gario ymlaen o fewn Cronfa Wrth Gefn Cymru ar 1 Ebrill 2019 yw £418.6 miliwn. Cawsom ganiatâd i gario drosodd hyd at £440 miliwn i bob pwrpas ac felly mae'r balans o fewn y terfyn diwygiedig.

**3.13** Bydd cynlluniau i ddefnyddio cronfeydd o Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2019-20 yn nodwedd ar gyllidebau atodol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

**Tabl 1 Balans Cronfa Wrth Gefn Cymru yn cynnwys symiau a gariwyd ymlaen o ganlyniad i alldro DEL Cymru 2018-19**

| Cronfa Wrth Gefn Cymru | Adnoddau Cyllidol<br>£m | Cyfalaf<br>£m | Trafodion Ariannol Cyfalaf<br>£m | Cyfanswm<br>£m |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2018** | 271.0 | 53.6 | 91.0 | 415.6 |
| DEL heb ei ddyrannu yn Ail Gyllideb Atodol 2018-19 | 35.4 | 0.7 | 10.3 | 46.4 |
| Trosglwyddiad hwyr gan DEFRA | 0.6 | 0.4 | - | 1.0 |
| Lleihad yn y gofyniad benthyca | - | -11.0 | - | -11.0 |
| Cyfalaf a dynnir i lawr o'r gronfa wrth gefn | - | -50.0 | - | -50.0 |
| Tanwariant Llywodraeth Cymru | 11.7 | 14.8 | 5.9 | 32.4 |
| Tanwariant cyrff eraill | 0.5 | 0.3 | - | 0.8 |
| Alldro trethi datganoledig | -13.7 | - | - | -13.7 |
| Ad-daliadau cyfalaf ad-daladwy i Drysorlys EM | - | - | -2.9 | -2.9. |
| **Balans ar 1 Ebrill 2019** | **305.5** | **8.8** | **104.3** | **418.6** |

**3.14** Roedd dyraniadau i bortffolios Llywodraeth Cymru yn y Gyllideb Atodol Gyntaf yn 2019-20 yn gyfanswm o Adnoddau Cyllidol o £265.9 miliwn a Chyfalaf o £90.1 miliwn.

## Atodiad 1 – Alldro Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) 2018-19

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb Atodol | | | Alldro | | | Tanwariant / Gorwariant (-) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau Cyllidol £m | Adnoddau Anghyllidol £m | Cyfalaf £m | Adnoddau Cyllidol £m | Adnoddau Anghyllidol £m | Cyfalaf £m | Adnoddau Cyllidol £m | Adnoddau Anghyllidol £m | Cyfalaf £m |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | 7,194.6 | 191.5 | 434.0 | 7,193.3 | 192.0 | 432.8 | 1.3 | -0.5 | 1.2 |
| **Tai a Llywodraeth Leol** | 3,748.6 | 0.2 | 739.3 | 3,748.6 | 0.2 | 739.8 | 0 | 0 | -0.5 |
| **Economi a Thrafnidiaeth** | 538.3 | 150.0 | 588.9 | 538.0 | 149.3 | 584.1 | 0.3 | 0.7 | 4.8 |
| **Addysg** | 1,399.3 | 371.1 | 214.4 | 1,399.1 | 317.2 | 209.1 | 0.2 | 53.9 | 5.3 |
| **Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** | 181.4 | 16.0 | 95.7 | 181.3 | 16.1 | 93.6 | 0.1 | -0.1 | 2.1 |
| **Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg** | 137.1 | 6.7 | 26.8 | 136.1 | 6.7 | 22.7 | 1.0 | 0 | 4.1 |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | 328.6 | 19.9 | 22.3 | 319.8 | 19.5 | 18.6 | 8.8 | 0.4 | 3.7 |
| **CYFANSWM** | **13,527.9** | **755.4** | **2,121.4** | **13,516.2** | **701.0** | **2,100.7** | **11.7** | **54.4** | **20.7** |

## Atodiad 2 – Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol 2018-19

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb Atodol<br>£m | Alldro<br>£m | Tanwariant/ Gorwariant (-)<br>£m |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | 170.0 | 86.8 | 83.2 |
| **Tai a Llywodraeth Leol** | 1,074.4 | 1,046.2 | 28.2 |
| **Economi a Thrafnidiaeth** | 32.5 | 16.1 | 16.4 |
| **Addysg** | 564.9 | 522.9 | 42.0 |
| **Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** | 2.4 | 0 | 2.4 |
| **Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg** | 3.0 | 0 | 3.0 |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | 2.9 | -2.8 | 5.7 |
| **CYFANSWM** | **1,850.1** | **1,669.2** | **180.9** |

Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-28-19 P1

Mehefin 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2018-19

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 wedi cael ei baratoi ar y cyd, ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys materion fel a gyfarwyddwy gan y Trysorlys.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos y canlynol yn ystod 2018-19:

- mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu harfer yn gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, heb unrhyw newidiadau sylweddol i'r gwaith a gynlluniwyd; ac
- mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun ar gyfer 2018-19 wedi'u cyflawni i raddau helaeth.

Mae'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 wedi cael eu paratoi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/ neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

24 HEOL Y GADEIRLAN

CAERDYDD


CF11 9LJ

Ffôn 029 2032 0500

E-bost post@archwilio.cymru


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# CIPOLWG AR Y FLWYDDYN



## EBRILL 2018

Daethom â nifer o ffynonellau data ynghyd i ddarparu cipolwg ar gyflwr presennol gofal sylfaenol yng Nghymru.

Daethom i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n amrywio wrth ystyried i ba raddau y maent yn sicrhau bod eu gwasanaethau'n hygyrch i bobl ac arnynt angen gwasanaethau dehongli a chyfieithu.




## MAI

Fe gyhoeddon ni adroddiad yn nodi nad yw cyrff cyhoeddus wedi mynd ati mewn modd systematig eto i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'w ffordd o weithio.

Fe argymhellon ni y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i gynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn y broses o gynllunio gofal a'r broses o gytuno ar lwybrau at fwy o annibyniaeth.




## MEHEFIN

Fe archwilion ni berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood ac fe nodon ni'r ffeithiau a arweiniodd at derfynu cytundeb cydweithredol i hyrwyddo cynyrchiadau teledu a ffilm yng Nghymru.

Fe gynhalion ni weminar a oedd yn trafod sut y gallai'r rhai sy'n rhan o gynllunio a darparu gwasanaethau amddiffyn defnyddwyr sydd wedi dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ymgysylltu â hwy mewn ffordd well.



## GORFFENNAF

Fe gynhyrchon ni ganllaw i'r modd y mae cyllid cyhoeddus yng Nghymru'n gweithio, a oedd wedi'i fwriadu i gefnogi gweithgarwch effeithiol i graffu ar benderfyniadau ynglŷn â gwariant cyhoeddus.

Fe ymgymerodd Archwilydd Cyffredinol newydd Cymru, Adrian Crompton, â'i swydd.



## AWST

Fe gyhoeddon ni femorandwm am gontractau gwerthu pren a ddyfarnwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru gan nodi'r rhesymau dros ddarparu barn archwilio amodol.

Daethom i'r casgliad, er gwaethaf ymdrechion cadarnhaol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i neilltuo holl gyllid yr UE cyn Brexit, fod Cymru'n wynebu risg sylweddol o golli peth cyllid os bydd y DU yn gadael heb gytundeb.



## MEDI

Fe gyhoeddon ni bedwar adroddiad budd y cyhoedd a oedd yn amlygu methiannau mewn trefniadau llywodraethu ac annigonolrwydd mewn rheolaeth ariannol mewn cynghorau tref a chymuned.


Fe gynhalion ni seminar dysgu ar y cyd a oedd yn dwyn y teitl 'dal y drych i fyny' ac a oedd yn ymwneud â dylunio a darparu gwasanaethau trwy ganolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau.



## HYDREF

Fe gyhoeddon ni ganlyniadau ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru, sydd wedi canfod at atal £5.4 miliwn mewn twyll a gordaliadau.

Daethom i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu rhaglen a reolir yn dda i helpu cynghorau i gaffael capasiti ar gyfer trin gwastraff bwyd a gwastraff gweddillol.



## TACHWEDD

Fe alwon ni ar awdurdodau lleol yng Nghymru i feddwl a gweithredu'n wahanol i gynnal gwasanaethau mewn cymunedau gwledig a helpu'r cymunedau hynny i oresgyn yr heriau y maent yn eu hwynebu.

Fe gyhoeddon ni adroddiad a oedd yn nodi bod targedau amser aros ar gyfer archwiliadau radioleg yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd a bod gwasanaethau radioleg yn cael eu rheoli'n dda, ond bod angen camau gweithredu clir ac wedi'u targedu i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi â'r galw yn y dyfodol.



## RHAGFYR

Daethom i'r casgliad mai dim ond rhai awdurdodau lleol sydd wedi canolbwyntio ar greu amgylchedd i gael y gorau o'r data y maent yn ei ddal i helpu i wella gwasanaethau a deilliannau.


Fe ddangoson ni fod Awdurdod Cyllid Cymru wedi gweithredu'n effeithiol hyd yma i weinyddu trethi a oedd newydd gael eu datganoli yng Nghymru.



## IONAWR 2019

Canfuom fod cyfradd defnyddio Fy Ngherdyn Teithio, y cynllun teithiau rhatach ar fysiau i bobl ifanc, wedi bod yn sylweddol is nag a awgrymwyd gan amcangyfrifon cynnar Llywodraeth Cymru.

Fe gyhoeddon ni adroddiad a oedd yn nodi bod gwariant ar staff asiantaeth gan GIG Cymru wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda thuag 80% o'r gwariant hwnnw'n talu am staff i gyflenwi pan fo swyddi'n wag.



## CHWEFROR

Fe gynhyrchon ni bapur trafod a rhestr wirio chwe phwynt ar gyfer cynghorau yng Nghymru i helpu i wella swyddogaethau trosolwg a chraffu.

Fe nodon ni ein barn ynglŷn â dull y sector cyhoeddus o reoli goblygiadau Brexit 'heb gytundeb'.



## MAWRTH

Fe sefydlon ni rai gwersi i'w dysgu ar gyfer penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol gan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a phartneriaethau eraill tebyg.

Fe gynhalion ni weminar a oedd wedi'i bwriadu i roi'r offer a'r wybodaeth angenrheidiol i aelodau o fyrddau ac aelodau anweithredol allu ceisio sicrwydd bod eu sefydliad wedi rhoi'r trefniadau seiberddiogelwch angenrheidiol ar waith.

# CYNNWYS A CHALLAW I DDARLLEWYR

## ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

Adolygiad o waith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn 2018-19, gan gynnwys dadansoddiad o'n cyflawniadau a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.


Trosolwg 9

Crynodeb o bwy ydym ni, yr hyn a wnawn, y prif risgiau rydym yn eu hwynebu a'n perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Datganiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd 9

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud 11

Y prif broblemau a risgiau rydym yn eu hwynebu 13

Dangosyddion perfformiad 14

Dadansoddi perfformiad 18

Asesiad sy'n ystyried i ba raddau y mae'r rhaglenni gwaith a'r blaenoriaethau tair blynedd a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol 2018-19 wedi'u cyflawni.

Prosiectau archwilio 19

Gwaith arfer da 21

Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol 23

Gweithgarwch ymgysylltu a chydweithio 25

Ein trefniadau llywodraethu ac arwain 27

Ein defnydd o adnoddau 28


## ADRODDIAD AR ATEBOLRWYDD

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth ag arfer llywodraethu corfforaethol da.


Adroddiad ar lywodraethu corfforaethol 47

Esboniad o gyfansoddiad a threfniadaeth ein strwythurau llywodraethu a'r ffordd y maent yn helpu i gyflawni ein nod a'n hamcanion.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr 48

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 50

Datganiad llywodraethu 52

Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a staff 72

Ein polisi cydnabyddiaeth ariannol, manylion cydnabyddiaeth ariannol a buddion pensiwn aelodau'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Pwyllgor Rheoli, ein datgeliad cyflog teg ac adroddiad ar ein strwythur staffio.

Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol 72

Adroddiad staff 83

Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd 90

Ein crynodeb o alldro adnoddau, trosolwg o dueddiadau yn ein gwariant hirdymor, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol, gan gynnwys ei farn ar y datganiadau ariannol, rheoleidd-dra a materion eraill.

Crynodeb o alldro adnoddau a nodiadau cysylltiedig 90

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 95

## DATGANIADAU ARIANNOL

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â nodiadau ategol ac esboniadol.

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr 101

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol 102

Datganiad o Lifoedd Arian Parod 104

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 105

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 106

Geirfa 126

## ATODIADAU

Atodiad 1: Rhaglenni gwaith a gyflawnwyd yn 2018-19 129

Atodiad 2: Sylwebaeth ar gynnydd tuag at gyflawni ein blaenoriaethau 134

# ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

## ADOLYGIAD O WAITH YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU YN 2017-18, GAN GYNNWYS DADANSODDIAD O'N CYFLAWNIADAU A'N PERFFORMIAD, A'N SEFYLLFA AR DDIWEDD Y FLWYDDYN.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

6 Mehefin 2019

# TROSOLWG

## Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol



Roedd 2018-19 yn flwyddyn gynhyrchiol iawn i ni o ran ein gwaith archwilio. Fe lwyddom ni i gyflawni'r rhaglen gyfan o archwiliadau a oedd wedi'i nodi yn ein Cynllun Blynyddol i safon ansawdd uchel. Rhaid i'r rhan fwyaf o'r clod am y llwyddiant hwn fynd i broffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled staff Swyddfa Archwilio Cymru a'n contractwyr, yr wyf yn eithriadol o ddiolchgar iddynt.

Mae detholiad o astudiaethau achos wedi cael ei gynnwys yn yr Adroddiad hwn i roi mwy o ddealltwriaeth am rai o'r prosiectau yr ydym wedi bod yn rhan ohonynt, a'r cyfraniad sylweddol y mae ein gwaith yn ei wneud o ran dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif a helpu i wella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Fe wnaethom hefyd gynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn o ran trawsnewid y ffordd yr ydym yn cyflawni ein rhaglen archwilio i wneud yn siŵr ein bod yn cynyddu pŵer ein mewnwelediad unigryw i'r eithaf, yn dod â sylwebaeth ddibynadwy i'r amlwg ar y materion cywir ar yr adeg gywir, ac yn ymgysylltu mewn ffordd sy'n taro tant gydag ystod ehangach o gynulleidfaoedd.

Fe wnaethom adolygu digwyddiadau megis sefyllfa Brexit, a oedd yn newid yn gyflym, wrth iddynt ddatblygu, a darparu ein safbwynt annibynnol ar yr hyn y mae amgylchedd sy'n newid yn ei olygu i'r cyrff a archwilir gennym.

Fe wnaethom ddefnydd cynyddol o ddadansoddeg data i wella'r modd yr ydym yn canfod, yn caffael ac yn dadansoddi data a sut yr ydym yn darlunio ac yn cyfleu ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Ac fe gefnogom ni'r broses newid trwy hwyluso'r drefn o rannu arfer da a gwersi o archwiliadau trwy raglen o seminarau a gweminarau, gan fynd ati'n fwyfwy i gynnwys barn a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr byd-eang yn y sgyrsiau hyn.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn amcanu at adeiladu ar y momentwm a fagwyd trwy ein gwaith yn 2018-19 a datgloi ein potensial llawn fel ysgogydd newid a gwelliant wrth graidd gwasanaethau cyhoeddus trwy wireddu'r uchelgeisiau a nodir yn ein Cynllun Blynyddol newydd.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Datganiad gan y Cadeirydd



Mewn nifer o ffyrdd mae'r deuddeng mis diwethaf wedi bod yn flwyddyn o newid yn Swyddfa Archwilio Cymru. Fe groesawom ni Adrian fel yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr newydd ac fe dreuliom ni amser yn ail-werthuso ein risgiau a'n blaenoriaethau allweddol ac yn diweddaru ein huchelgeisiau corfforaethol. Fodd bynnag, fe wnaethom hefyd barhau i weithio'n ddygn i gyflawni ein hymrwymiadau parhaus i gynnal safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol, ceisio arbedion effeithlonrwydd pellach a gwneud gwaith sy'n cael effaith ac yn ychwanegu gwerth.

Ar y cyfan, fe wnaethom berfformio'n dda ac rwy'n fodlon ar ein cyflawniadau ac yn ymfalchïo ynddynt. Cafodd risgiau strategol eu rheoli'n dda a llwyddom i gyrraedd llawer o'r targedau heriol a osodwyd gennym ar gyfer ein dangosyddion perfformiad allweddol. Hoffwn dalu teyrnged i staff Swyddfa Archwilio Cymru am eu holl waith caled a'u hymrwymiad trwy gydol y flwyddyn. Yn yr Adroddiad hwn rydym yn dathlu ein cyflawniadau, y mae llawer ohonynt, ond rydym hefyd yn nodi rhai meysydd pwysig lle mae angen i ni fyfyrio a gwneud gwelliannau pellach.

Ein rôl ni fel bwrdd yw goruchwylio'r gwaith o gyflawni holl swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru a chefnogi'r Archwilydd Cyffredinol yn ei rôl o ran darparu sicrwydd annibynnol bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth. Fe gwrddom ni'n ffurfiol chwe gwaith yn ystod y flwyddyn ac rwy'n ddiolchgar iawn am gefnogaeth fy nghyd-aelodau o'r bwrdd.

Fel pob corff cyhoeddus, yn awr mae angen i ni barhau i addasu a gwella i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r newidiadau a'r heriau sydd o'n blaenau a gwireddu ein huchelgais i fod yn sefydliad patrymol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a'r tu hwnt.

**Isobel Everett**
Cadeirydd, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru

## Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo elfennau sylweddol o'r arian hwn i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi tua 270 o staff proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill The Wales Audit Office gan gynnwys arbenigedd ychwanegol gan gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat, er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau.

### Pam ein bod yma




**Sicrhau**

pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda



**Egluro**

sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl



**Ysbrydoli**

a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a gwneud gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod o gyrff cyhoeddus, ynghyd â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Gall y swyddogaethau hyn gael eu harfer, ac y cyd â'i gilydd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff i archwilio gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.

At ei gilydd, rydym yn archwilio gwerth tuag £19 biliwn o incwm a gwariant, sydd bron yn draean o Gynnyrch Domestig Gros Cymru.

Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n darparu rhagor o wybodaeth am:

a sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru

b ein huchelgeisiau mwy hirdymor;

c ein hamgylchedd gweithredu ;

ch ein rhaglenni gwaith arfaethedig ac ymrwymiadau cysylltiedig i newid am y 12 mis nesaf; a

d sut rydym yn mesur ein perfformiad ac yn adrodd arno.



## Y prif broblemau a risgiau rydym yn eu hwynebu

Dros y blynyddoedd nesaf, rydym am ryddhau ein potensial llawn fel ysgogydd newid a gwelliant wrth galon gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd. Mae gennym bedwar uchelgais eang a fydd yn ein galluogi i wneud hyn yn ein tyb ni.

### Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw

- Cryfhau natur rymus ein dealltwriaeth unigryw drwy weithio mewn tîm a rhannu gwybodaeth mewn ffordd fwy integredig.
- Chwilio'n rhagweithiol am synergeddau a thueddiadau yn y wybodaeth sydd gennym.
- Canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ac a wnaiff y gwahaniaeth mwyaf i gyrff cyhoeddus a'r cyhoedd.

### Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo

- Dod â thystiolaeth a sylwebaeth ddibynadwy i'r amlwg ar y materion cywir ar yr adeg gywir.
- Sicrhau ein bod yn cyflwyno'r ffeithiau'n glir ac yn egluro'n gryno pam ein bod wedi dod i gasgliad neu ddehongliad penodol.
- Bod yn effro ac yn ymatebol i gyfleoedd newydd i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth archwilio lle gall ychwanegu gwerth.

### Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol

- Canolbwyntio tuag allan mewn ffordd amlwg ac ymgysylltu mewn ffordd sy'n berthnasol i ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Dylanwadu ar ffordd o feddwl ac ymddygiad eraill a llywio'r ddadl gyhoeddus ehangach.
- Ceisio a gwrando ar syniadau a meddyliau y tu hwnt i Gymru a'r sector cyhoeddus.

### Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

- Gan ein bod yn arddel barn archwilio ar eraill, sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn rydym yn cynghori eraill i wneud.
- Darparu arweinyddiaeth glir, gyson a dilys a gwneud penderfyniadau'n gyflymach.
- Grymuso pobl drwy'r sefydliad i feddwl am syniadau newydd a gwneud newid cadarnhaol.

Fel a nodir mewn mwy o fanylder yn ein Cynllun Blynyddol, yn ein barn ni, y ffactorau canlynol yw'r rhai a fydd yn cael y dylanwad mwyaf ar y ffordd y byddwn yn gwneud ein gwaith ac yn cyrraedd ein nod a chyflawni ein hamcanion dros y blynyddoedd nesaf:

a Rydym yn dal i fod mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol

b Mae'r dirwedd wleidyddol a'r dirwedd polisi yn parhau i esblygu

c Mae cwmpas ehangach i drefniadau llywodraethu yn y sector cyhoeddus

ch Rydym yn byw mewn cymdeithas fwyfwy rhwydweithiol

Darperir cyfrif o'n trefniadau rheoli risg yn 2018-19, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd yr ydym yn eu hwynebu, yn yr adran Datganiad Llywodraethu o'r Adroddiad hwn.

## Dangosyddion perfformiad

Roedd fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018-19. Gwnaethom hefyd ddatblygu cyfres o dargedau gan gyfeirio at lefelau perfformiad ar ddiwedd 2017-18 a meincnodau priodol.

Yn ystod 2018-19, fe ddefnyddiom ni gymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur ein perfformiad a'n risgiau ac adrodd a myfyrio arnynt. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau chwarterol i'n Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd ein targedau perfformiad.

Ar y cyfan, yn 2018-19, fe gyrhaeddom ni ein targedau ar gyfer 11 o'r 26 o ddangosyddion perfformiad, ac roeddem yn agos at gyrraedd ein targedau ar gyfer saith dangosydd arall. Bydd ein gwaith gwella yn ystod 2019-20 yn canolbwyntio ar wella ein perfformiad yn erbyn yr wyth dangosydd sy'n weddill. Yn 2019-20 byddwn hefyd yn cynnal adolygiad llawn o'n fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn gyson â'n hamcanion ar y cyfan.

## Sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o ran cyrraedd ein targedau perfformiad allweddol

### CYFLAWNIAD AC EFFAITH

| | |
|---|---|
| 99% | wedi'u derbyn yn llwyr i'w gweithredu |
| £6.6M | o arbedion posibl wedi'u pennu drwy ein gwaith |
| 89% | o'r rhanddeiliaid yn tybio ein bod yn cyflawni amcanion yr Archwilydd Cyffredinol |
| 90% | o'r cynhyrchion archwilio allweddol wedi'u cyflawni'n brydlon |
| 1,363 | o bobl wedi mynychu ein seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd |
| 95% | o'r mynychwyr yn ein digwyddiadau cyfnewid arfer da wedi dweud eu bod yn ddefnyddiol |
| 35% | o'r ymweliadau â'r wefan wedi arwain at weithred, ee lawrlwytho adroddiad |
| 22,394 | o ymweliadau â'r wefan lle cyflawnwyd o leiaf un weithred |
| AMH | Sgôr Klout sy'n adlewyrchu ein cyrhaeddiad yn y cyfryngau cymdeithasol[1] |
| 2 | achos lle na chafodd ymateb i bryder a godwyd ynghylch gwariant cyhoeddus ei roi o fewn 30 diwrnod |
| 26 | o Adroddiadau Cenedlaethol wedi'u cyhoeddi |

Wedi cyflawni ein targed — Yn agos at gyflawni ein targed — Angen gwella — Angen gwella'n sylweddol

1 Nid yw'r mesur sgôr Klout yn cael ei ddefnyddio mwyach. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych am ddull arall sy'n mesur lefel gyffredinol yr ymgysylltu ar bob platfform cyfryngau cymdeithasol.

## ARWEINYDDIAETH A DIWYLLIANT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 67% | o'r staff yn teimlo cysylltiad emosiynol cryf â'r sefydliad ac ymrwymiad cryf iddo | |
| | 84% | o'r staff yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'n hamcanion a'n dibenion sefydliadol | |
| | 42% | o'r staff yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'n harweinyddiaeth a'r modd rydym yn rheoli newid | |
| | 77% | o'r staff yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'n diwylliant sefydliadol | |
| | 71% | o'r staff yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn ag effeithiolrwydd eu rheolwr | |
| | 79% | o'r staff yn teimlo'u bod yn cael eu trin yn deg ac yn gynhwysol | |
| | 52% | o'r staff yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'n trefniadau dysgu a datblygu | |
| | 81% | o'r staff yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael iddynt a'u llwyth gwaith | |

Wedi cyflawni ein targed · Yn agos at gyflawni ein targed · Angen gwella · Angen gwella'n sylweddol

Tudalen y pecyn 30

# RHEOLI'R BUSNES

| | | |
|---|---|---|
| 6.7 | diwrnod wedi'u colli i salwch am bob aelod o staff y flwyddyn | |
| 1.1% | amrywiant mewn gwariant gros a nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2018-19 | |
| 84% | o daliadau i gyflenwyr wedi'u gwneud o fewn deng niwrnod gwaith | |
| £490K | o arbedion cost ac effeithiolrwydd wedi'u hadnabod drwy'r busnes | |
| £3,378 | yw costau'r ystâd am bob aelod o staff cyfwerth ag amser llawn | |
| 0 | cwyn ynglŷn â'n darpariaeth Gymraeg wedi dod i law ac wedi'i chadarnhau | |
| LEFEL 5 | Wedi ein hachredu i Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd | |
| 398 | tunnell o allyriadau cyfwerth â $CO_2$ wedi'i cynhyrchu[2] | |

- Wedi cyflawni ein targed
- Yn agos at gyflawni ein targed
- Angen gwella
- Angen gwella'n sylweddol

2 Y cawsant i gyd eu gwrthbwyso trwy brynu credydau carbon; ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr adran ar Stiwardiaeth Amgylcheddol.

# DADANSODDI PERFFORMIAD

Yn yr adran hon, rydym yn asesu i ba raddau y mae'r rhaglenni gwaith a'r blaenoriaethau tair blynedd a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol 2018-19 wedi'u cyflawni, gan gynnwys drwy ddefnyddio enghreifftiau o astudiaethau achos.

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r canlynol:

a Atodiad 1, sy'n rhoi mwy o fanylion am raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol a gyflawnwyd yn 2018-19, ac sy'n cynnwys adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatgelu gwybodaeth; ac

b Atodiad 2, sy'n darparu sylwebaeth bellach ar y cynnydd rydym wedi'i wneud tuag at gyflawni ein blaenoriaethau.

Rhennir ein dadansoddiad yn chwe adran. Mae'r pedair adran gyntaf yn ymwneud â rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r ddwy adran arall yn ymwneud â rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn 2018-19 fe lwyddon ni i gyflawni'r rhaglen waith a oedd wedi'i nodi yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn.

## Prosiectau archwilio

Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a gwneud gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod o gyrff cyhoeddus, ynghyd â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Gall y swyddogaethau hyn gael eu harfer, ac y cyd â'i gilydd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff i archwilio gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.

At ei gilydd, rydym yn archwilio gwerth tuag £19 biliwn o incwm a gwariant, sydd bron yn draean o Gynnyrch Domestig Gros Cymru.

Yn ystod 2018-19, cafodd ein holl brosiectau archwilio eu cwblhau neu fe wnaed cynnydd gyda hwy yn unol â'n Cynllun.

Mae ansawdd ein gwaith o'r pwys mwyaf i ni a'n rhanddeiliaid. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio, a gaiff ei adolygu'n flynyddol, yn rhagnodi'r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau archwilio a rhai o swyddogaethau penodol eraill yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae wedi'i fwriadu i ategu'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio ac ymgorffori arfer proffesiynol gorau.

Mae ein Datganiad Tryloywder yn darparu mwy o fanylder ynghylch sut y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyrraedd safonau uchel o ran y ffordd y mae'n gweithio ac yn ansawdd ei gwaith. Fel a nodir yn y Datganiad, rydym yn cyflawni rhaglenni blynyddol o adolygiadau ansawdd ar sampl o archwiliadau o gyfrifon a phrosiectau archwilio perfformiad a gwblhawyd i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau ansawdd gofynnol. Eleni, dangosodd ein gwaith monitro ansawdd fod 100% o'r archwiliadau o gyfrifon yn 2017-18 a samplwyd a 100% o'r prosiectau archwilio perfformiad yn 2018 a adolygwyd wedi cyrraedd y safonau ansawdd gofynnol.

CYHOEDDWYD DROS **800** O FARNAU ARCHWILIO AR GYFRIFON CYRFF CYHOEDDUS

ARDYSTIWYD 23 O GYNLLUNIAU GRANT SY'N WERTH BRON I **£3 BILIWN**

CYHOEDDWYD **26** O ADRODDIADAU CENEDLAETHOL

CYMERADWYWYD TUAG **£1 BILIWN** O DALIADAU ALLAN O GRONFA GYFUNOL CYMRU BOB MIS

## Enghreifftiau o astudiaethau achos

### Tynnu sylw at broblem gynyddol – rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol

Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar Reoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws Cymru. Yn yr adroddiad hwn, fe dynnon ni sylw at broblem gynyddol sydd, hyd yma, yn nodweddiadol heb gael llawer o sylw – ledled Cymru, mae niferoedd uchel o gleifion yn disgwyl am adolygiad ar restr gan y GIG o gleifion allanol ac arnynt angen apwyntiad dilynol, gyda risgiau clinigol cysylltiedig.

Ynghyd â chyfleu ein canfyddiadau ar lefel genedlaethol trwy'r adroddiad cryno byr a hawdd i'w ddarllen, fe wnaethom ystod o argymhellion ar gyfer gweithredu trwy adroddiadau archwilio lleol.

Fe gymeron ni gamau rhagweithiol i sicrhau bod grwpiau cenedlaethol allweddol yn gweld y canfyddiadau trwy roi cyflwyniadau i'r canlynol:

a Y Bwrdd Cenedlaethol y Rhaglen Gofal wedi'i Drefnu a'i Grŵp Llywio Cleifion Allanol;

b Grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan; a

c Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth a Gwella Gofal Iechyd GIG Cymru.

Cafodd y cyflwyniadau eu hategu ag offeryn data rhyngweithiol, ac mae ein gwaith wedi helpu i sicrhau bod gweithgarwch craffu a chamau gweithredu yn canolbwyntio ar y maes pwysig hwn. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bellach yn cynnal ymchwiliad yn sgîl ein gwaith ac mae disgwyl iddynt gyhoeddi eu canfyddiadau yn haf 2019.

> **MAE CLEIFION ALLANOL SY'N DISGWYL AM APWYNTIADAU DILYNOL WEDI DIODDEF O GANLYNIAD I'R AMSER RHWNG ATGYFEIRIO A THRINIAETH; YN AWR BYDD GWAITH SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU YN SICRHAU BOD CRAFFU CENEDLAETHOL YN DIGWYDD MEWN PERTHYNAS Â CHLEIFION ALLANOL**
>
> **MAE ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU YN ALLWEDDOL I SICRHAU BOD GWELLIANNAU'N CAEL EU GWNEUD**
>
> – DETHOLIADAU O GOFNODION Y GRŴP LLYWIO CENEDLAETHOL AR GLEIFION ALLANOL

Tudalen y pecyn 34

## Gwaith archwilio sy'n gysylltiedig â Brexit

Mae ymadawiad arfaethedig y DU â'r Undeb Ewropeaidd wedi cael lle amlwg yn ein gwaith archwilio yn 2018-19.

Yn hanner cyntaf y flwyddyn, fe gyhoeddon ni ganfyddiadau ein hadolygiadau o'r modd yr oedd y risgiau a'r cyfleoedd a achosir gan Brexit i Gronfeydd Strwythurol yr UE a'r Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru yn cael eu rheoli. Wedyn ym mis Chwefror 2019 fe gyhoeddon ni adroddiad ar y Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'; adroddiad a gafodd gryn dipyn o sylw yn y cyfryngau ac a ategodd ymchwiliad parhaus i Brexit a oedd yn cael ei gynnal gan Bwyllgor Materion Allanol y Cynulliad Cenedlaethol.

Fe godon ni ymwybyddiaeth bellach o'n canfyddiadau allweddol ac fe hwyluson ni drafodaethau pellach am y pwnc trwy weminar, y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon blog ac mewn tair cynhadledd a gynhaliwyd mewn lleoliadau ledled Cymru.

Yn 2019-20, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau sy'n gysylltiedig â Brexit a'u goblygiadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn fwy manwl.

## Gwaith arfer da

Ffocws allweddol i'n gwaith arfer da yw hwyluso sgyrsiau rhwng darparwyr gwasanaeth lle mae'r gwersi o'n gwaith archwilio ac o'u llwyddiannau a methiannau cymharol hwy'n cael eu rhannu wyneb yn wyneb. Yn gynyddol, rydym yn cyflwyno barn a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr byd-eang i'r sgyrsiau hyn.

Mae ein rhaglen o seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd yn hyblyg a chaiff pynciau pellach eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn.

CYNHALIWYD **18** O SEMINARAU A GWEMINARAU DYSGU AR Y CYD

**1,363** O BOBL WEDI MYNYCHU EIN SEMINARAU A'N GWEMINARAU

**95%** O'R MYNYCHWYR O'R FARN BOD EIN SEMINARAU A'N GWEMINARAU'N DDEFNYDDIOL NEU'N DDEFNYDDIOL IAWN

**88%** O'R RHANDDEILIAID O'R FARN BOD EIN GWAITH ARFER DA WEDI BOD O FUDD I WASANAETHAU CYHOEDDUS

Tudalen y pecyn 35

# Enghraifft o astudiaeth achos

## Rhannu gwersi a ddysgwyd o Wlad y Basg

Yn ystod 2018, enillodd un o aelodau ein tîm arfer da Gymrodoriaeth Teithio Winston Churchill i edrych ar drefniadau llywodraethu ac effaith cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol ar raddfa fawr yn UDA a Gwlad y Basg. Mae rôl y sefydliadau hyn o ran cefnogi cymunedau ffyniannus, lles pobl a lleihau anghydraddoldeb yn uniongyrchol berthnasol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr 2018, fe gynhalion ni ddigwyddiad dysgu ar y cyd a gafodd dderbyniad da lle teithiodd chwech o bobl o Wlad y Basg i Gymru am bedwar diwrnod i rannu eu profiadau ac enghreifftiau o gyflawni prosiectau sy'n gyson â llawer o ddyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Trwy ddefnyddio gweminarau ar-lein, blogiau, ymweliadau â safleoedd a digwyddiadau wyneb yn wyneb roedd dros 250 o bobl yn gallu ymgysylltu â'r ymwelwyr o Wlad y Basg i ddysgu o'u profiadau a meithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarnhaol.



## Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

Mae gan ein gwaith rôl allweddol o ran cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus pan fo'n ystyried materion sy'n ymwneud â'r defnydd o adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Lle y bo'n berthnasol, gall ein gwaith hefyd lywio gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol y mae eu cylch gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig . Yn 2018-19, fe gyflwynom ni 20 o adroddiadau i'w hystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad.

Trwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom hefyd fynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio'r prif gyrff rydym yn eu harchwilio er mwyn eu briffio'n rheolaidd ac adrodd ar ein gwaith archwilio, ac fe ddarparon ni ragor o gyngor a chymorth i bwyllgorau archwilio a chraffu.

Hefyd, cawsom ohebiaeth yn rheolaidd gan aelodau o'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill a oedd yn codi pryderon posibl am stiwardiaeth ar arian ac asedau cyhoeddus, ac mae'r Archwilydd Cyffredinol yn 'berson rhagnodedig' ar gyfer gwneud datgeliadau chwythu'r chwiban.

GWNAETH ALLBYNNAU EIN GWAITH GEFNOGI **30** O **GYFARFODYDD** Y **PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS**

CAFWYD **96** O DDARNAU O **OHEBIAETH** YN CODI PRYDERON POSIBL AM WARIANT CYHOEDDUS

**DIM OND DAU** ACHOS LLE **NA CHAFODD YMATEB I BRYDERON** A GODWYD YNGHYLCH GWARIANT CYHOEDDUS **EI ROI O FEWN 30 DIWRNOD**

GWNAETH **23** O UNIGOLION GYSYLLTU Â NI GAN DDYNODI EU BOD AM WNEUD **DATGELIAD CHWYTHU'R CHWIBAN**

# Enghreifftiau o astudiaethau achos

## Helpu i wneud craffu'n addas ar gyfer y dyfodol

Trwy gydol 2018, aethom ati ar y cyd gyda'r 22 o gynghorau yng Nghymru i archwilio pa mor 'addas ar gyfer y dyfodol' yw eu trefniadau trosolwg a chraffu. Fe wnaethom ystyried sut y mae craffu'n ymateb i heriau cyfredol, gan gynnwys y rhai a gyflwynir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut y maent yn dechrau craffu ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) a sefydlwyd yn ddiweddar.

Fe wnaethom hefyd archwilio pa mor barod yw swyddogaethau trosolwg a chraffu i ymateb i heriau yn y dyfodol megis pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus. Ar ôl cwblhau ein gwaith, fe wnaethom:

a cyhoeddi adroddiadau ar wahân gyda chynigion ar gyfer gwella i bob un o'r cynghorau;

b adnabod chwe thema a mater cyffredin a ddeilliodd o'r gwaith a chyhoeddi'r rhain ym mis Chwefror 2019 mewn Papur trafod a rhestr wirio gysylltiedig i gynorthwyo cynghorau i fyfyrio ynghylch sut i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu swyddogaethau craffu.

## Ymateb i bryderon a godwyd trwy ohebiaeth

Mewn ymateb i bryderon a godwyd trwy ohebiaeth gan Aelod Cynulliad a gafodd eu hystyried gan y tîm archwilio perthnasol, fe wnaethom archwilio a chyhoeddi adroddiad am berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood. Roedd ein hadroddiad yn nodi ystod o bryderon ynghylch llywodraethu a gwerth am arian ac fe roddodd gymorth gydag ymchwiliadau dilynol gan ddau o Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol. Fe wnaeth y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ystyried agweddau ar berthynas fasnachol Llywodraeth Cymru â Stiwdios Pinewood, gan dynnu'n helaeth ar ein gwaith archwilio wrth lunio eu hargymhellion i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## Gweithgarwch ymgysylltu a chydweithio

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi parhau i weithredu ar eu hymrwymiad i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid er mwyn llywio'r broses o ddatblygu gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, sicrhau ei fod mor berthnasol â phosibl ac estyn ei gyrhaeddiad a'i effaith.

Yn unol â'n Cynllun, rydym hefyd wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith, ac wedi gwneud ychydig o waith archwilio a gomisiynwyd.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu gwneud trefniadau gyda mathau penodol o gyrff er mwyn iddi hi neu'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaethau i'r cyrff hynny, neu arfer eu swyddogaethau. Ond rydym yn ymwybodol y dylai'r holl weithgareddau hynny fod yn hunangyllidol ac na ddylid eu cyflawni ar draul ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

O bryd i'w gilydd, rydym yn falch o gynrychioli Cymru ar y llwyfan rhyngwladol mewn perthynas â'n gwaith ac, yn 2018-19, gwnaethom gyflwyno papurau'n rheolaidd mewn digwyddiadau EURORAI.

AELOD SY'N **SYLWEDYDD** O YSTOD O **WEITHGORAU POLISI ALLANOL**

ARCHWILIWYD **£250 MILIWN** O **ARIAN EWROPEAIDD** A DDEFNYDDIR I GEFNOGI FFERMWYR AC AMAETHYDDIAETH YNG NGHYMRU

**56%** O'R RHANDDEILIAID O'R FARN EIN BOD YN **GWEITHIO'N DDA GYDA CHYRFF ADOLYGU ALLANOL ERAILL**

WEDI HWYLUSO GWAITH I GANFOD AC ATAL TWYLL A GWALLAU GWERTH MWY NA **£5.4 MILIWN**

# Enghraifft o astudiaeth achos

## Adnabod data anomalaidd ar geisiadau am grantiau myfyrwyr a allai fod o ganlyniad i dwyll

Yn 2018, cyflwynwyd system cyllid myfyrwyr addysg uwch newydd ar gyfer myfyrwyr a fyddai'n dechrau eu hastudiaethau ym mlwyddyn academaidd 2018-19. Roedd y system newydd hon yn golygu y gallai myfyrwyr wneud cais am grantiau cymorth cynhaliaeth hyd at £10,124 y flwyddyn. Mae risg o dwyll ceisiadau'n gysylltiedig â'r holl grantiau, budd-daliadau neu wasanaethau sy'n seiliedig ar brawf modd.

Mewn ymateb i'r risg hon, fe ymgysyllton ni â Llywodraeth Cymru, Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC), Swyddfa'r Cabinet a Cyllid a Thollau EM mewn prosiect cydweithredol a oedd wedi'i fwriadu i adnabod ceisiadau a allai fod yn dwyllodrus. Defnyddiodd y prosiect dechnegau paru data soffistigedig i gymharu data a gyflwynwyd i CMC â data a ddelir gan sefydliadau eraill gan gynnwys Cyllid a Thollau EM ac asiantaethau gwirio credyd. Agwedd hanfodol i lwyddiant y prosiect oedd alinio pwerau rhannu data statudol Cyllid a Thollau EM â phwerau paru data statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r prosiect hwn wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran adnabod data anomalaidd ar geisiadau myfyrwyr a allai fod o ganlyniad i dwyll. Mae CMC yn ymchwilio i'r anomaleddau hyn ar hyn o bryd. Mae'r prosiect wedi dangos y manteision a all ddeillio pan fo cyrff cyhoeddus ac archwilwyr yn cydweithio, gan rannu gwybodaeth ac alinio pwerau i fynd i'r afael â her gyffredin. Mae llwyddiant y prosiect yng Nghymru wedi arwain at sefydlu prosiect yr un fath yn yr Alban.



## Ein trefniadau llywodraethu ac arwain

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn rhagnodi'r fframwaith ar gyfer ein trefniadau llywodraethu, yn anad dim mewn perthynas â chyfansoddiad a swyddogaethau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, a'r gydberthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae ein Bwrdd yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau aelodau anweithredol, aelodau gweithredol ac aelodau etholedig sy'n gyflogeion er mwyn cynnig dealltwriaeth a phrofiad sy'n helpu i lunio ein cyfeiriad strategol.

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru strwythur uwch reolwyr hefyd, sy'n cael ei adolygu a'i fireinio ymhellach ar hyn o bryd i sicrhau llinellau adrodd ac atebolrwydd mwy eglur, i'w gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau'n gyflymach ac yn fwy effeithlon ac i gefnogi proses fwy effeithiol o reoli newid.

Mewn arolwg o randdeiliaid allweddol a gynhaliwyd ar ddechrau 2018, roedd 86% o ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad 'mae Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad sydd i'w weld fel pe bai'n cael ei redeg yn dda'.

Mae ein Datganiad Llywodraethu yn rhoi amlinelliad o strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiadau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg ar gyfer y flwyddyn, a disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebwyd gennym yn 2018-19.

Ceir rhagor o wybodaeth am aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli yn ystod 2017-18 yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd y Bwrdd, ymhlith materion eraill, yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2017-18, Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2019-20, Adroddiad Interim ar gynnydd yn erbyn Cynllun Blynyddol 2018-19, Cynllun Ffioedd ar gyfer 2019-20 a Chynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20 sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein huchelgeisiau mwy hirdymor a dangosyddion perfformiad allweddol.

Cafodd y dogfennau hyn eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a chraffodd ei Bwyllgor Cyllid arnynt.

## Ein defnydd o adnoddau

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy[3] yn y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes, ac yn y ffordd rydym yn neilltuo adnoddau ar gyfer gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, ers nifer o flynyddoedd. Yn yr adran hon, rydym yn darparu sylwebaeth lefel uchel ynghylch sut rydym wedi rheoli ein defnydd o adnoddau yn 2018-19.

Er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u rhestru fel cyrff cyhoeddus at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym, serch hynny, yn ceisio cyfrannu cymaint â phosibl at gyrraedd y saith nod llesiant yng Nghymru:

- a Cymru lewyrchus
- b Cymru gydnerth
- c Cymru iachach
- ch Cymru sy'n fwy cyfartal
- d Cymru o gymunedau cydlynus
- dd Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- g Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.


Hefyd, rydym wedi dangos yn yr adran hon (trwy ddefnyddio eiconau perthnasol) yr achosion hynny lle cyfrannodd ein perfformiad yn 2018-19 at un neu fwy o 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig[4].

3 Fe'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel gweithredu mewn modd 'sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.
4 Yn unol â chanllawiau Trysorlys EM Public sector annual reports: sustainability reporting guidance 2018-19.

## Gwaith rheoli ariannol ac arbedion effeithlonrwydd

Ers 2013-14, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi lleihau ei gwariant 13% mewn termau real[5]. Mae arbedion cronnus a gyflawnwyd dros y pum mlynedd ddiwethaf yn gyfanswm o £10.1 miliwn, gan leihau ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru (ac eithrio ar gyfer cyfrifoldebau newydd) a'r swm y mae'n ofynnol ei godi o ffioedd a godir ar gyrff archwiliedig.

Gwariant Swyddfa Archwilio Cymru




5 Yn seiliedig ar ddatchwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mawrth 2019.

Yn 2018-19, roedd ein cyfanswm gwariant gros £240,000 (1.1%) yn is na'r Amcangyfrif cymeradwy ar gyfer y flwyddyn.

Fe ddefnyddion ni arbedion ar gostau staffio a chostau eraill o £384,000 a grëwyd yn ystod y flwyddyn i ariannu cynllun ymadael gwirfoddol a oedd yn cyd-fynd â'n hymrwymiadau mwy hirdymor ar gyfer cynllunio'r gweithlu. Amcangyfrifir y bydd y cynllun yn dwyn arbedion blynyddol o £242,000 yn y dyfodol, gan felly gael effaith gadarnhaol ar ein cynllun ariannol tymor canolig.

Roedd cyfanswm yr arbedion a adnabuwyd ar gyfer 2018-19 oddeutu £490,000, gan gynnwys arbedion o gynlluniau ymadael gwirfoddol blaenorol a'r rhai a adnabuwyd trwy brosiectau trawsnewid sefydliadol.

Dros y flwyddyn ac yn unol â'n Hamcangyfrif, fe barhaom ni i fuddsoddi mewn prosiectau trawsnewid, gan gynnwys mewn perthynas â dadansoddeg data a'n ffyrdd o weithio yn y dyfodol, i sicrhau bod ein heffaith yn dal i gael ei chynyddu i'r eithaf yn yr amgylchedd newidiol sydd o'n blaenau ac i ddwyn arbedion pellach i'n cynllun ariannol tymor canolig.

Fe wnaethom hefyd fuddsoddi £210,000 o gyllid cyfalaf ar draws pum maes, y bydd peth ohono'n ein helpu i gyflawni arbedion effeithlonrwydd pellach yn y blynyddoedd sydd i ddod:

a £70,000 ar liniaduron hybrid newydd sy'n galluogi ein staff i weithio'n fwy effeithlon ac sy'n lleihau ein defnydd o bapir;

b £50,000 ar welliannau i'n systemau a meddalwedd rheoli data archwilio a chorfforaethol;

c £41,000 ar welliannau hanfodol i'n rhwydwaith TG;

ch £37,000 ar atgyweiriadau angenrheidiol a gwelliannau o ran hygyrchedd i'n swyddfa yng Nghaerdydd, gan gynnwys er mwyn hwyluso ffyrdd newydd o weithio; a

d £12,000 ar welliannau i'n cyfleusterau fideogynadledda sy'n ein galluogi i leihau teithiau busnes gydag arbedion cysylltiedig o ran costau a manteision amgylcheddol.

## Dysgu a datblygu

Fel corff archwilio proffesiynol a darparwr hyfforddiant achrededig â thri chorff cyfrifyddu proffesiynol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i raglen dreigl o recriwtio hyfforddeion. Trwy ein hymgyrchoedd recriwtio blynyddol anelwn at ddenu ymgeiswyr o'r safon orau bosibl.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19, llwyddodd 39 o hyfforddeion i symud ymlaen i gamau nesaf eu hastudiaethau ac fe wnaeth 90% ohonynt lwyddo i basio arholiadau Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) ar y cynnig cyntaf.

Yn 2018-19, fe wnaethom barhau i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru ar y Fenter Datblygu Sgiliau Cyllid, sy'n amcanu at wneud cyllid cyhoeddus yn ddewis gyrfa mwy deniadol i raddedigion a chodi safonau ym maes rheolaeth ariannol yn y wlad. O dan y fenter hon, mae sefydliadau partner, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, yn cynnig secondiadau i hyfforddeion cyllid dreulio amser mewn cyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus. Yn 2018-19, cwblhaodd wyth o hyfforddeion Swyddfa Archwilio Cymru leoliadau mewn cyrff a oedd yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Tŷ'r Cwmnïau a nifer o awdurdodau lleol. Fe wnaethom hefyd hwyluso secondiad cyfatebol atom ni ar gyfer unigolyn o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n fwy eang mewn cyfleoedd dysgu a datblygu i gynorthwyo ein staff i gyflawni eu gwaith. Yn 2018-19, treuliwyd cyfartaledd o 5.8 diwrnod y cyflogai ar amrywiaeth o weithgareddau dysgu a datblygu. Cafodd rhywfaint o'r hyfforddiant ei gynllunio a'i ddarparu'n fewnol, a lle y bo'n briodol ac yn gost-effeithiol, fe wnaethom gomisiynu cymorth allanol i ddarparu hyfforddiant yn unol â'n gofynion penodol.

Mae dysgu a datblygu yn un o’r themâu allweddol a gaiff eu harchwilio yn ein harolwg staff blynyddol. Yn 2018, dywedodd dwy ran o dair o’r staff eu bod yn teimlo’u bod yn gallu cael mynediad at y cyfleoedd dysgu a datblygu cywir pan fo angen iddynt, ac roedd mwy na hanner yn cytuno bod gweithgareddau dysgu a datblygu yr oeddent wedi’u cwblhau yn y 12 mis diwethaf wedi helpu i wella’u perfformiad. Fodd bynnag, ychydig yn llai na 50% o’r staff oedd o’r farn bod gweithgareddau dysgu a datblygu a gaiff eu cwblhau wrth weithio i’r sefydliad yn helpu i ddatblygu eu gyrfaoedd; bydd mynd i’r afael â’r pryderon hyn yn faes ffocws pwysig ar gyfer ein gwaith mewn perthynas â’r Strategaeth Pobl yn 2019-20.

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

4 QUALITY EDUCATION



## Ymgysylltu â staff a phrofiad cyflogeion

Yn ystod y flwyddyn fe ddefnyddiom ni amrywiaeth o gyfryngau a dulliau i roi gwybodaeth gorfforaethol i gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru, er mwyn eu hannog i ymwneud â pherfformiad y sefydliad, ac i ymgynghori â chyflogeion fel bod modd ystyried eu safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau sy'n debygol o effeithio ar eu buddiannau.

Roedd y rhain yn cynnwys:

a cyhoeddi blogiau rheolaidd gan aelodau o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli, a sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli ar gael yn rhwydd ar ein mewnrwyd;

b annog staff i rannu gwybodaeth ac arfer da drwy rwydwaith cyfryngau cymdeithasol mewnol, y defnyddiodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr i gynnal sesiwn holi ac ateb fyw ar gyfer staff hefyd; ac

c trefnu cyfarfodydd 'fforwm partneriaeth' gyda chynrychiolwyr undebau llafur, a chynnwys cynrychiolwyr o'r fath yn y gwaith o baratoi neu ddiwygio polisïau penodol a mentrau datblygu sefydliadol, lle y bo'n berthnasol.

Ym mis Hydref 2018, fe gynhaliom ni arolwg staff cyfan eto er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth am brofiad cyflogeion yn Swyddfa Archwilio Cymru a nodi'r meysydd y mae angen eu gwella. Am yr ail flwyddyn yn olynol, fe ddefnyddiom ni'r un holiadur arolwg craidd ag a ddefnyddir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS).

Roedd yr arolwg yn cwmpasu amrywiaeth o themâu, o arweinyddiaeth a diwylliant y sefydliad i'r ffordd mae timau unigol yn gweithredu.

Ar y cyfan, roedd canlyniadau yn 2018 yn dal yn gryf o'i gymharu â chyfartaledd Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, ac mewn nifer o achosion meincnod perfformiad uchel (chwarter uwch) Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. O'i gymharu â'r meincnodau hyn, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn fodlon ar y cyfan ar eu pecyn cyflog a buddion, yn teimlo ymlyniad cryf wrth y sefydliad ac yn teimlo bod ganddynt yr offer i wneud eu swydd yn effeithiol. Cafodd yr agwedd gadarnhaol hon ei hadlewyrchu yn ein sgôr mynegai ymgysylltu gyffredinol gref, sef 67%.

Fodd bynnag, o'i gymharu â'n canlyniadau yn 2017, mae canfyddiadau staff yn 2018 wedi dirywio'n amlwg, yn enwedig yn y meysydd canlynol:

a arweinyddiaeth a pha mor dda y caiff newid ei reoli yn y sefydliad;

b dysgu a datblygu, yn enwedig mewn perthynas â chyfleoedd ar gyfer datblygiad gyrfa; ac

c effeithiolrwydd adborth ar berfformiad.

Tuag at ddiwedd 2018 ac yn gynnar yn 2019, fe archwiliom ni’r rhesymau dros ganlyniadau’r arolwg yn fanylach, trwy gynnal trafodaethau mewn cyfarfodydd tîm ac rydym wedi defnyddio deilliannau’r arolwg a’r trafodaethau hynny i oleuo ein blaenoriaethau cynllunio yn y dyfodol. Mae’r rhain yn cynnwys:

a gwneud newidiadau i gyfansoddiad a ffocws y Pwyllgor Rheoli a sut y dylai hwn a’r Uwch Dîm Arwain ehangach weithredu yn y dyfodol;

b gwella ein capasiti a’n gallu i reoli newid trwy ddull rheoli rhaglenni a recriwtio rheolwr rhaglenni sydd â chymwysterau a phrofiad addas;

c llunio fframwaith datblygu sefydliadol sy’n cynnwys llwybrau dysgu allweddol, ynghyd â defnyddio dull mwy rhagweithiol o adnabod a chefnogi cyfleoedd ar gyfer secondiadau allanol; a

ch gwaith arfaethedig i ailwampio ein cynllun arfarnu perfformiad, gan ymgorffori fframwaith ymddygiadol newydd a mecanweithiau i ddarparu adborth 360°, a chyda’r nod o greu cysylltteddau ‘llinyn aur’ mwy eglur rhwng uchelgeisiau corfforaethol ar y cyfan ac amcanion unigolion a thimau.

Byddwn yn ailadrodd yr arolwg ym mis Hydref 2019.

| YOUR EMPLOYEE ENGAGEMENT SCORE 67% | | RESPONSE SCALE | % POSITIVE | VARIANCE FROM PREVIOUS SURVEY -2 | VARIANCE FROM CSPS 2018 AVERAGE +5 ↑ | VARIANCE FROM CSPS 2018 HIGH PERFORMERS +1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SAY | Q47. I am proud when I tell others I am part of my organisation | 27 / 50 / 19 | 77% | -2 | +11 ↑ | +6 ↑ |
| SAY | Q48. I would recommend my organisation as a great place to work | 28 / 39 / 23 / 8 | 67% | -10 ↓ | +9 ↑ | +2 |
| STAY | Q49. I feel a strong personal attachment to my organisation | 22 / 44 / 23 / 10 | 66% | -1 | +14 ↑ | +8 ↑ |
| STRIVE | Q50. My organisation inspires me to do the best in my job | 17 / 38 / 27 / 14 | 55% | -8 ↓ | +6 ↑ | -2 |
| STRIVE | Q51. My organisation motivates me to help it achieve its objectives | 12 / 40 / 29 / 15 | 53% | -5 ↓ | +5 ↑ | -2 |

KEY

↑ AT LEAST 5 PERCENTAGE POINTS GREATER THAN COMPARATOR

↓ AT LEAST 5 PERCENTAGE POINTS LESS THAN COMPARATOR


Strongly agree | Agree | Neither | Disagree | Strongly disagree

**VARIANCE FROM PREVIOUS SURVEY**

3 questions above

37 questions in line

24 questions below





**VARIANCE FROM CSPS 2018 AVERAGE**

26 questions above

31 questions in line

9 questions below




Tudalen y pecyn 48

## Lles cyflogeion

Rydym yn ymrwymedig i annog ein staff i fabwysiadu ffordd iach o fyw a tharo cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Rydym hefyd am i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn pan fyddant yn wynebu anawsterau, ni waeth pa un a oes effaith ar eu gallu i gyflawni eu rôl ai peidio.

Caiff ein polisi lles ei ategu gan ganllawiau er mwyn cefnogi ein hymrwymiadau a sicrhau bod unrhyw faterion o ran iechyd a lles staff yn cael eu nodi a'u rheoli mewn ffordd ragweithiol a sensitif. Rydym hefyd yn hybu ac yn cefnogi iechyd emosiynol a chorfforol staff, a'u lles, gan gynnwys trwy raglen flynyddol o ddigwyddiadau a thrwy gynnig gwasanaeth sgrinio iechyd.

Hefyd, mae rhaglen cynorthwyo cyflogeion ar gael naill ai trwy wasanaeth ffôn 24 awr neu drwy gyfleuster ar-lein. Mae'r rhaglen cynorthwyo cyflogeion yn rhoi cyngor proffesiynol a chymorth emosiynol i staff ar amrywiaeth o faterion.

Ar lefel sefydliadol, yn ein harolwg staff fe wnaethom gynnwys y pedwar cwestiwn a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel rhan o'i rhaglen Mesur Lles y Genedl:

- a Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi ar eich bywyd y dyddiau hyn?
- b Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n meddwl bod y pethau rydych yn eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil?
- c Ar y cyfan, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe?
- ch Ar y cyfan, pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo ddoe?

Yn 2018, roedd ymatebion gan ein staff yn nodweddiadol yn fwy cadarnhaol na rhai gan sefydliad 'uchel ei berfformiad' yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.

Rydym hefyd yn monitro cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn fanwl ac mae gennym nifer o systemau ar waith i helpu staff i ddychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus. Collwyd 6.7 diwrnod y cyflogai ar gyfartaledd i absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn adrodd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 (o'i gymharu â 7.6 diwrnod y cyflogai ar gyfer y flwyddyn flaenorol, ac 8.5 diwrnod ar gyfartaledd i'r sector cyhoeddus[6]).

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

3 GOOD HEALTH AND WELL-BEING

6 Ffynhonnell: Iechyd a Lles yn y Gwaith (Crynodeb y sector cyhoeddus): CIPD, Mai 2018

## Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy’n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, gan gynnwys ein staff ein hunain a’r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o’n gwaith, ac rydym yn llwyr gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Mae’n ofynnol i ni ddilyn y fframwaith diogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gydymffurfio â’r confensiynau a nodwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a’n hamcanion cysylltiedig. Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gynnydd o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn 2017-18 ar gael ar ein gwefan. Caiff ein hadroddiad ar gyfer 2018-19 ei gyhoeddi yn ystod haf 2018.

## Hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg

Mae’r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn darparu gwasanaeth archwilio dwyieithog. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog a thrwy gydol 2018-19, fe wnaethom gyfathrebu â’r cyhoedd, cyrff a archwilir a’r cyfryngau yn y ddwy iaith. Rydym hefyd yn mynd ati’n frwd i annog staff i ddysgu Cymraeg a defnyddio’r iaith yn eu gwaith ac yn gymdeithasol.

Rydym yn ymrwymedig i weithredu a chynnal safonau newydd y Gymraeg. Mae ein Hysbysiadau Cydymffurfio i’w gweld ar ein gwefan, ynghyd â’n Hadroddiad Blynyddol ar y Gymraeg.

## Caffael adnodd archwilio ychwanegol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi staff hynod fedrus i gyflawni tua 90% o raglen waith yr Archwilydd Mewnol, a hwythau'n cael eu hategu gan 10% arall o adnodd archwilio a gontractir yn bennaf o gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat.

Mae contract cyfredol Swyddfa Archwilio Cymru gyda'r cwmnïau hynny'n rhedeg hyd at 31 Mawrth 2020 ac yn cwmpasu archwiliadau hyd at a chan gynnwys y rhai ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Yn ystod 2018-19, rydym wedi bod yn ystyried yn ofalus iawn pa drefniadau y dylem eu rhoi ar waith pan fo'r contractau cyfredol yn dod i ben.

Ym mis Chwefror 2019, fe benderfynodd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru beidio â gwahodd tendrau ar gyfer archwiliadau y tu hwnt i 2020; o ganlyniad, bydd holl archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol o 2020-21 yn cael eu cynnal gan staff Swyddfa Archwilio Cymru yn unig. Roedd hwn yn benderfyniad anodd ac nid yw'n adlewyrchiad ar ansawdd gwaith archwilio'r cwmnïau. Yn hytrach, mae'n cymryd nifer o ffactorau i ystyriaeth, gan gynnwys:

a gostyngiad cyffredinol rhagamcanol ym maint gwaith archwilio'r sector cyhoeddus yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf gyda'r angen o ganlyniad i sicrhau bod gwasanaethau archwilio'n cael eu darparu mewn ffordd gost-effeithiol;

b yr angen i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni eu rhwymedigaethau dan Safonau'r Gymraeg;

c ansicrwydd ynghylch trefn y sector cynghorau tref a chymuned yn y dyfodol a'r gyfundrefn archwilio a fydd yn ofynnol ar gyfer y sector hwnnw; a

ch ansicrwydd a fydd uno cyrff llywodraeth leol yn uno'n wirfoddol dros y tymor canolig.

Mae effaith y ffactorau hyn a ffactorau eraill gyda'i gilydd yn creu lefel o ansicrwydd a fyddai'n ei gwneud yn anodd iawn dros y flwyddyn neu ddwy nesaf gwahodd tendrau ar gyfer contractau ystyrlon nad ydynt yn creu risgiau a phwysau cost annerbyniol i Swyddfa Archwilio Cymru a'r cwmnïau yn y sector preifat.

## Gwaith cymunedol ac elusennol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y manteision y gall gwaith cymunedol a gwaith elusennol gan staff eu dwyn i'r gymuned ehangach ac mae'n cymeradwyo'i staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt yn y gweithle a gallant ddatblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd bywyd a gwaith ar yr un pryd.

Yn amodol ar ofynion gweithredol, rydym yn cefnogi cyflogeion sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol neu elusennol megis gwaith gofal yn y gymuned, prosiectau cadwraeth, a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.

Dewisodd staff Swyddfa Archwilio Cymru elusennau sy'n ymwneud â helpu pobl sy'n ddigartref neu sydd wedi colli eu cartrefi fel ffocws ar gyfer eu gweithgareddau codi arian yn 2018-19. Dros y flwyddyn ac yn eu hamser eu hunain, cynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau codi arian:

a digwyddiad glanhad blynyddol lle cafodd staff eu hannog i roi eitemau nas defnyddir neu nad oes arnynt mo'u heisiau;

b diwrnod elusennol staff a gynhaliwyd gan ein timau archwilio ariannol yn Ne Cymru, a gododd £280 trwy werthu cacennau a chystadleuaeth pobi, ac a arweiniodd at gasglu 550 o duniau o fwyd a'u cyflwyno'n rhodd i Fanc Bwyd Caerdydd;

c cododd un aelod o staff bron i £1,000 ar ei liwt ei hun i'r elusen digartrefedd Llamau trwy'r gefnogaeth a gafodd am gwblhau her hynod anodd Ironman Wales; a

ch nifer o ddigwyddiadau eraill yn ein swyddfeydd, gan gynnwys rafflau ac arwerthiannau cacennau rheolaidd, a chystadleuaeth darogan sgoriau a chanlyniadau ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Ar y cyfan, fe gododd staff bron i £1,500 ar gyfer elusennau sy'n rhan o helpu pobl sy'n ddigartref neu sydd wedi colli eu cartrefi.

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

3 GOOD HEALTH AND WELL-BEING

## Stiwardiaeth amgylcheddol[7]

| | | | |
|---|---|---|---|
| ACHREDWYD AR **LEFEL 5** **SAFON AMGYLCHEDDOL** Y DDRAIG WERDD | **WEDI LLEIHAU** EIN **DEFNYDD O BAPUR** BRON **16%** | **WEDI AILGYLCHU DROS** **3⁄4** EIN **GWASTRAFF** | WEDI DEFNYDDIO CREDYDAU CARBON I **WRTHBWYSO** **100%** O'N **HALLYRIADAU** NWYON TŶ GWYDR |

Yn 2018-19, roeddem yn falch o gyrraedd ein targed, sef cyrraedd Lefel 5 (lefel uchaf) Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i reolaeth amgylcheddol effeithiol.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, i roi cymorth i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn fyd-eang, fe wnaethom wrthbwyso[8] ein holl allyriadau cyfwerth â charbon deuocsid ($tCO_2e$) gan gynnwys y rhai a ddeilliodd o'n teithiau busnes, trwy gefnogi'r prosiectau canlynol:

a Prosiect lleihau datgoedwigo Portel-Pará ym Mrazil (199 $tCO_2e$)

b Prosiect cynhyrchu ynni gwynt gan Panama Wind yn India (198 $tCO_2e$)

c Plannu 199 o goed yng Nghymru

Yn 2018-19 fe wnaethom barhau i fuddsoddi mewn Skype for Business - system sy'n galluogi ein staff i gydweithio a chyfathrebu â'i gilydd, a chyda chysylltiadau allanol, trwy alwadau ffôn, fideogynadledda, rhannu sgrîn a negeseua gwib, trwy eu gliniaduron ni waeth ble maent yn gweithio. Mae hyn yn lleihau'n sylweddol yr angen i gydweithwyr a staff cleientiaid deithio i gyfarfod a chydweithio; yn 2018-19, fe gyflawnom ostyngiad o 79,000 o filltiroedd yn y teithiau busnes mewn ceir.

Mae llawer o'n staff hefyd yn defnyddio gliniaduron bellach sy'n cyfuno fformat maint llechi ag ymarferoldeb dyfais symudol, gan leihau'r angen i argraffu papurau cyfarfodydd a'u galluogi i wneud nodiadau ar y sgrin.

7 Paratowyd yn unol â chanllawiau Trysorlys EM HM Treasury Public Sector Annual Reports Sustainability Reporting Guidance 2018-19.

8 Ystyr gwrthbwyso carbon yw defnyddio credydau carbon i alluogi sefydliadau i ddigolledu am rai o'u hallyriadau. Gall sefydliadau wneud iawn am rai o'r allyriadau carbon trwy brynu credydau mewn prosiectau trwy ariannu arbediad cyfwerth mewn carbon deuocsid yn rhywle arall.


Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio deunydd papur wedi’i ailgylchu, a defnyddio’r Safonau Prynu fel canllaw ar gyfer glanhau, adeiladu a phrynu cyfarpar. Fe wnaethom hefyd fuddsoddi mewn peiriannau aml-swyddogaeth sydd â chynhyrchiant uchel, sy’n cynnig gwerth uchel am arian ac sy’n cael effaith isel ar yr amgylchedd ar gyfer ein swyddfeydd.

Yn ystod y flwyddyn, fe lansiom ni gynllun beicio i’r gwaith newydd ar gyfer staff, fe brynon ni feiciau cronfa ar gyfer ein swyddfeydd ac fe fuddsoddom ni mewn cawell feiciau fwy ar gyfer ein swyddfa yng Nghaerdydd, i helpu i leihau ein heffeithiau amgylcheddol ymhellach a gwella iechyd a lles ein staff.

Fe wnaethom hefyd wneud atgyweiriadau ataliol i’n swyddfa yng Nghaerdydd i wella’i pherfformiad ar y cyfan ac fe sefydlom ni grŵp staff hyrwyddwyr amgylcheddol i hybu’r egwyddor cynaliadwyedd a chodi ymwybyddiaeth o fentrau amrywiol.

## Defnyddio adnoddau y mae pen draw iddynt


Graff llinell sy'n dangos tueddiadau yn ein defnydd o ddŵr a phapur dros y pum mlynedd




Tudalen y pecyn 55


## Lleihau a rheoli gwastraff

Siart golofnau sy'n dangos y duedd yng nghyfanswm y gwastraff a gafodd ei gynhyrchu a'r gyfran o'r gwastraff hwnnw a gafodd ei hailddefnyddio, ei hailgylchu neu ei chompostio neu a anfonwyd i safle tirlenwi dros y pum mlynedd ddiwethaf




## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Siart golofnau sy'n dangos y duedd yn nghyfanswm yr allyriadau cyfwerth â $CO_2$ a'r gyfran o'r allyriadau hynny yn ôl cwmpas dros y pum mlynedd diwethaf



## Defnyddio ynni

Siart golofnau sy'n dangos y duedd mewn cyfanswm defnydd o ynni a'r gyfran o'r ynni hwnnw a gafwyd o gyflenwad nwy a thrydan dros y pum mlynedd ddiwethaf




Tudalen y pecyn 58

## Tabl sy'n darparu gwybodaeth fanylach am ein rheolaeth amgylcheddol, defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt a'n gwaith i leihau a rheoli gwastraff dros y pum mlynedd ddiwethaf

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rheolaeth amgylcheddol** | | | | | |
| Lefel achrediad y Ddraig Werdd | 4 | 4 | 4 | 4 | 5 |
| **Defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt**[9] | | | | | |
| Defnydd o ddŵr $m^3$ [10] | 2,760 | 3,116 | 3,650 | 2,586 | 2,398 |
| Defnydd o ddŵr $m^3$ am bob cyflogai CagALI | 12.0 | 10.5 | 13.9 | 10.0 | 9.1 |
| Costau cyflenwi dŵr £ | 4,754 | 6,280 | 6,219 | 3,564 | 4,389 |
| Defnydd o bapur mewn rimiau | 2,305 | 2,150 | 1,725 | 1,496 | 1,263 |
| Costau cyflenwi papur £ | 6,349 | 5,609 | 4,269 | 3,737 | 3,894 |
| **Lleihau a rheoli gwastraff**[11] | | | | | |
| Cyfanswm y tunelli o wastraff | 66.5 | 54.9 | 38.7 | 33.2 | 47.9 |
| Wedi'i ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | 27.4 | 38.6 | 26.0 | 18.1 | 36.9 |
| Gwastraff TGCh a ailgylchwyd ac a ailddefnyddiwyd) | 0.0 | 2.6 | 0.7 | 0.2 | 0.5 |
| Dodrefn ac offer (allanol) | 0.0 | 12.3 | 2.6 | 0.0 | 3.8 |
| Ailgylchu cymysg, papur, gwastraff bwyd, gardd | 27.4 | 23.7 | 22.6 | 17.9 | 32.6 |
| Tirlenwi | 39.1 | 13.7 | 12.4 | 12.4 | 10.5 |
| Peryglus | 0.0 | 2.5 | 0.4 | 2.7 | 0.5 |
| Wedi'i ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio fel canran o'r gwastraff ar y cyfan[12] | 41.1 | 70.4 | 67.0 | 54.5 | 76.9 |
| Cyfanswm costau gwaredu £ | 7,337 | 16,400 | 13,466 | 9,964 | 13,340 |

9 Ystyrir mai arfer da ar gyfer defnyddio dŵr mewn swyddfa yw rhwng 4 m3 a 6 m3 am bob cyflogai Cyfwerth ag Amser Llawn (CagALI) y flwyddyn (Targedau Ymrwymiad Gwyrdd y Llywodraeth). Fodd bynnag, nid ydym yn cynnwys ymwelwyr â swyddfeydd yn ein cyfrifiad sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar ein ffigurau oherwydd nifer y digwyddiadau dysgu ar y cyd a gynhelir yn ein pencadlys yng Nghaerdydd.

10 Nid yw'r cyfnodau bilio'n cyd-fynd â'r cyfnod adrodd ariannol, felly amcangyfrif yw'r ffigyrau defnydd yn 2018-19. Roedd ein defnydd uwch o ddŵr yn 2016-17 i'w briodoli'n bennaf i bibell yn gollwng, sydd wedi cael ei thrwsio ers hynny.

11 Cyfrifwyd drwy ddefnyddio ffactorau trosi priodol WRAP; mae gwastraff peryglus yn cynnwys gwarediadau TGCh a glanhau seiffonau. Mae'r cynnydd mewn gwastraff yn 2018-19 i'w briodoli i newid dodrefn ac offer TG a oedd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol, a gwastraff gardd ar gyfer llawr caled newydd.

12 Wyth deg ag wyth y cant ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2017-18 (Adroddiad Cyflwr yr Ystâd 2017-18).

## Tabl sy'n darparu gwybodaeth fanylach am ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ac effeithlonrwydd rheoli ystâd dros y pum mlynedd ddiwethaf

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr**[13] | | | | | |
| Cyfanswm tunelli allyriadau $CO_2e$ | 563.1 | 533.0 | 483.7 | 419.0 | 397.5 |
| I'w priodoli i deithiau busnes | 275.7 | 272.3 | 233.2 | 242.1 | 229.0 |
| Mewn car | 239.1 | 232.7 | 199.5 | 215.7 | 188.7 |
| Ar drên ac awyren | 36.6 | 39.6 | 33.7 | 26.4 | 40.3 |
| I'w priodoli i ddefnyddio ynni | 263.3 | 233.8 | 227.8 | 160.7 | 116.1 |
| Trydan | 257.7 | 228.3 | 220.5 | 150.5 | 109.8 |
| Nwy | 5.5 | 5.5 | 7.3 | 10.2 | 6.3 |
| I'w priodol i ffynhonnell arall[14] | 24.1 | 23.6 | 22.6 | 16.1 | 52.4 |
| Cyfanswm gwariant ar deithiau busnes £000[15] | 1,214 | 1,258 | 1,232 | 1,204 | 1,205 |
| Cost teithiau busnes am bob cyflogai CagALI £ | 5,037 | 4,972 | 4,720 | 4,658 | 4,566 |
| Cyfanswm gwariant ar ynni £ | 63,119 | 64,394 | 57,051 | 54,676 | 60,046 |
| **Effeithlonrwydd yr ystâd** | | | | | |
| Cost am bob cyflogai CagALI[16] £ | 3,397 | 3,228 | 3,072 | 3,317 | 3,378 |
| Cost-effeithlonrwydd[17] £ am bob $m^2$ | 278 | 300 | 287 | 306 | 318 |
| Effeithlonrwydd gofod[18] $m^2$ am bob cyflogai CagALI | 12.2 | 10.7 | 10.7 | 10.8 | 10.6 |

13 Cyfrifwyd yn unol â chanllawiau DEFRA Environmental Reporting Guidelines.
14 I'w priodoli i allyrru a dosbarthu ynni, gwaredu gwastraff a defnyddio a thrin dŵr.
15 Mae'n cynnwys costau ceir ar brydles, lwfansau trafnidiaeth a chostau teithio a chynhaliaeth.
16 O'i gymharu â £3,576 ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2018.
17 Gan gynnwys rhent, ardrethi a chostau eraill.
18 O'i gymharu â 15.5 $m^2$ am bob cyflogai CagALI ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2018. 2015-16 oedd y flwyddyn gyntaf i ni gynnwys contractwyr yn ein cyfanswm o gyflogeion CagALI, i sicrhau cymhariaeth feincnodi gyfatebol.

# ADRODDIAD AR ATEBOLRWYDD

## DATGANIADAU AC ADRODDIADAU ALLWEDDOL SY'N EIN GALLUOGI I ATEB GOFYNION ATEBOLRWYDD A DANGOS CYDYMFFURFIAETH AG ARFER LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL DA.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

6 Mehefin 2019

# Adroddiad y cyfarwyddwyr

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol, a'r Prif Weithredwr



Alison Gerrard
Aelod anweithredol



Amanda Hughes
Aelod etholedig sy'n gyflogai



Anne Beegan
Aelod etholedig sy'n gyflogai



Bill Richardson
Aelod anweithredol



David Francis
Aelod anweithredol



Isobel Everett
Cadeirydd y Bwrdd



Kevin Thomas
Aelod wedi'i benodi sy'n gyflogai



Lindsay Foyster
Aelod anweithredol
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

## Pwyllgor Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol, Swyddog Cyfrifyddu a'r Prif Weithredwr



**Anthony Barrett**
Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol



**Jane Holownia**
Arweinydd Sector, Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Troseddol



**Kevin Thomas**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol



**Mike Usher**
Arweinydd Sector, Iechyd a'r Llywodraeth Ganolog



**Steve O'Donoghue**
Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol

Tudalen y pecyn 63

## Archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru

Penodwyd RSM UK Audit LLP yn archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ers 1 Mawrth 2015, yn fwyaf diweddar am gyfnod o 48 mis a ddechreuodd ar 1 Tachwedd 2018.

Yn ogystal â'i waith i lunio barn ar y datganiadau ariannol a rheoleidd-dra, gall yr archwilydd edrych ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wrth ddefnyddio adnoddau i gyflawni eu swyddogaethau, a gosod adroddiad ar ganlyniadau unrhyw waith o'r fath gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae manylion am gost gwasanaethau archwilio allanol wedi'u cynnwys yn y Nodiadau i'r datganiadau ariannol.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n rhaid iddo wneud y canlynol ar gyfer pob blwyddyn ariannol:

a cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy; a

b paratoi datganiad cyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Swyddfa Archwilio Cymru, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Caiff cyfrifoldebau ychwanegol eu disgrifio yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac, yn benodol, y canlynol:

- a dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- b llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- c datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw achosion perthnasol o wyro oddi wrthynt yn y cyfrifon; a
- ch haratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru a'i hincwm a'i gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llifoedd ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn cadarnhau:

- a bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn a'r barnau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- b fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i'm gwneud fy hunan yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno; ac
- c hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad llywodraethu

Mae'r datganiad hwn yn nodi strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn rhoi cyfrif o drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd yr ydym yn eu hwynebu.

Mae fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu wedi'u nodi yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn ac ymhlith gofynion eraill, mae'n rhaid i mi geisio sicrhau'r canlynol:

a. bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith bob amser yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys proses archwilio mewnol drylwyr, er mwyn helpu i arfer swyddogaethau statudol yn briodol; a

b. bod Swyddfa Archwilio Cymru yn taro'r cydbwysedd cywir trwy reoli cyfleoedd a risgiau mewn ffordd sy'n gymesur â busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru

## Llywodraethu corfforaethol

### Y fframwaith llywodraethu

Mae fframwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am gwmpas gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau, wedi'i grynhoi yn yr arddangosyn ar y dudalen nesaf.

Mae ein Bwrdd o naw aelod yn cynnwys mwyafrif o bum aelod anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd), yr Archwilydd Cyffredinol, aelod sy'n gyflogai a benodir yn ôl argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol a dau aelod etholedig sy'n gyflogeion.

Ceir Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol sy'n gyfrifol am y canlynol, ymhlith pethau eraill: dirprwyo ar ran y Cadeirydd pan na all ef/hi weithredu; arfarnu perfformiad y Cadeirydd; cael adroddiadau gan rai sy'n chwythu'r chwiban y tu allan i'r gadwyn rheolwyr llinell arferol; a goruchwylio'r broses o ethol aelodau sy'n gyflogeion i'r Bwrdd.

Caiff y gydberthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ei llywodraethu gan God Ymarfer a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol ac a adolygir o bryd i'w gilydd.

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu dau bwyllgor sy'n cyflawni swyddogaeth gynghori:

a mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd, aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai ac aelod allanol annibynnol; a

b mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd ac aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai.

Nid yw'r aelodau etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogeion yn aelodau o'r Pwyllgor Rheoli nac yn cyfrannu at unrhyw benderfyniadau a wneir ar lefel uwch, ac eithrio fel rhan o'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau o ran aelodaeth Pwyllgorau a, lle ceir gwrthdaro, y caiff ei reoli a'i liniaru'n effeithiol.

Rwy'n cadeirio Pwyllgor Rheoli i'm cynghori yn rhinwedd fy swydd fel Archwilydd Cyffredinol, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n cynnwys y pum rheolwr uchaf eu statws yn Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cyfarfod bob mis. Tuag at ddiwedd y flwyddyn fe gyhoeddais fy nghynigion i newid yr aelodaeth ac ailbennu'r ffocws o ran diben y Pwyllgor Rheoli ac rwy'n disgwyl gweithredu'r newidiadau hynny yn 2019-20.

Caiff y Bwrdd a'i Bwyllgorau, a'r Pwyllgor Rheoli, eu cynorthwyo gan Ysgrifennydd Bwrdd. Ceir blaenraglen fusnes sy'n llywio eu hagenda amodol, a luniwyd i sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Ceir rhagor o wybodaeth am aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

## PWYLLGOR CYLLID Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

Yn craffu ar ddefnydd Swyddfa Archwilio Cymru o adnoddau, yn gwneud argymhellion ynghylch penodi'r Archwilydd Cyffredinol ac yn gyfrifol am benodi aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gyfrifol am benodi archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru.

## BWRDD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Monitro'r ffordd y caiff swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu harfer.

Rhoi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol.

Cyflogi staff a darparu adnoddau er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

Codi ffioedd am waith a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Paratoi, ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, amcangyfrif o incwm a threuliau, cynllun ffioedd, cynllun blynyddol, adroddiad(au) interim ac adroddiad blynyddol.

## PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH AC ADNODDAU DYNOL

Yn cynghori'r Bwrdd drwy graffu ar y tri maes cyffredinol ym maes rheoli a datblygu adnoddau dynol, a'u herio:

a) llywodraethu

b) perfformiad; ac

c) polisi a chydnabyddiaeth

## PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRHAU RISG

Yn cynghori'r Bwrdd drwy:
a) adolygu cystadleurwydd a dibynadwyedd ffynonellau o sicrwydd corfforaethol;
b) adolygu uniondeb yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon; ac
c) rhoi barn ar ba mor dda y caiff y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu eu cynorthwyo wrth iddynt gyflawni eu rolau perthnasol.

## PWYLLGOR RHEOLI

Yn cyfarwyddo ac yn goruchwylio'r broses o gyflawni'r weledigaeth, y nod a'r amcanion, a'r blaenoriaethau strategol a nodir yng nghynllun blynyddol ar y cyd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau 2018-19

| | Bwrdd | ARAC | RHRC | PRh |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | 6 | 4 | 3 | 17 |
| **Aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau** | | | | |
| Adrian Crompton[19] | 5 | 3 | 2 | 13 |
| Alison Gerrard, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) | 6 | 4 | | |
| Amanda Hughes[20] | 6 | 1 | 3 | |
| Anne Beegan[21] | 6 | 3 | | |
| Bill Richardson | 6 | | 3 | |
| David Francis[22] | 1 | | | |
| Dianne Thomas, Aelod Annibynnol o ARAC[23] | 1 | 4 | | |
| Huw Vaughan Thomas[24] | 1 | 1 | | 5 |
| Isobel Everett | 6 | 4 | | |
| Kevin Thomas[25] | 6 | 4 | | 16 |
| Lindsay Foyster, Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol (RHRC)[26] | 6 | | 3 | |
| Louise Fleet[27] | 1 | | | |
| Steven Burnett[28] | 4 | | 2 | |

19 Fe ymgymerodd Adrian Crompton â'i swydd fel yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr o 21 Gorffennaf 2018 a chyn hynny fe arsylwodd ar un cyfarfod Bwrdd ac un cyfarfod Pwyllgor Rheoli fel y Darpar Archwilydd Cyffredinol. Mynychodd gyfarfodydd ARAC a RHRC yn ei gymhwyster fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.
20 Ail-benodwyd Amanda Hughes yn aelod o'r Bwrdd sy'n gyflogai o 11 Mehefin 2018. Ar y dyddiad hwnnw trosglwyddodd o ARAC i'r RHRC.
21 Penodwyd Anne Beegan yn aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai ac fel aelod o ARAC o 11 Mehefin 2018. Cyn ei phenodiad mynychodd un cyfarfod Bwrdd fel y Darpar Aelod Etholedig sy'n Gyflogai. Mynychodd un cyfarfod Bwrdd pellach fel sylwedydd i warchod y cworwm yn absenoldeb Steven Burnett.
22 Penodwyd David Francis yn aelod anweithredol o'r Bwrdd o 16 Mawrth 2019.
23 Mynychodd Dianne Thomas un cyfarfod Bwrdd yn ei rôl fel Aelod Annibynnol o ARAC.
24 Ymddeolodd Huw Vaughan Thomas o swydd yr Archwilydd Cyffredinol ar 20 Gorffennaf 2018.
25 Mynychodd Kevin Thomas gyfarfodydd ARAC yn ei gymhwyster fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.
26 Ail-benodwyd Lindsay Foyster yn aelod anweithredol o'r Bwrdd o 16 Mawrth 2019. Fe'i penodwyd yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ar 21 Mawrth 2019.
27 Daeth cyfnod Louise Fleet fel aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai i ben ar 8 Mehefin 2019.
28 Daeth cyfnod penodiad Steven Burnett fel aelod anweithredol o'r Bwrdd, pan weithredodd hefyd fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, i ben ar 15 Mawrth 2019.

| | Bwrdd | ARAC | RHRC | PRh |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | 6 | 4 | 3 | 17 |
| **Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli (PRh) nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd**[29] | | | | |
| Anthony Barrett | 5 | | | 15 |
| Jane Holownia | 5 | | | 16 |
| Mike Usher[30] | 6 | | 1 | 15 |
| Steven O'Donoghue[31] | 6 | 4 | 3 | 16 |



29 Mynychodd aelodau'r Pwyllgor Rheoli gyfarfodydd ARAC yn ôl yr angen i'w briffio, cyfranogi mewn trafodaethau neu geisio eu cyngor. Mae ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd.
30 Mynychodd Mike Usher RHRC i gyflwyno un eitem y mae'n gyfarwyddwr arweiniol ar ei gyfer.
31 Mae'n ofynnol i Steve O'Donoghue, fel y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol, fynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd, ARAC a RHRC.

## Cyfrif o lywodraethu corfforaethol

Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod ei amcanion yn cael eu cyflawni drwy:

a adroddiadau rheoli mewnol, adroddiadau ar berfformiad a briffiadau amserol;

b adroddiadau mewnol annibynnol, gan gynnwys adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol; ac

c adroddiadau archwilio allanol.

Mae lefel y sicrwydd a geisir ac a ddarperir yn gymesur â'r lefelau risg cysylltiedig a aseswyd.

Mae'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi ynghylch ansawdd yr wybodaeth y mae'n ei chael er bod rhywfaint o le i wella ei hehangder a'i hamseroldeb ac i sicrhau bod ffocws gwaith y Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd yn fwy cyson â'i gilydd; mae gwaith ar y gweill i ymdrin â'r pwyntiau hyn.

Wrth gyflawni ein gwaith, mae Swyddfa Archwilio Cymru a minnau (fel yr Archwilydd Cyffredinol a'r Swyddog Cyfrifyddu) yn cymhwyso Cynlluniau Dirprwyo Ffurfiol. Mae'r cynlluniau dirprwyo'n goleuo amodau gorchwyl y Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Pwyllgor Rheoli, a adolygir yn flynyddol.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu Cod Ymddygiad a ddefnyddir gan Ysgrifennydd y Bwrdd i gadw cofrestrau o fuddiannau aelodau a adolygir bob blwyddyn ac a ddiweddir yn ystod y flwyddyn er mwyn nodi unrhyw newidiadau y mae aelodau yn rhoi gwybod amdanynt. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau, gan gynnwys risgiau i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol, yn cael eu nodi'n barhaus a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i'w lliniaru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi'r Cofrestrau ar ei gwefan.

Mae gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a chadeiryddion ei phwyllgorau hawl mynediad a gallant hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn uniongyrchol am unrhyw faterion sy'n peri pryder.

Mae Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilydd Allanol yn dal if od â mynediad agored a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiwn breifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol cyn pob un o gyfarfodydd y pwyllgor.

Ar sail wirfoddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn asesu ei threfniadau yn erbyn gofynion y Cod Arfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol yn adrannau'r Llywodraeth ganolog. Mae'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hynny i'r graddau y maent yn berthnasol ac yn ymarferol o ystyried yr angen i warchod annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Nid oedd y trefniadau'n cydymffurfio â gofynion y Cod o ran yr agweddau canlynol:

a nid adran weinidogol yw Swyddfa Archwilio Cymru, ac nid yw'n adrodd wrth weinidogion na'u swyddogion nac yn cael cyfarwyddiadau ganddynt;

b mae rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'i aelodau wedi'u nodi mewn statud; ac

c nid yw'r Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor penodiadau, ond caiff y swyddogaethau a ddisgrifir yn y Cod eu cyflawni gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol.

## Adolygiad o berfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Fe gwblhaodd y Bwrdd hunanasesiad o'i effeithiolrwydd ac fe ystyriodd y canlyniadau ym mis Mawrth 2019. Roedd ei fesuriad yn dynodi bod ei effeithiolrwydd yn yr ystod rhwng gweddol effeithiol a hynod effeithiol ar draws pob agwedd ar asesu ac roedd wedi'i argyhoeddi ar y cyfan na wnaeth y canlyniadau ddatgelu unrhyw beth annisgwyl. Roedd nifer o gamau gweithredu eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd y nodwyd fod angen eu gwella, yn anad dim mewn perthynas â datblygu'r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer y Cynllun Blynyddol newydd.

Fel rhan o'u gofynion adrodd blynyddol, mae pob un o bwyllgorau'r Bwrdd yn cwblhau hunanasesiad o'u heffeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn asesu ei hun yn erbyn yr egwyddorion arfer da a ddisgrifir yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol wedi addasu'r asesiad hwnnw i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn gymesur â'i anghenion. Mae'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi ynghylch cadernid yr asesiadau ac yn fodlon nad oes unrhyw faterion sy'n achosi pryder.

Mae gan y Bwrdd broses ar waith i gynnal arfarniadau o berfformiad aelodau bob 12 i 18 mis. Cawsant eu cwblhau ddiwethaf ym mis Tachwedd 2018. Mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cwblhau arfarniad o berfformiad y Cadeirydd ar sail yr un cylch.

Mae gan y Bwrdd gynllun dysgu a datblygu a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol. Mae'r cynllun yn nodi'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant sefydlu a diwallu anghenion dysgu a datblygu parhaus a nodir yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys trwy'r broses arfarnu perfformiad.

## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2019, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith yr oedd wedi'i wneud yn ystod 2018-19.

Darparodd y Pwyllgor y sicrwydd canlynol:

- a ei bod yn ymddangos bod y trefniadau rheoli risg yn gweithredu'n effeithiol o fewn fframwaith polisi a adolygwyd yn ystod y flwyddyn ac a ddiweddarwyd i roi cyfrif am ganlyniad adolygiad archwilio mewnol;
- b bod y broses adrodd ariannol yn gyson â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a pholisïau cyfrifyddu priodol a fabwysiadwyd;
- c bod gan y Pwyllgor, trwy ei adolygiadau strategol o'r map sicrwydd, ddealltwriaeth well am y fframwaith rheoli mewnol ac unrhyw fylchau ynddo;
- ch bod y trefniadau i alluogi staff i roi gwybod am gamweddau yn y gweithle er budd y cyhoedd a rhoi gwybod am wyngalchu arian yn gadarn; a
- d bod rheolwyr wedi cryfhau'r trefniadau atal twyll ac wedi diweddaru'r ddogfennaeth ategol yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau eu bod yn gyson ag arfer da.entation during the year, ensuring they are consistent with good practice.

Er bod y Pwyllgor wedi'i argyhoeddi ei bod yn ymddangos nad oedd unrhyw fylchau yn y fframwaith risg a sicrwydd, fe amlygodd ei hunanasesiad yr angen am fwy o ffocws ar graffu dibynadwyedd y sicrwydd y mae'n ei gael gan reolwyr. Roedd y Pwyllgor yn rhagweld y byddai'r gwaith hwn:

- a yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd i'r sicrwydd y mae'i angen arno ynghylch cyflawni'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20 ac a fydd yn rhoi arweiniad i'w raglen waith; ac
- b yn dibynnu, i ryw raddau, ar y gwaith sydd ar y gweill i wella'r trefniadau llywodraethu islaw lefel y Bwrdd y bydd rheolwyr yn adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor arnynt ym mis Medi 2019.

Ar sail y casgliadau hyn, ni wnaeth y Pwyllgor nodi'r angen i wneud argymhellion ond bydd yn tracio cynnydd yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio'i offeryn tracio camau gweithredu.

Mae hunanasesiad y Pwyllgor yn dangos ei fod yn dilyn arfer da a dderbynnir.

## Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol

Yn 2018-19, fe graffodd y Pwyllgor ar ystod eang o faterion ar draws sbectrwm cyfan ei amodau gorchwyl. Ymhlith themâu cyffredin a gafodd eu hystyried gan y Pwyllgor roedd:

a sicrhau bod penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu'n cael eu goleuo gan y weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer y gweithlu yn hytrach na chael eu gwneud ar wahân neu gael eu hysgogi gan ystyriaethau sy'n ymwneud â chostau yn unig;

b y trefniadau sydd wedi datblygu'n dda mewn perthynas â diweddaru'r fframwaith polisi Adnoddau Dynol trwy raglen sefydledig o adolygiadau treigl a chynnwys meincnodi mwy cadarn yn erbyn sefydliadau eraill tebyg;

c y cyfyngiadau o ran capasiti yn y tîm Adnoddau Dynol a oedd hefyd wedi cael eu trafod gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Bwrdd;

ch tystiolaeth bod rheolwyr yn gweithredu canlyniadau ymarferon dysgu ar ôl prosiectau a oedd yn arwain at welliannau amlwg yn y broses benderfynu; a

d heriau cael sicrwydd bod blaenoriaethau'r Bwrdd yn cael eu cyflawni, er enghraifft trwy weithgarwch gan y Pwyllgor i fonitro cynllun cyflawni'r Strategaeth Pobl a'i drafodaethau ynglŷn â'r rhaglen hyfforddeion a phrentisiaethau.

Ar y cyfan, roedd y Pwyllgor wedi'i argyhoeddi fwy neu lai bod y trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ac Adnoddau Dynol:

a yn cefnogi nodau strategol y Bwrdd;

b yn ei gwneud yn bosibl cynnal busnes yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus gan gynnwys recriwtio, cymell a chadw staff; ac

c yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol, gan gynnwys sicrhau bod y datgeliadau yn yr adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol yn unol â gofynion cyfreithiol.

Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor y canlynol:

a cydnabyddiaeth y rheolwyr bod gwaith i'w wneud i sicrhau bod y fframwaith llywodraethu a chyflawni mewn perthynas â'r Strategaeth Pobl yn effeithiol gyda'r mesurau cywir yn eu lle i ddarparu sicrwydd; ac

b ei gyfraniad at lefel sylweddol o weithgarwch yn ystod y flwyddyn, a chydnabu fod ar y tîm Adnoddau Dynol angen cyfnod o sefydlogrwydd yn ei drefniadau rheoli a staffio o ystyried ei rôl ganolog o ran rhoi cymorth i gyflawni'r Strategaeth Pobl.

Mae'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi nad yw'r adolygiad hunanasesu o'i effeithiolrwydd wedi datgelu unrhyw feysydd sy'n achosi pryder er ei fod wedi gwneud rhai argymhellion cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol y gallai penodi Cadeirydd ac aelod anweithredol newydd newid dynamig ei weithrediad mewnol y bydd angen iddo'i fonitro a'i reoli wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

## Adroddiad yr archwilydd mewnol

Yn dilyn ymarfer tendro a gynhaliwyd dan Fframwaith Ymgynghoriaeth Reoli Gwasanaethau Masnachol y Goron, mae PricewaterhouseCoopers LLP wedi'u penodi'n archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru am y cyfnod o dair blynedd rhwng 2018-19 a 2020-21.

Cafodd strategaeth a chynllun archwilio mewnol ar gyfer 2018-19 eu paratoi i'w hystyried ac fe'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018. Yn ystod 2018-19, cyhoeddwyd chwe adroddiad archwilio mewnol gan PricewaterhouseCoopers LLP.

Cynhaliwyd offeryn tracio gan y Pennaeth Archwilio Mewnol i dracio argymhellion archwilio a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt a chyflawni gweithgarwch dilynol mewn perthynas â hwy yn ystod y flwyddyn. Hefyd, ym mis Mawrth 2019, fe wnaeth yr adran archwilio mewnol ddilysu bod camau gweithredu yr adroddwyd eu bod wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn wedi cael sylw digonol trwy archwilio tystiolaeth ategol briodol.



### Lefelau sicrwydd a ddarparwyd trwy farnau mewn adroddiadau archwilio mewnol

Tabl sy'n rhestru'r adolygiadau archwilio mewnol a gwblhawyd yn 2018-19 ac sy'n darparu dosbarthiad yr adroddiad o ran lefelau sicrwydd pob adolygiad, ochr yn ochr â chrynodeb o sylwadau allweddol.

| Adolygiad archwilio mewnol | Dosbarthiad yr adroddiad | Sylwadau archwilio mewnol |
|---|---|---|
| Strategaeth a llywodraethu corfforaethol | Risg isel | Ar y cyfan, rydym wedi canfod bod proses pennu strategaethau a strwythur llywodraethu corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u dylunio ac yn gweithredu'n effeithiol. |
| Fframwaith rheoli risg | Risg isel | Fe wnaeth yr adolygiad hwn asesu fframwaith rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru yn erbyn egwyddorion Rheoli Risg mewn Menter trwy arfer gorau, fel a ddiffinnir gan Fframwaith Rheoli Risg mewn Menter COSO ac egwyddorion ISO31000. Ar y cyfan, canfuom fod y trefniadau rheoli risg yn Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu deall yn dda gan uwch randdeiliaid allweddol. |
| Strategaeth a diogelu data | Risg isel | Ar y cyfan, rydym yn credu bod gan Swyddfa Archwilio Cymru gynllun gweithredu gweddol aeddfed mewn perthynas â rhaglen y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). |
| Llywodraethu seiberddiogelwch ac asedau TGCh | Risg uchel | Nid yw'r trefniadau llywodraethu ar gyfer seiberddiogelwch wedi'u ffurfioli, ac ymdrinnir â'r risg mewn modd ad hoc braidd. Canfu ein hadolygiad nifer o feysydd lle gallai cryfhau'r trefniadau llywodraethu sy'n bodoli wella'r modd y rheolir y risg i seiberddiogelwch. |
| Darparu gwasanaethau a sicrhau ansawdd | Risg ganolig | Fe arsylwon ni ar nifer o feysydd lle ceir arfer da yn y prosesau a'r rheolaethau sy'n ategu'r trefniadau darparu gwasanaethau yn Swyddfa Archwilio Cymru, ond gallai'r prosesau a'r rheolaethau hyn gael eu cryfhau ymhellach. |
| Strategaeth y gweithlu a phobl | Risg uchel | Er nad oes cynllun strategol ar gyfer y gweithlu yn ei le, mae'r sefydliad yn deall manteision bod ag un ac mae cynlluniau i ddatblygu un. Fodd bynnag, nid yw rolau hollbwysig wedi cael eu hadnabod eto ac nid oes cynllun ar gyfer olyniaeth. |

Tudalen y pecyn 76

Yn ei ddatganiad sicrwydd blynyddol ar gyfer 2018-19, adroddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fel a ganlyn:

‘Mae trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth mewn perthynas â meysydd sy’n bwysig i’r busnes yn foddhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, ceir rhai gwendidau a diffyg cydymffurfio yn y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth a allai achosi risg o ran cyflawni amcanion. Mae angen rhai gwelliannau yn y meysydd hynny i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.’

## Awydd am risg a rheoli risg

O gofio natur ein busnes, mae ein lefel goddef risg ym meysydd barnau archwilio proffesiynol, rheoleidd-dra, priodoldeb a rheoli ariannol yn isel. Mewn meysydd eraill, er enghraifft, mewn perthynas â chyfnewid arfer da ac ymgysylltu’n fwy effeithiol â’r cyhoedd, rydym yn barod i dderbyn mwy o risg er mwyn manteisio ar gyfleoedd i fynd ar drywydd ein huchelgeisiau.

Mae’r 11 maes sicrwydd a restrir isod wedi cael eu mabwysiadu gan y Bwrdd fel fframwaith i’w ddefnyddio i strwythuro map sicrwydd sy’n rhestru rheolaethau a ffynonellau sicrwydd presennol ac sy’n amlygu unrhyw fylchau mewn perthynas â diwallu anghenion y Bwrdd.

CYFEIRIAD STRATEGOL

LLYWODRAETHU, ARWEINYDDIAETH A DIWYLLIANT

MODEL GWEITHREDU / DULL O DDEFNYDDIO ADNODDAU

CYDBERTHNASAU AC ENW DA RHANDDEILIAID ALLANOL

STRATEGAETH Y GWEITHLU A PHOBL

STRATEGAETH WYBODAETH

GWARCHOD ASEDAU FFISEGOL A TGCH

EFFEITHIOLRWYDD SYSTEMAU BUSNES

TREFNIADAU DIOGELU

SICRHAU GWERTH AM ARIAN O RAN EIN DEFNYDD O ADNODDAU

TREFNIADAU I FONITRO'R GWAITH O GYFLAWNI SWYDDOGAETHAU'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL

Ar gyfer pob maes sicrwydd, mae'r Bwrdd wedi rhoi diffiniad bras o'i awydd am risg gan ddefnyddio'r dosbarthiad a argymhellir yng nghanllawiau Trysorlys EM ac mae'n mynd ati o bryd i'w gilydd i ystyried i ba raddau y mae rheolaethau presennol yn cyd-fynd â'r awydd hwnnw.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i fabwysiadu arfer gorau o ran adnabod risgiau, eu gwerthuso a'u rheoli mewn modd cost-effeithiol i sicrhau eu bod yn cael eu lleihau i lefel dderbyniol neu'n cael eu dileu. Cydnabyddir y bydd rhai risgiau wastad yn bodoli ac na fyddant byth yn cael eu dileu – ond rhaid monitro a rheoli'r rhain hefyd.

## Fframwaith rheoli risg a rheolaeth

Y Bwrdd sydd â chyfrifoldeb ar y cyfan am reoli risg ac mae'n cael ac yn ystyried cofrestr ac adroddiad risgiau strategol sy'n crynhoi unrhyw newidiadau arwyddocaol i broffil risg y sefydliad yn ei holl gyfarfodydd.

Caiff y Bwrdd ei gynorthwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, sy'n adolygu ac yn cynghori'r Bwrdd mewn perthynas â'r canlynol:

a ei strategaeth risg, gan gynnwys priodoldeb dull Swyddfa Archwilio Cymru o bennu ei hawydd am risg;

b prosesau asesu risg cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru sy'n llywio penderfyniadau gweithredol;

c gallu Swyddfa Archwilio Cymru i nodi a rheoli risg;

ch cylch gwaith y swyddogaeth rheoli risg; ac

d ymatebolrwydd rheolwyr i asesiadau risg.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn gyfrifol am y canlynol: cymeradwyo a goruchwylio'r modd y caiff polisi rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru ei roi ar waith a chytuno ar unrhyw adnoddau y mae eu hangen i helpu i wneud hyn o safbwynt corfforaethol; asesu a rheoli risgiau strategol; ac adolygu'r gofrestr risgiau gweithredol bob chwe mis.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynghori'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar y system rheolaeth fewnol, a chaiff ei gynorthwyo i wneud hynny gan y Pwyllgor Rheoli.

## Asesu risg

Ym mhob un o'i gyfarfodydd yn 2018-19, ystyriodd y Bwrdd grynodeb o'r risgiau strategol allweddol a yr oedd y sefydliad yn eu hwynebu, ynghyd â chofrestr risgiau strategol fanylach a oedd:

- a yn asesu lefelau risg cynhenid a thargedau risg penodedig;
- b yn disgrifio'r rheolaethau allweddol a roddwyd ar waith i liniaru tebygolrwydd ac effaith risgiau a chyrraedd targedau;
- c yn asesu lefelau risg gweddilliol;
- ch yn nodi newidiadau o ran risg ac yn tynnu sylw at newidiadau a wnaed i reolaethau lliniaru ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd; ac
- d yn crynhoi cynnwys y gofrestr trwy broffiliau a mapiau gwres o risgiau cynhenid a gweddilliol.

Amrywiodd nifer o risgiau strategol allweddol yn ystod y flwyddyn ac yn sgîl hynny, treuliodd y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli dipyn o amser arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r canlynol:

- a methu â chofleidio'r cyfleoedd a gyflwynir yn sgîl trosglwyddo rôl yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'n gwaith, adnewyddu perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol a chael dealltwriaeth bellach i helpu i lywio ein cyfeiriad strategol yn y dyfodol;
- b peidio ag ymateb yn briodol trwy ein gwaith archwilio i oblygiadau uniongyrchol a mwy hirdymor Brexit ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru;
- c rhoi'r gorau i drefniadau cyllid amaethyddol presennol yr UE yn dilyn Brexit a cholli gwaith archwilio ac incwm ffioedd cysylltiedig;
- ch ein gallu i wahodd tendrau ar gyfer contractau ystyrlon gyda chwmnïau yn y sector preifat ar gyfer adnodd archwilio ychwanegol; a
- d peidio â chymryd, a chael ein gweld yn peidio â chymryd, camau priodol mewn ymateb i ganlyniadau Arolwg Pobl Swyddfa Archwilio Cymru 2018.

Rwyf wedi fy argyhoeddi bod y risgiau hyn wedi cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

Yn 2018-19, parhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i fod â rôl o ran craffu ar y gofrestr risgiau strategol a gweithredol, gan gynnwys trwy brofi risgiau strategol unigol er mwyn penderfynu a oedd y trefniadau rheoli risg yn gadarn ar y cyfan. Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y Pwyllgor dair risg strategol, ynghyd â chynnal dau adolygiad o'r gofrestr risgiau gweithredol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod ei adolygiadau manwl yn dangos bod trefniadau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru i'w gweld fel pe baent yn gweithio'n effeithiol.

Cafodd nifer o risgiau eu rheoli'n llwyddiannus a'u dileu o'r gofrestr risgiau strategol yn ystod 2017-18. Cafodd y risgiau naill ai eu cau'n gyfan gwbl neu'u hisraddio i'r gofrestr risgiau gweithredol er mwyn i'r arweinydd risg perthnasol eu rheoli'n barhaus.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn wynebu nifer fach o risgiau newydd a nodwyd wrth edrych ymlaen tuag at 2019-20, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn ein cofrestr risgiau strategol. Mae'r rhain yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

a toriadau posibl i ffrydiau incwm;

b methu â sefydlu a chyflawni rhaglen newid holistaidd sydd ag adnoddau priodol;

c cynllunio'r gweithlu; a


ch llywodraethu a rheoli cofnodion seiberddiogelwch.

Rydym wedi comisiynu gwaith i liniaru'r risgiau newydd hyn.

Byddaf yn parhau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda yn gyffredinol, bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau, a bod rheolaethau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

## Proffil risgiau strategol Swyddfa Archwilio Cymru

Ceir crynodeb o broffil risgiau strategol Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2019 yn y 'map gwres' canlynol, sy'n amlygu nifer y risgiau strategol a lefelau'r risgiau gweddilliol a aseswyd ar ôl cymhwyso rheolaethau i liniaru eu heffaith a'u tebygolrwydd.




## Llywodraethu gwybodaeth

Fel Archwilydd Cyffredinol, mae gen i fynediad eang at wybodaeth er mwyn cyflawni fy swyddogaethau archwilio. Ynghlwm wrth yr hawliau mynediad statudol grymus hyn mae cyfrifoldeb i sicrhau bod yr wybodaeth a geir gennyf fi a Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei diogelu'n briodol.

Felly, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bolisi Llywodraethu Gwybodaeth a Pholisi Diogelu Gwybodaeth sy'n amlinellu rhwymedigaethau a chyfrifoldebau staff, gofynion prosesu data, trefniadau monitro ac adrodd, ac yn egluro sut y gall staff gael mwy o gymorth ac arweiniad.

## Diogelu data

Mae diogelu data personol yn hynod bwysig, ac yn ystod y flwyddyn mae'r sefydliad wedi parhau i weithio i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth diogelu data gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

a darparu hyfforddiant a chanllawiau diogelu data i staff ar draws y sefydliad;

b sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu dal ynghylch yr wybodaeth bersonol a brosesir gan Swyddfa Archwilio Cymru, dibenion y prosesu, y sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu, cadw data a manylion mesurau diogelwch technegol a sefydliadol;

c datblygu rhaglen monitri cydymffurfiaeth gan y Swyddog Diogelu Data;

ch ymgysylltu ag argymhellion adolygiad archwilio mewnol o'r strategaeth wybodaeth a diogelu data ac ymateb i'r argymhellion hynny; a

d chynnal asesiad o effaith platfform TG newydd ar breifatrwydd .

Yn fy rôl fel Prif Weithredwr rwy'n atebol i'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth, ac rwyf wedi dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi mabwysiadu ISO 27001, sef y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, gan addasu'r trefniadau yn unol ag anghenion y sefydliad.

Rydym yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth, megis mynediad anawdurdodedig at wybodaeth neu golli gwybodaeth yn ddamweiniol. Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn y flwyddyn wedi bod yn fân ddigwyddiadau o ran natur. Fodd bynnag, fe wnaethom un digwyddiad yn hysbys i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan ein bod wedi cael ein gwneud yn ymwybodol o fynediad allanol yn ôl pob golwg at ffolderi electronig a oedd yn dal rhywfaint o wybodaeth bersonol ar ein systemau. Canfu ein hymchwiliadau, gan gynnwys adolygiad gan arbenigwyr allanol, nad oedd unrhyw wendidau arwyddocaol yn ein trefniadau diogelwch gwybodaeth.

## Bod yn agored ac yn dryloyw

Rydym yn ymrwymedig i weithio mewn ffordd agored a thryloyw fel busnes ac rydym wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn ein rhwymo i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael fel mater o drefn i'r cyhoedd.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19, cawsom 62 o geisiadau am wybodaeth, gan gynnwys tri chais gan unigolion a oedd yn arfer eu hawliau mynediad gwrthrych dan gyfreithiau diogelu data. Fe wnaethom fodloni'r terfynau amser statudol o 20 diwrnod gwaith ar gyfer 57 o'r ceisiadau a wnaed dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac yn y ddau achos arall fe wnaethom estyn yr amser a ganiateir ar gyfer ymateb yn unol â'r Ddeddf er mwyn mynd ati'n briodol i gymhwyso profion lles y cyhoedd mewn perthynas ag esemptiadau. Mewn perthynas â dau o'r ceisiadau mynediad gwrthrych, fel a ganiateir dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, fe wnaethom estyn yr amser a ganiateir ar gyfer ymateb oherwydd cymhlethdod un cais a chymhlethdod a maint yr wybodaeth mewn perthynas â chais arall.

Ni chynhaliodd y Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw adolygiadau mewn perthynas â ni yn 2018-19.

## Chwythu'r chwiban (mewnol)

Anogir pob aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru i godi pryderon ynghylch drwgweithred a ddaw i'w sylw pan fyddant yn y gwaith. Mae'r Bwrdd yn ystyried bod nodi drwgweithredoedd yn fewnol yn gyfraniad pwysig at reoli risg gorfforaethol a sicrhau llywodraethu da.

Mae gennym bolisi chwythu'r chwiban mewnol sefydledig sy'n adlewyrchu darpariaethau Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, sy'n nodi'r mecanwaith ar gyfer codi materion o'r fath, ac sy'n gymwys i staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r holl gontractwyr ac unigolion eraill sy'n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru mewn unrhyw ffordd.

Er mwyn asesu effeithiolrwydd ein trefniadau chwythu'r chwiban, rydym wedi ystyried dau fater: hyder staff yn y trefniadau; a'r hyn rydym ni wedi'i ddysgu o ddatgeliadau. Rydym wedi gallu mynd i'r afael â'r ail fater am y tro cyntaf yn hanes Swyddfa Archwilio Cymru, gan ein bod wedi cael ein datgeliad cyntaf yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn (cawsom ail ddatgeliad yn y chwarter olaf hefyd).



Tudalen y pecyn 84

O ran hyder staff mewn trefniadau, am yr ail flwyddyn o'r bron fe ofynnom ni i staff yn ein harolwg staff ym mis Hydref 2018 (yr ymatebodd 77% o'r staff iddo) roi eu hymateb i'r gosodiad canlynol ar raddfa a oedd yn amrywio o 'cytuno'n gryf' i 'anghytuno'n gryf': 'Rwy'n hyderus, pe bawn yn codi pryder dan drefniadau chwythu'r chwiban Swyddfa Archwilio Cymru, y byddai'r sefydliad yn ymchwilio'n briodol i'r pryder'. Dywedodd saith deg chwech y cant o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg eu bod yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' â'r cwestiwn hwn, gydag 16% arall yn dewis yr ateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' (yn arolwg mis Hydref 2017 76% ac 17% yn y drefn honno oedd y ffigyrau cyfatebol). Er bod y canlyniad yn dynodi hyder eang yn y trefniadau o hyd, mae'n awgrymu angen parhaus am waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r trefniadau hynny a bod ganddynt hyder ynddynt.

O ran yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu, fe wnaeth y datgeliad cyntaf a gafwyd gennym helpu'r Bwrdd i egluro ei reolau gweithdrefnol a'r canllaw i'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol, er mwyn darparu dull eglur a chymesur o ddatgelu papurau'r Bwrdd. Nid yw'r weithdrefn mewn perthynas â'r ail ddatgeliad yn gyflawn eto, felly mae'n rhy gynnar i ni adolygu'r gwersi o'r achos hwnnw.

# ADRODDIAD AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL A STAFF

## Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

Pennir cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, daw'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na chael ei thalu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn bod yn dryloyw, caiff cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol ei datgelu yn yr adroddiad hwn ar gydnabyddiaeth ariannol.

Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Adrian Crompton, gan y Frenhines a dechreuodd yn ei swydd ar 21 Gorffennaf 2018 am gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei adnewyddu. Fe ymddeolodd yr Archwilydd Cyffredinol blaenorol, Huw Vaughan Thomas, o'i rôl ar 20 Gorffennaf 2018.

The gross salary costs of the Auditors General during 2018-19 were:

- Huw Vaughan Thomas — £58,227[32] (2017-18: £161,744)
- Adrian Crompton[33] — £98,865 (2017-18: Nil)

Roedd y cyfraniadau pensiwn cyflogwr yn ystod 2018-19 fel a ganlyn:

- Huw Vaughan Thomas — £8,991[34] (2017-18: £23,333)
- Adrian Crompton[35] — £24,222 (2017-18: Nil)

32 Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn £161,744.
33 Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn £142,000.
34 Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn £24,975. Cyfranogodd Huw Vaughan Thomas mewn pensiwn cyfranddeiliaid sydd â chyfraniadau cyflogwr is na Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).
35 Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn £34,790.

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys pum aelod anweithredol a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol, dau aelod etholedig sy'n gyflogeion, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r aelod sy'n gyflogai a enwebwyd ganddo, sef y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar hyn o bryd.

Nid yw cydnabyddiaeth ariannol aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn bensiynadwy ac fe'i pennir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Yn achos y Cadeirydd, telir y gost yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd ei datgelu yn yr adroddiad hwn.

Ym mis Mai 2018 cynhaliwyd pleidlais staff i ethol aelodau sy'n gyflogeion ar gyfer y cyfnod nesaf o bedair blynedd. Wedyn cafodd dau aelod sy'n gyflogeion eu penodi gan y Bwrdd. Pennir y lwfans y maent yn ei gael am eu dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd gan aelodau anweithredol y Bwrdd ac fe'i datgelir yn yr adroddiad hwn.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael unrhyw lwfansau ychwanegol am eu dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd.

**Caiff yr wybodaeth ar dudalennau 74 i 85 yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff ei harchwilio**

## Cyfanswm ffigwr unigol cydnabyddiaeth ariannol aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

| | **Cydnabyddiaeth Ariannol/ Lwfans** | | **Treuliau sy'n cynnwys treth[36]** | | **Cyfanswm ffigwr unigol cydnabyddiaeth ariannol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2018-19** | **2017-18** | **2018-19** | **2017-18** | **2018-19** | **2017-18** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Aelodau'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2019** | | | | | | |
| Isobel Everett (Cadeirydd)[37] | 25,000 | 25,000 | 6,373 | 9,403 | 31,373 | 34,403 |
| Lindsay Foyster | 12,500 | 12,500 | 513 | 1,156 | 13,013 | 13,656 |
| David Francis[38] | 504 | | | | 504 | |
| Alison Gerrard | 12,500 | 6,771 | 1,174 | 1,412 | 13,674 | 8,183 |
| Bill Richardson | 12,500 | 5,712 | 3,407 | 1,480 | 15,907 | 7,192 |
| Anne Beegan[39] | 3,357 | | 1,733 | | 5,090 | |
| Amanda Hughes[39] | 4,167 | 4,167 | 2,301 | 1,982 | 6,468 | 6,149 |
| **Cyn-aelodau'r Bwrdd** | | | | | | |
| Steven Burnett[40] | 11,962 | 12,500 | 1,819 | 3,324 | 13,781 | 15,824 |
| David Corner | | 3,583 | | 1,805 | | 5,388 |
| Peter Price | | 5,786 | | 386 | | 6,172 |
| Louise Fleet[401] | 787 | 4,167 | 52 | 457 | 839 | 4,624 |
| **Cyfanswm** | **83,277** | **80,186** | **17,372** | **21,405** | **100,649** | **101,591** |

36 Gall aelodau'r Bwrdd ac aelodau anweithredol pwyllgorau hawlio am eu costau teithio a threuliau ar gyfer busnes sy'n gysylltiedig â Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff y rhwymedigaeth treth bersonol mewn perthynas â'r treuliau hyn ei setlo gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan Gytundeb Setliad TWE gyda CThEM.

37 Daw cydnabyddiaeth y Cadeirydd yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Caiff costau teithio a threuliau'r Cadeirydd eu talu gan Swyddfa Archwilio Cymru.

38 Cymerodd David Francis le Steven Burnett ar Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar 16 Mawrth 2019.

39 Mae Anne Beegan ac Amanda Hughes yn aelodau o'r Bwrdd sy'n gyflogeion. Penodwyd Anne ar 11 Mehefin 2018; ail-benodwyd Amanda o 11 Mehefin 2018. Mae lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau fel Aelodau'r Bwrdd yn unig.

40 Daeth cyfnod Steven Burnett yn ei swydd i ben ar 15 Mawrth 2019.

41 Roedd Louise Fleet yn aelod o'r Bwrdd sy'n gyflogai tan 8 Mehefin 2018. Mae lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau fel Aelodau'r Bwrdd yn unig.

## Aelodau anweithredol pwyllgorau

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi penodi aelod annibynnol o'i Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. (ARAC).

### Cyfanswm ffigwr unigol cydnabyddiaeth ariannol aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

| | **Cydnabyddiaeth Ariannol/ Lwfans** | | **Treuliau sy'n cynnwys treth** | | **Cyfanswm ffigwr unigol cydnabyddiaeth ariannol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2018-19** | **2017-18** | **2018-19** | **2017-18** | **2018-19** | **2017-18** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Dianne Thomas | 5,000 | 1,667 | 496 | 399 | 5,496 | 2,066 |
| Cyn-aelod o'r Pwyllgor | | | | | | |
| Alison Gerrard | | 2,541 | | 79 | | 2,620 |
| **Cyfanswm** | **5,000** | **4,208** | **496** | **478** | **5,496** | **4,686** |

## Staff Swyddfa Archwilio Cymru

Mae polisi tâl Swyddfa Archwilio Cymru a manylion amrediadau cyflog ar gyfer yr holl staff ar gael ar ein gwefan.

Cyflogir pob aelod o staff gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyfryw delerau ac amodau a bennir gan y Bwrdd. Cynhelir adolygiad cyfnodol o gydnabyddiaeth ariannol pob aelod o staff yn unol â strategaethau a bennir gan y Bwrdd a chan ymgynghori ag undebau llafur o dan gydgytundeb. Mae cydnabyddiaeth ariannol yn bensiynadwy o dan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Mae aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru fel arfer yn dal swyddi penagored, oni bai eu bod ar gontractau cyfnod penodol. Byddai terfynu penodiad yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn talu bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad i unrhyw aelodau o staff, ond mae trefniadau arfarnu perfformiad ar waith sy'n atal codiadau cyflog os na fydd perfformiad yn foddhaol.

Yn ystod 2018-19, ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-aelodau o staff y byddai eu cydnabyddiaeth ariannol wedi bod yn ddatgeladwy (2017-18: Dim).

## Cyfanswm ffigwr unigol cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr

Nodir isod fanylion cydnabyddiaeth ariannol a buddion pensiwn aelodau'r Pwyllgor Rheoli. Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y Bwrdd yn craffu ar grynodeb arfarnu perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol o aelodau'r Pwyllgor Rheoli.

| | Y Flwyddyn Hyd at 31 Mawrth 2019 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflog**[42] | **Treuliau Trethadwy**[43] | **Budd Pensiwn**[44] | **Cyfanswm ffigwr unigol cydnabyddiaeth ariannol** |
| | **Bandiau o £5,000** | **I'r £100 agosaf** | **I'r £1,000 agosaf** | **Bandiau o £5,000** |
| Anthony Barrett | 120-125 | 16,400 | 51 | 190-195 |
| Jane Holownia (0.8CagALl) | 85-90 | | 37 | 125-130 |
| Steve O'Donoghue | 90-95 | | 47 | 135-140 |
| Kevin Thomas | 120-125 | 19,700 | 47 | 185-190 |
| Mike Usher | 105-110 | | 25 | 130-135 |

| | Y Flwyddyn Hyd at 31 Mawrth 2018 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflog** | **Treuliau Trethadwy** | **Budd Pensiwn** | **Cyfanswm ffigwr unigol cydnabyddiaeth ariannol** |
| | **Bandiau o £5,000** | **I'r £100 agosaf** | **I'r £1,000 agosaf** | **Bandiau o £5,000** |
| Anthony Barrett | 120-125 | 17,200 | 29 | 165-170 |
| Gillian Body[45] | 30-35 | | (3) | 25-30 |
| Jane Holownia (0.8CagALl) | 85-90 | | 13 | 100-105 |
| Steve O'Donoghue | 85-90 | | 45 | 130-135 |
| Kevin Thomas | 120-125 | 14,100 | 21 | 155-160 |
| Mike Usher | 105-110 | | 16 | 120-125 |

Cyhoeddir gwybodaeth am dreuliau aelodau'r Pwyllgor Rheoli ar ein gwefan

42 Mae'n cynnwys cyflog gros a lwfans teithio. Talwyd lwfans teithio i Anthony Barrett (£4,255), Kevin Thomas (£4,255) a Jane Holownia (£3,015). Mae gan Mike Usher hawl i Lwfans Teithio ond ni wnaeth arfer yr hawl hon yn 2018-19 na 2017-18.
43 Sef gwerth taliadau yn cynnwys treth a wnaed i Anthony Barrett a Kevin Thomas am deithio i brif weithle.
44 Caiff gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn ei gyfrifo fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi'i luosi â 20) a'r (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw lwmpswm) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiadau o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.
45 Gadawodd Gillian Body Swyddfa Archwilio Cymru ar ddiwedd mis Mehefin 2017 (cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn yr amrediad 120-125). Cafodd iawndal o £177,000 yn 2017-18.

### Hawliau pensiwn i uwch reolwyr

| | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2019 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar ôl cyrraedd oedran pensiwn | CETV[1] ar 31 Mawrth 2019 | CETV[1] ar 31 Mawrth 2018 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Anthony Barrett | 50-55 | 2.5-5 | 911 | 777 | 31 |
| Jane Holownia | 50-55 | 2.5-5 | 952 | 816 | 34 |
| Steve O'Donoghue | 45-50 | 2.5-5 | 678 | 563 | 26 |
| Kevin Thomas | 60-65 | 2.5-5 | 996 | 852 | 26 |
| Mike Usher | 45-50 ynghyd â chyfandaliad o 105-110 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 869 | 764 | 9 |

Nodyn:
[1] CETV = Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cafodd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil ei gyflwyno - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, fe wnaeth yr holl weision sifil newydd eu penodi a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes mewn swydd ymuno ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae gan y Cynllun hwn bedair adran: tair sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu glasurol a mwy) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, gyda chost buddion yn cael eu talu ag arian y mae Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Caiff pensiynau eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Fe wnaeth aelodau presennol o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 aros yn y Cynllun ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae buddion holl aelodau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', ac yn achos y rhai a chanddynt fuddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, caiff y buddion hynny eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Mae'r ffigyrau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd fel rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha – fel y bo'n briodol. Os bydd gan y swyddog fuddiannau ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha, mae'r ffigwr a ddyfynnir yn cyfateb i werth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun; ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.

Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o'r adrannau clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alpha.

Mae buddion yn yr adran glasurol yn cronni yn ôl cyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Hefyd, mae lwmpswm sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar adeg ymddeol.

Ar gyfer premiwm, mae buddion yn cronni yn ôl cyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r adran glasurol, nid oes lwmpswm awtomatig. Mae clasurol a mwy i bob pwrpas yn hybrid gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fwy neu lai yn ôl fel yr adran glasurol a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yr adran premiwm.

Yn yr adran nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn sy'n seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn cynllun honno ac mae pensiwn a gronnwyd yn cael ei gynyddu yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau.

Mae buddion yn yr adran alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio'r ffaith mai 2.32% yw'r gyfradd cronni. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (gohirio) pensiwn am lwmpswm hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol sydd rhwng 8% ac 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle mae'n gwneud hynny bydd y cyflogwr yn talu cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth yn y swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV)

Ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafog y buddion a gronnwyd gan aelod yn y cynllun pensiwn ar adeg benodol, wedi'i asesu'n actiwaraidd. Y buddion a gaiff eu prisio yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn trwy gydol ei gyfnod fel aelod o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei gyfnod yn yr uwch swydd y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigyrau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnir gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddon a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal am golli swydd

Bydd Jane Holownia yn gadael Swyddfa Archwilio Cymru dan delerau Ymadael yn Wirfoddol ar 30 Mehefin 2019. Bydd yn cael iawndal o £161,333 yn unol â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Yn ystod 2018-19 fe wahoddodd Swyddfa Archwilio Cymru staff i fynegi diddordeb mewn ymadael dan y cynllun fel rhan o drefniadau parhaus i gynllunio'r gweithlu. Cafodd cais Jane Holownia ei ystyried gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Bydd arbedion sy'n gysylltiedig â'r ymadawiad hwn yn golygu bod cost yr iawndal yn cael ei adennill o fewn 17 mis.

## Lluosrifau cyflog

Caiff y berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a chydnabyddiaeth ariannol ganolrifol y gweithlu ei datgelu yn y tabl canlynol.

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol[46] y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf heb gynnwys cyfraniadau pensiwn (£'000) | 140-145 | 135-140 |
| Cyfanswm canolrifol cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar staff cyfwerth ag amser llawn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn) | £45,858 | £42,757 |
| Amrediad cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol heb gynnwys cyfraniadau pensiwn | £16,381[47] -£143,430 | £16,381 - £138,632 |
| Cymhareb cydnabyddiaeth ariannol | 3.13 | 3.24 |

Yn 2018-19, ni chafodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth ariannol uwch na'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf (2017-18: dim).

Er tryloywder, roedd cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol, sef £157,092[48] (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn) yn gyfystyr â 3.43 gwaith cyfanswm canolrifol cydnabyddiaeth ariannol Swyddfa Archwilio Cymru (2017-18: £161,744, cymhareb: 3.78).

## Ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres

Nid oedd gan Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw gontractau yn ystod 2018-19 a oedd yn cyfateb i ddiffiniad Trysorlys EM o drefniadau oddi ar y gyflogres (2017-18: dim).

46 Mae cyfanswm cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog a lwfans teithio. Yn achos y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf mae hefyd yn cynnwys treuliau trethadwy.
47 Lleoliad gwaith i raddedigion
48 Yn seiliedig ar gyflogau a dalwyd i Huw Vaughan Thomas hyd at 20 Gorffennaf 2018 ac Adrian Crompton o 21 Gorffennaf 2018 tan 31 Mawrth 2019.

## Dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

The Wales Audit Office operates voluntary-severance arrangements in accordance with the Civil Service Compensation Scheme and workforce planning requirements.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu trefniadau diswyddo gwirfoddol yn unol â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil a gofynion o ran cynllunio'r gweithlu.

Cost y cynllun yn 2018-19 oedd £383,654 (2017-18: £501,078) ac amcangyfrifir y bydd hyn yn cyflawni arbedion o £242,000 y flwyddyn (2017-18: £194,000. Bydd y gost wedi cael ei hadennill o fewn 24 mis.

Fe gytunodd wyth o gyflogeion (2017-18: 7) i dderbyn pecynnau ymadael wedi'u cymeradwyo yn ystod 2018-19 fel a nodir isod.

Ni wnaeth unrhyw aelodau o staff ymddeol yn gynnar ar sail iechyd yn ystod y flwyddyn (2017-18: dim). Ni chafwyd unrhyw achos o ddileu swyddi'n orfodol yn 2018-19 (2017-18: dim).

| | **Nifer y pecynnau ymadael yn ôl band costau** | |
|---|---|---|
| | **2018-19** | **2017-18** |
| Llai na £25,000 | 3 | 1 |
| £25,001-£50,000 | 2 | 2 |
| £50,001-£100,000 | 2 | 2 |
| £100,001-£150,000 | | 1 |
| £150,001-£200,000 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **8** | **7** |

# Adroddiad staff

## Uwch arweinwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer yr uwch aelodau o staff yn ôl band cyflog ar 31 Mawrth 2019.

Mae'r swyddi ym Mandiau A a B yn cynrychioli'r Pwyllgor Rheoli, a gaiff ei gadeirio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Ar y cyd â'r swyddi ym Mand C, maent yn cynrychioli'r Uwch Dîm Arwain.

| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| Band A (£96,258-£118,581) | 2 | 2 |
| Band B (£82,594-£105,989) | 3 | 3 |
| Band C (£73,579-£91,053) | 7 | 8 |
| **Cyfanswm** | **12** | **13** |

## Niferoedd Staff

Mae'r cynnydd ar y cyfan yn niferoedd y staff yn adlewyrchu hyfforddeion graddedig a phrentisiaid ychwanegol a recriwtiwyd yn ystod y flwyddyn, y maent i gyd ar gontractau hyfforddi cyfnod penodol.

Bu gostyngiad o chwech yn nifer y staff parhaol a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn unol â'n hamcan cynllunio'r gweithlu (gyda chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru) i gynyddu cyfleoedd ar gyfer hyfforddeion graddedig a phrentisiaid.

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Nifer y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | 203 | 209 |
| Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar gontractau cyfnod penodol yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | 54 | 38 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd) | 7 | 8 |
| **Cyfanswm** | **264** | **255** |

## Costau staff a chostau cysylltiedig

| | 2018-19 £'000 | 2017-18 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau staff | 11,440 | 11,016 |
| Staff a secondiwyd i mewn | 39 | 29 |
| Staff ar gontractau byrdymor | 223 | 249 |
| Cydnabyddiaeth ariannol aelodau anweithredol | 63 | 59 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,340 | 1,299 |
| Costau pensiwn (PCPS) | 2,425 | 2,365 |
| Costau pensiwn (pensiynau cyfranddeiliaid) | 33 | 18 |
| | **15,563** | **15,035** |
| Lwfans teithio a cheir ar brydles | 659 | 709 |
| Tanysgrifiadau[49] | 72 | 75 |
| | **16,294** | **15,819** |
| Contractwyr archwilio ac arolygu | 110 | 104 |
| | **16,404** | **15,923** |
| Costau dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | 458 | 501 |
| Namyn arian a gafwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan | (388) | (153) |
| | **16,474** | **16,271** |

49 Ffioedd ar gyfer aelodaeth o gyrff proffesiynol, profion llygaid ac archwiliadau iechyd.

## Gwasanaethau a brynwyd i mewn[50]

| | 2018-19<br>£'000 | 2017-18<br>£'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat | 860 | 795 |
| Costau ymchwil a chostau ymgynghori eraill | 239 | 21 |
| | **1,099** | **816** |

Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â swyddogaethau archwilio, arolygu, cynghori neu ymchwil. Yn 2018-19, maent hefyd yn cynnwys costau eilflwydd sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol.

**Nid yw'r wybodaeth ganlynol ar dudalennau 85 i 89 yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn cael ei harchwilio**

## Polisïau staff, cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â'r fframwaith diogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gydymffurfio â'r confensiynau a nodwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, gan gynnwys ein staff ein hunain a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o'n gwaith, ac rydym yn llawn gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2017-18 yn darparu gwybodaeth am faterion cydraddoldeb megis materion amrywiaeth a thriniaeth gyfartal mewn cyflogaeth. Bydd ein hadroddiad ar gyfer 2018-19 yn cael ei gyhoeddi yn haf 2019 a bydd hwn yn cynnwys manylion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau am y flwyddyn.

49 Heb gynnwys TAW.

Mae ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau y caiff pob aelod o staff â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys nam) ei drin yn deg ac yn gyfartal ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Mae'r polisi yn darparu ar gyfer cydraddoldeb wrth ddethol ym maes cyflogi, recriwtio, dyrchafu, dysgu a datblygu a/neu unrhyw fudd arall, yn seiliedig yn llwyr ar gymhwysedd a gallu yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig.

## Cyfansoddiad staff (nifer y bobl a gyflogir ar 31 Mawrth 2018)

| | **Dynion** | **Menywod** | **Gwell gen i beidio â dweud** | **Dim data** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr | 10 | 2 | | |
| Cyflogeion eraill | 88 | 134 | 2 | 28 |
| Cyfanswm | 98 | 136 | 2 | 28 |

## Absenoldeb oherwydd salwch


| | **2018-19** | **2017-18** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff | 6.7 | 7.7 |
| Oherwydd absenoldeb byrdymor | 3.1 | 3.6 |
| Oherwydd absenoldeb hirdymor (cyfnodau o ≥21 diwrnod) | 3.6 | 4.1 |

Bu gwelliant o un diwrnod yn ein lefelau salwch staff rhwng 2017-18 a 2018-19. Roedd y lefel salwch ar y cyfan 1.7 diwrnod yn llai na meincnod y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD)[51], ond 0.7 diwrnod yn fwy na'n targed o chwe niwrnod.

Er mwyn helpu staff i reoli eu hiechyd, mae gennym broses Sgrinio Iechyd, Rhaglen Cymorth i Gyflogeion, Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl a rhaglen o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth llesiant a gynhelir trwy gydol y flwyddyn.


51 Cymedr o 8.4 diwrnod fesul cyflogai y flwyddyn ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i Arolwg Iechyd a Lles yn y Gwaith CIPD yn 2018

Absenoldeb oherwydd salwch ymhlith staff rhwng 2015-16 a 2018-19



## Ein gweithlu

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Patrymau Gweithio** | | |
| Cyflogeion rhan amser fel canran o'r cyfanswm | 18.6 | 17.7 |
| I ddynion | 5.2 | 4.1 |
| I fenywod | 26.5 | 28.1 |
| **Math o gontract cyflogaeth** | | |
| Canran y staff ar gontractau parhaol | 76.9 | 82.0 |
| **Trosiant** | | |
| Canran flynyddol trosiant staff | 10.1 | 10 |



Bu cynnydd o 0.9% yng nghyfran y cyflogeion rhan amser yn 2018-19. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd o 1.1% ymhlith dynion a gostyngiad o 1.6% ymhlith menywod.

Gostyngodd canran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol, gan adlewyrchu cynnydd yn nifer yr hyfforddeion graddedig a phrentisiaid ar gontractau hyfforddi cyfnod penodol.

Mae canran flynyddol trosiant ein staff wedi aros fwy neu lai yr un fath ag yn 2017-18 ar 10.1%.

## Crynodeb o alldro adnoddau 2018-19

**Caiff yr wybodaeth ar dudalennau 90 i 125 ei harchwilio.**

Mae'r datganiad hwn yn cymharu'r Amcangyfrif ar gyfer 2018-19, fel y pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol arno ag incwm a gwariant gwirioneddol yn ystod y flwyddyn.

### Crynodeb o alldro adnoddau 2018-19

| | | Amcangyfrif 2018-19 | | | Alldro 2018-19 | | | | Alldro 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **NOTE** | | **Gwariant Gros** | **Incwm** | **Cyfanswm Net** | **Gwariant Gros** | **Incwm** | **Cyfanswm Net** | **Alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif** | **Cyfanswm Net** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** |
| SORO1 | Refeniw | 21,625 | (14,644) | 6,981 | 21,385 | (14,644) | 6,741 | (240) | 6,847 |
| SORO2 | Cyfalaf | 280 | | 280 | 210 | | 210 | (70) | 313 |
| SORO2 | Cyfanswm Adnoddau | 21,905 | (14,644) | 7,261 | 21,595 | (14,644) | 6,951 | (310) | 7,160 |
| SORO3 | Gofyniad Arian Parod Net | | | 7,061 | | | 5,285 | (1,776) | 6,308 |

Yn codi o weithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19:

- roedd y cyfanswm alldro net ar adnoddau refeniw £240,000 yn llai na'r adnoddau net cymeradwy o £6,981,000;
- roedd yr adnoddau cronedig £168,000 yn fwy nag y darparwyd ar ei gyfer yn yr amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn (gweler y nodiadau isod);
- roedd yr alldro ar wariant cyfalaf £70,000 yn llai na'r gyllideb gyfalaf gymeradwy o £280,000; a
- dangosir gweddill yr arian parod sydd gan Swyddfa Archwilio Cymru (£1,776,000) fel swm sy'n ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru.

Darperir eglurhad o effeithlonrwydd costau yn Swyddfa Archwilio Cymru yn y crynodeb rheolaeth ariannol ar dudalen 30.

Llywodraethir incwm ffioedd archwilio gan y Cynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Dadansoddir yr incwm hwn yn Nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol.

## Nodiadau i'r crynodeb o alldro adnoddau

Ar gyfer 2018-19 a blynyddoedd yn y dyfodol dangosir gweddill yr arian parod sydd gan Swyddfa Archwilio Cymru fel swm sy'n ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Nodyn SORO1: cysoni'r alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| | 2018-19 | | | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Amrywiant | Alldro |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau refeniw | 6,981 | 6,741 | (240) | 6,847 |
| Adnoddau cyfalaf | 280 | 210 | (70) | 313 |
| **Addasiadau** | | | | |
| Eitemau heblaw arian parod (dibrisiant) | (200) | (284) | (84) | (226) |
| Gweddill arian parod ar 1 Ebrill 2018 | | (3,017) | (3,017) | |
| Yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2018-19 | | 723 | 723 | |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod: | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy a gwaith ar y gweill | | 1,051 | 1,051 | (698) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy ac incwm gohiriedig | | (152) | (152) | 242 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau | | 181 | 181 | (170) |
| Incwm y tu hwnt i'r amcangyfrif | | (168) | (168) | |
| **Cyfanswm gofyniad arian parod net** | **7,061** | **5,285** | **(1,776)** | **6,308** |

## Nodyn SORO2: cysoni alldro adnoddau â gwariant net

| | Alldro<br>2018-19<br>£'000 | Alldro<br>2018-19<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm adnoddau refeniw | 6,741 | 6,847 |
| Incwm y tu hwnt i'r amcangyfrif | (168) | |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr** | **6,573** | **6,847** |

## Nodyn SORO3: dadansoddiad o alldro adnoddau net 2018-19

| Alldro 2017-18 £'000 | | Amcangyfrif 2018-19 £'000 | Alldro 2018-19 £'000 | Amrywiant £'000 | Rheswm dros amrywiannau sylweddol yn erbyn yr Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Treuliau** | | | | |
| 14,909 | Costau staff | 15,286 | 15,186 | (100) | Nifer y swyddi gwag ymhlith staff a secondiadau allan yn y flwyddyn |
| 353 | Staff contractwyr | 617 | 333 | (284) | Llai o ddefnydd o staff ar gontractau byrdymor oherwydd mwy o ddefnydd o hyfforddeion a phrentisiaid |
| 1,204 | Teithio a chynhaliaeth | 1,231 | 1,205 | (26) | |
| 917 | Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW) | 962 | 992 | 30 | |
| 931 | Swyddfeydd | 960 | 907 | (53) | Gostyngiad mewn dadfeiliadau a chostau atgyweiriadau a chynnal a chadw |
| 494 | TGCh | 397 | 392 | (5) | |
| 519 | Gweddill TAW anadenilladwy | 500 | 490 | (10) | |
| 300 | Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | 300 | 296 | (4) | |
| 292 | Hyfforddiant allanol | 275 | 259 | (16) | |
| 120 | Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 194 | 234 | 40 | |
| 158 | Cyfieithu dogfennau | 145 | 142 | (3) | |
| – | Casglu data'r Fenter Twyll Genedlaethol | 130 | 136 | 6 | |
| 772 | Costau eraill | 878 | 813 | (65) | Arbedion ar feysydd amrywiol yn y gyllideb |
| – | Targed arbedion 2018-19 | (250) | – | 250 | Targed ar gyfer arbedion effeithlonrwydd wedi'i gyrraedd o gostau staff yn bennaf. |
| **20,969** | **Cyfanswm Treuliau** | **21,625** | **21,385** | **(240)** | |
| | **Incwm** | | | | |
| (12,755) | Ffioedd archwilio | (13,193) | (13,562) | (369) | Cyflawni gwaith archwilio'n gynnar parthed cau cyfrifon yn gynnar |

Tudalen y pecyn 107

| Alldro 2017-18 £'000 | | Amcangyfrif 2018-19 £'000 | Alldro 2018-19 £'000 | Amrywiant £'000 | Rheswm dros amrywiannau sylweddol yn erbyn yr Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| (1,351) | Ffioedd ardystio grantiau | (1,451) | (1,233) | 218 | Gostyngiad parhaus mewn gwaith ardystio grantiau |
| (5) | Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella | – | – | – | |
| (11) | Incwm arall | – | (17) | (17) | |
| – | Incwm y tu hwnt i'r amcangyfrif | – | 168 | 168 | |
| **(14,122)** | **Cyfanswm incwm** | **(14,644)** | **(14,644)** | | |
| **6,847** | **Adnoddau refeniw net** | **6,981** | **6,741** | **(240)** | |
| **313** | **Adnoddau cyfalaf** | **280** | **210** | **(70)** | |

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio bob blwyddyn ar wariant ac incwm cyllidebol Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau pell wrth gefn a fydd yn effeithio ar gynlluniau gwariant hirdymor.

Datgelir unrhyw daliadau arbennig a cholledion datgeladwy yn 2018-19 yn Nodyn 14 i'r Datganiadau Ariannol.

# Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rydym yn ardystio ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 o dan Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr, a nodiadau cysylltiedig. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan Drysorlys EM o dan Ddeddf 2013.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2019 a'i chost gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau gan Drysorlys EM o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

### Barn ar reoleidd-dra'r datganiadau ariannol

Rydym wedi cyflawni gwaith, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, er mwyn cael sicrwydd rhesymol bod y gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato wedi'i ysgwyddo mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i ysgwyddo mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu; ac
- ni wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Sail y farn am y datganiadau ariannol

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a chyfraith gymwys. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'n hadroddiad sy'n ymdrin â chyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rydym hefyd yn archwilio'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a nodiadau cysylltiedig a'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad.

Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

## Sail y farn am reoleidd-dra'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i ni gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i ysgwyddo mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny. Rydym wedi cyflawni ein gwaith yn unol â Datganiad o Arfer a Argymhellir, Nodyn Ymarfer 10 Archwilio datganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn hyn o beth.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw defnydd Swyddfa Archwilio Cymru nac Archwilydd Cyffredinol Cymru o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw Swyddfa Archwilio Cymru nac Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r cwmni i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilydd arnynt. Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth ni a gafwyd yn yr archwiliad neu'n ymddangos fel arall fel pe bai'n cynnwys camddatganiad perthnasol. Os down i'r casgliad, ar sail ein gwaith, fod camddatganiad perthnasol yn yr wybodaeth arall hon, rhaid i ni nodi hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn ein barn ni:

- mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a'r rhan o'r Adroddiad ar Atebolrwydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM o roddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Cyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodir ar dudalen 51, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y cyfarwyddwyr i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am asesu gallu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol onid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu diddymu Swyddfa Archwilio Cymru heb i'w gweithrediadau barhau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato wedi'i ysgwyddo mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am roi barn am reoleidd-dra'r datganiadau ariannol

Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn sicrwydd rhesymol bod y gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i ysgwyddo mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Defnydd o'n hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y mae wedi'i gyfeirio ato ac i'r corff hwnnw yn unig yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac nid at unrhyw ddiben arall. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrtho mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un arall heblaw am Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Mae RSM UK Audit LLP wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn ar eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Swyddfa Archwilio Cymru, ac nid RSM UK Audit LLP, sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad.

RSM UK Audit LLP

7 Mehefin 2019

Archwilwyr Statudol
Third Floor
One London Square
Cross Lanes
Guildford
GU1 1UN

# DATGANIADAU ARIANNOL

## DATGANIADAU ARIANNOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU, YNGHYD Â NODIADAU ATEGOL AC ESBONIADOL

# Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | 2018-19 £'000 | 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Staff a chostau cysylltiedig | Adroddiad staff[52] | 16,474 | 16,271 |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | Adroddiad staff | 1,099 | 816 |
| Costau gweithredu eraill | 3 | 3,812 | 3,882 |
| | | **21,385** | **20,969** |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o ffioedd archwilio | 1 | (14,795) | (14,106) |
| Grant arolygu | 1 | | (5) |
| Incwm gweithredu arall | 2 | (17) | (11) |
| | | **(14,812)** | **(14,122)** |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **6,573** | **6,847** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 106 i 125 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

Ni chafwyd unrhyw weithrediadau a derfynwyd, caffaeliadau na gwarediadau yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion anghydnabyddedig.

52 Nodyn costau staff ar dudalen 84 yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff.

# Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | 31 Mawrth 2019<br>£’000 | 31 Mawrth 2018<br>£’000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 572 | 593 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 180 | 233 |
| Cyfanswm asedau anghyfredol | | **752** | **826** |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo | 6 | 2,436 | 1,432 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 7 | 603 | 556 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 8 | 1,776 | 3,017 |
| Cyfanswm asedau anghyfredol | | **4,815** | **5,005** |
| **Cyfanswm asedau** | | **5,567** | **5,831** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (2,117) | (1,745) |
| Incwm gohiriedig | 10 | (2,336) | (2,556) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill | 11 | (617) | (687) |
| Cronfa Gyfunol Cymru | SORO | (1,776) | (723) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(6,846)** | **(5,711)** |
| **Cyfanswm yr asedau namyn rhwymedigaethau cyfredol** | | **(1,279)** | **120** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill | 11 | (622) | (733) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(622)** | **(733)** |
| **Cyfanswm yr asedau namyn rhwymedigaethau** | | **(1,901)** | **(613)** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | (1,901) | (613) |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **(1,901)** | **(613)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 106 i 125 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 101 i 122 gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 6 Mehefin 2019 ac fe'u llofnodir ar ei ran gan:



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

6 Mehefin 2019

# Datganiad o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Note | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr | | (6,573) | (6,847) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol: dibrisiant ac amorteiddio | 3 | 284 | 226 |
| (Gostyngiad) / Cynnydd mewn darpariaethau | 11 | (181) | 170 |
| **Newidiadau mewn cyfalaf gweithio** | | | |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 6,7 | (1,051) | 698 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9,10 | 152 | (242) |
| **All-lif arian parod net a ddefnyddiwyd o weithgareddau gweithredu** | | **(7,369)** | **(5,995)** |
| **Llifoedd arian parod a ddefnyddiwyd o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | | | |
| Prynu asedau anniriaethol | 4 | (160) | (152) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau** | 5 | (50) | (161) |
| **buddsoddi** | | **(210)** | **(313)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | 7,061 | 7,031 |
| Ad-daliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | (723) | (495) |
| **Ariannu net** | | **6,338** | **6,536** |
| **Symudiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | | **(1,241)** | **228** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 106 i 125 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | £'000 |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | (74) |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2017-18 | |
| Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr | (6,847) |
| Cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru | 7,031 |
| | 110 |
| Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru | (723) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **(613)** |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2018-19 | |
| Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr | (6,573) |
| Cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru | 7,061 |
| | (125) |
| Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru | (1,776) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **(1,901)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 106 i 125 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

## Nodiadau i’r Datganiadau Ariannol

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2018-19, a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol.

### Sail y paratoi

Mae’r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr UE fel y’u haddaswyd neu’u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir ffigyrau mewn punnoedd sterling, sef arian cyfred gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru, ac maent wedi’u talgrynnu i’r £1,000 agosaf.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y nodir isod:

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio yn unol â threfniadau ariannu blynyddol drwy statud. Er mai dim ond am naw mis ar ôl dyddiad llofnodi’r datganiadau hyn y mae cyllid y pleidleisiwyd arno wedi cael ei gymeradwyo, caiff Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol ei gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod yr hydref yn y flwyddyn gyfredol ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff cyllid ei gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

Nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i dalu treth gorfforaeth yn 2018-19.

## Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol a meysydd barn

| | |
|---|---|
| Mae'r broses o gydnabod refeniw yn seiliedig ar yr amser a godir ar brosiectau wedi'i addasu lle y bo'n berthnasol i adlewyrchu cam cwblhau'r gwaith a wnaed. Cynhelir asesiad ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn ystyried rhesymoldeb incwm a gydnabyddir gan ystyried cost cwblhau prosiectau archwilio. Fel sy'n ofynnol yn ôl IFRS 15 (Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid) mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu bod rhwymedigaethau perfformiad ar gyfer pob ymgymeriad archwilio'n cael eu bodloni dros amser yn hytrach nac ar adeg benodol mewn amser. Mae hyn yn gyson â'r driniaeth mewn blynyddoedd blaenorol ac nid yw wedi cael unrhyw effaith berthnasol ar y modd y caiff incwm ei gydnabod yn y datganiadau ariannol hyn neu ddatganiadau ariannol ar gyfer blynyddoedd blaenorol.<br>Mae'r polisi cyfrifyddu hwn yn cael effaith uniongyrchol ar brisio incwm ffioedd archwilio (Nodyn 1), gwaith sy'n mynd rhagddo (Nodyn 6) ac incwm gohiriedig (Nodyn 10) yn y datganiadau ariannol hyn ond nid oedd gofyniad i ailddatgan balansau mewn blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i weithredu'r safon gyfrifyddu newydd hon. | Gwnaed **darpariaethau** lle mae'n fwy tebygol na pheidio, ym marn y swyddog cyfrifyddu, fod rhwymedigaeth ariannol yn bodoli na ellir ei hamcangyfrif yn gywir ar hyn o bryd.<br>Gweler Nodyn 11 am ragor o wybodaeth. |

## Nodyn 1 (a): Segmentau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cofnodi incwm a gwariant ar ei dwy brif swyddogaeth archwilio y codir ffioedd amdanynt a hefyd ar gyfer gweithgareddau a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

### 2018-19

| | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Gweithgareddau a ariannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ffioedd archwilio[53] | (11,265) | (3,530) | | (14,795) |
| Incwm arall | | | (17) | (17) |
| Cyfanswm incwm | (11,265) | (3,530) | (17) | (14,812) |
| Gwariant | 11,681 | 3,114 | 6,590 | 21,385 |
| | **416** | **(416)** | **6,573**[54] | **6,573** |

### 2017-18

| | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Gweithgareddau a ariannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ffioedd archwilio | (10,687) | (3,419) | | (14,106) |
| Grant | | (5) | | (5) |
| Incwm arall | | | (11) | (11) |
| Cyfanswm incwm | (10,687) | (3,424) | (11) | (14,122) |
| Gwariant | 10,851 | 3,260 | 6,858 | 20,969 |
| | **164** | **(164)** | **6,847** | **6,847** |

53 Gweler nodyn 1(b)
54 Gweler y Cysoniad â'r Datganiad o Alldro Adnoddau

## Cysoniad â’r Datganiad o Alldro Adnoddau

| | 2018-19 £’000 | 2017-18 £’000 |
|---|---|---|
| Gweithgareddau a ariannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru fel yn Nodyn 1 | 6,573 | 6,847 |
| Incwm y tu hwnt i’r Amcangyfrif | 168 | |
| Adnoddau refeniw net | 6,741 | 6,847 |

## Nodyn 1 (b): Dadansoddiad o incwm o ffioedd archwilio

| | 2018-19 | | | 2017-18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Cyfanswm | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Cyfanswm |
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| Archwilio Llywodraeth Leol | (6,085) | (2,191) | (8,276) | (5,598) | (2,265) | (7,863) |
| Ardystio Grantiau Llywodraeth Leol | (1,233) | | (1,233) | (1,351) | | (1,351) |
| Archwilio’r GIG | (1,871) | (1,337) | (3,208) | (1,900) | (1,154) | (3,054) |
| Archwilio Llywodraeth Ganolog | (2,076) | (2) | (2,078) | (1,838) | | (1,838) |
| | (11,265) | (3,530) | (14,795) | (10,687) | (3,419) | (14,106) |

Pennir y ffioedd a godir am waith archwilio yn unol â Chynllun Ffioedd y cytunwyd arno gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.

Cydnabyddir incwm ffioedd gros ac incwm gweithredu arall yn seiliedig ar werth gwaith y codir tâl amdano heb gynnwys TAW. Caiff y gwerth hwn ei asesu drwy gyfeirio at daliadau amser a cham cwblhau prosiectau.

Caiff incwm gweithredu, p’un a ddaw drwy grantiau uniongyrchol gan y llywodraeth neu ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, ei gredydu i’r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff anfonebau a godir cyn i’r gwaith gael ei wneud ei ddosbarthu’n incwm gohiriedig (gweler Nodyn 10). Caiff gwaith a wneir cyn i’r incwm gael ei dderbyn ei ddosbarthu’n waith sy’n mynd rhagddo (gweler Nodyn 6).

Ni chaiff arian a dynnir o Gronfa Gyfunol Cymru ei ystyried yn grant uniongyrchol gan y llywodraeth a chaiff ei gredydu’n uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

## Nodyn 2: Incwm gweithredu arall

| | 2018-19<br>£'000 | 2017-18<br>£'000 |
|---|---|---|
| Incwm gweithredu arall[55] | (17) | (11) |
| | (17) | (11) |

## Nodyn 3: Costau gweithredu eraill

| | 2018-19<br>£'000 | 2017-18<br>£'000 |
|---|---|---|
| Swyddfeydd | | |
| Costau prydlesi rhent | 448 | 454 |
| Costau gweithredu eraill | 459 | 411 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau[56] | 1,650 | 1,806 |
| Recriwtio | 39 | 70 |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 284 | 226 |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| Gwasanaethau archwilio mewnol | 44 | 43 |
| Gwasanaethau archwilio allanol | 45 | 38 |
| Ffioedd proffesiynol eraill | 38 | 47 |
| Teithio a chynhaliaeth staff | 546 | 495 |
| Hyfforddi a datblygu staff | 259 | 292 |
| | 3,812 | 3,882 |

Ni chafodd unrhyw wasanaethau nad oeddent yn rhai archwilio eu darparu gan ein harchwilwyr allanol yn 2018-19. (2017-18: Dim)

55 Mae'n cynnwys taliadau am hyfforddiant a ddarperir, defnydd personol o ffonau symudol a thaliadau a ailgodir am luniaeth.
56 Yn cynnwys TAW anadenilladwy. Mae'r holl gyfansymiau eraill yn y nodyn hwn heb gynnwys TAW.

## Nodyn 4: Eiddo, offer a chyfarpar

| | Dodrefn a ffitiadau | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **2018-19** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 1,302 | 519 | 157 | 1,978 |
| Ychwanegiadau | 37 | 111 | 12 | 160 |
| Gwarediadau | (3) | (19) | | (22) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 1,336 | 611 | 169 | 2,116 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 990 | 271 | 124 | 1,385 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 62 | 107 | 12 | 181 |
| Gwarediadau | (3) | (19) | | (22) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 1,049 | 359 | 136 | 1,544 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 287 | 252 | 33 | 572 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 312 | 248 | 33 | 593 |
| **Ariannu asedau** | | | | |
| A berchenogir | 287 | 252 | 33 | 572 |

| | Dodrefn a ffitiadau | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **2017-18** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 1,329 | 377 | 160 | 1,866 |
| Ychwanegiadau | | 152 | | 152 |
| Gwarediadau | (27) | (10) | (3) | (40) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 1,302 | 519 | 157 | 1,978 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 949 | 214 | 113 | 1,276 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 68 | 67 | 14 | 149 |
| Gwarediadau | (27) | (10) | (3) | (40) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 990 | 271 | 124 | 1,385 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 312 | 248 | 33 | 593 |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 380 | 163 | 47 | 590 |
| **Ariannu asedau** | | | | |
| A berchenogir | 312 | 248 | 33 | 593 |

Caiff gwariant sydd dros £5,000 ar offer a meddalwedd cyfrifiadurol, gwaith adnewyddu swyddfeydd ac offer arall ei gyfalafu. Mae gwariant dilynol ar asedau sy'n bodloni'r meini prawf hyn yn cael ei gyfalafu ymhellach. Mae gwariant ar eitemau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn yn cael ei drin fel gwariant refeniw yn y flwyddyn.

Darperir dibrisiant ar bob ased cyfalaf o'r dyddiad y mae'r ased yn dechrau ei oes ddefnyddiol. Cyfrifir hwn i ddibrisio'r gost, namyn gwerth gweddillol amcangyfrifedig, mewn rhandaliadau blynyddol cyfwerth ar gyfer pob ased fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn, ffitiadau a seilwaith TG | Deng mlynedd (neu oes yr ased neu hyd y brydles ar gyfer ffitiadau mewn adeiladau ar brydles, pa un bynnag sydd fyrraf) |
| Offer cyfrifiadurol | Tair blynedd |
| Offer swyddfa | Pum mlynedd |

Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost adnewyddu wedi'i dibrisio. Cynhelir asesiad blynyddol o leihad mewn gwerth er mwyn cadarnhau mai dyma'r achos o hyd.

## Nodyn 5: Asedau anniriaethol[57]

| | Total |
|---|---|
| **2018-19** | **£'000** |
| **Cost** | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 663 |
| Ychwanegiadau | 50 |
| Gwarediadau | (171) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 542 |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 430 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 103 |
| Gwarediadau | (171) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 362 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 180 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 233 |
| **Ariannu asedau** | |
| A berchenogir | 180 |

57 Offer cyfrifiadurol yn bennaf.

| | Total |
|---|---|
| **2017-18** | **£'000** |
| **Cost** | |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 503 |
| Ychwanegiadau | 161 |
| Gwarediadau | (1) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 663 |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 354 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 77 |
| Gwarediadau | (1) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 430 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 233 |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 149 |
| **Ariannu asedau** | |
| A berchenogir | 233 |

Caiff asedau anniriaethol eu datgan ar gost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth naill ai dros gyfnod y drwydded neu bum mlynedd, pa un bynnag sydd fyrraf. Cyfrifir amorteiddiad o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased anniriaethol.

Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol. Cynhelir asesiad blynyddol o leihad mewn gwerth er mwyn cadarnhau mai dyma'r achos o hyd.

## Nodyn 6: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo

| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | | |
| Llywodraeth Ganolog | 342 | 222 |
| Llywodraeth Leol | 481 | 276 |
| Y GIG | 314 | 236 |
| Y tu allan i'r Llywodraeth | 59 | 4 |
| Gwaith sy'n mynd rhagddo | | |
| Llywodraeth Ganolog | 862 | 535 |
| Llywodraeth Leol | 356 | 152 |
| Y GIG | 22 | 7 |
| | 2,436 | 1,432 |

### Symiau masnach derbyniadwy

Caiff symiau derbyniadwy eu prisio ar sail gwerth teg ar adeg y gydnabyddiaeth gychwynnol. Byddai darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy yn cael ei phennu pe bai tystiolaeth na fyddai Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu adennill pob swm sy'n ddyledus yn unol â'r contractau.

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

Ni fu angen darpariaeth ar gyfer drwgddyledion na dyledion amheus yn 2018-19 (2017-18: dim angen).

### Gwaith sy'n mynd rhagddo

Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn cyfeirio at waith a gwblhawyd cyn cyflwyno'r anfoneb. Fe'i nodir ar sail y gost lawn llai darpariaeth am golledion rhagweladwy a symiau a gafodd eu bilio ar y cyfrif.

## Nodyn 7: Symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig[58] | 603 | 543 |
| Benthyciadau i gyflogeion[59] | | 13 |
| | 603 | 556 |

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

58 Blaendaliadau rhent a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag eiddo yn bennaf.
59 Benthyciadau ar gyfer beiciau a ddisodlwyd â chynllun aberthu incwm ar ddiwedd 2018-19.

## Nodyn 8: Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod

| | **31 Mawrth 2019** | **31 Mawrth 2018** |
|---|---|---|
| | **£’000** | **£’000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 3,017 | 2,789 |
| Newid net mewn arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod | (1,241) | 228 |
| Balans ar 31 Mawrth | 1,776 | 3,017 |

| | **31 Mawrth 2019** | **31 Mawrth 2018** |
|---|---|---|
| | **£’000** | **£’000** |
| Cyfrif cyfredol (Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth) | 1,776 | 3,017 |
| | 1,776 | 3,017 |

Mae arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod yn cynnwys yr holl gronfeydd a ddelir mewn cyfrifon y gall Swyddfa Archwilio Cymru gael gafael arnynt ar unwaith.

Caiff balansau arian parod ar ddiwedd y flwyddyn eu dangos fel symiau sy’n ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Nodyn 9: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Symiau masnach taladwy (sy'n ddyledus o fewn blwyddyn) | 26 | 40 |
| TAW | 108 | 77 |
| Trethiant a chostau nawdd cymdeithasol | 362 | 357 |
| Croniadau ar gyfer hawl gwyliau nas cymerwyd eto[60] | 484 | 474 |
| Croniadau eraill[61] | 1,137 | 797 |
| | 2,117 | 1,745 |

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at dalu 90% o'r holl anfonebau gan gyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i'w derbyn. Yn 2018-19, cafodd 84% eu talu o fewn deng niwrnod, a 97% o fewn 30 diwrnod.

## Nodyn 10: Incwm gohiriedig

| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Incwm gohiriedig | 2,336 | 2,556 |
| | 2,336 | 2,556 |

Caiff incwm o ffioedd archwilio a gydnabyddir yn ein cyfrifon ei asesu drwy gyfeirio at daliadau amser ac adolygu gwaith sy'n mynd rhagddo. Rydym yn anfonebu am y rhan fwyaf o'n gwaith ar sail rhandaliadau drwy gydol y flwyddyn. Mae incwm gohiriedig yn cyfeirio at incwm sydd wedi'i filio ond sydd heb ei gydnabod eto.

60 Yn seiliedig ar ben-blwydd gwyliau unigolion.
61 Yn cynnwys £291,000 mewn perthynas ag anfonebau a gafwyd ar ôl diwedd y flwyddyn a £267,000 mewn perthynas â chyfraniadau pensiwn ar gyfer mis Mawrth 2019 a dalwyd ym mis Ebrill 2019.

## Nodyn 11: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Dadfeiliadau[62] | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau[63] | Gadael y cynllun ceir | Cwmnïau Contractwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 647 | 629 | 1 | 143 | 1,420 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 3 | 422 | | 109 | 534 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | | (543) | (1) | (143) | (687) |
| Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn | (28) | | | | (28) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 622 | 508 | – | 109 | 1,239 |

## Dadansoddiad o'r amseru disgwyliedig

| | Dadfeiliadau | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | Gadael y cynllun ceir | Cwmnïau Contractwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | | 508 | | 109 | 617 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 578 | | | | 578 |
| Dros bum mlynedd | 44 | | | | 44 |
| | 622 | 508 | | 109 | 1,239 |

Caiff darpariaethau eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau o'r symiau y mae eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth debygol ar y dyddiad adrodd.

Lle mae effaith gwerth amser arian yn berthnasol, mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar werth presennol y symiau hynny, wedi'u disgowntio yn ôl y gyfradd ddisgowntio cyn-treth sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth. Cydnabyddir y ffaith bod y disgownt wedi dirwyn i ben o fewn y treuliau perthnasol.

62 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM fel y nodir yn PES(2018)10, sef 0.76% ar gyfer balansau o 0-5 mlynedd ac 1.14% ar gyfer balansau o 5 i 10 mlynedd, i gyfrifo'r balans hwn.

63 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM fel y nodir yn PES(2018)10, sef 0.29%, i gyfrifo'r balans hwn.

## Dadfeiliadau

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau'n rhoi amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru eu hysgwyddo wrth wella'r eiddo a brydlesir ganddi ar ddiwedd y prydlesi.

Cronnodd y ddarpariaeth hon drwy dâl dadfeiliadau blynyddol, a gyfrifwyd drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr asedau ar brydles.

Rhoddir cyfrif am rwymedigaethau dadfeilio sy'n ymwneud â chost newidiadau adfer a wnaed i adeiladau ar brydles drwy ddarpariaeth a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn y nodwyd y gost.

## Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

Mae'r darpariaethau ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau'n cyfeirio at rwymedigaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol mewn perthynas ag aelodau o staff sydd wedi gadael o dan gynlluniau dileu swyddi, ymddeol yn gynnar a diswyddo. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth hon yn gysylltiedig â staff a fydd yn gadael Swyddfa Archwilio Cymru yn 2019 dan delerau y cytunwyd arnynt yn 2018-19.

## Cwmnïau Contractwyr

Roedd y ddarpariaeth mewn perthynas â chwmnïau contractwyr ar 1 Ebrill 2018 yn cynrychioli ad-daliad ffioedd a oedd yn ddyledus i ddau gorff archwiliedig o ganlyniad i oranfonebu mewn cyfnodau blaenorol gan Gwmni contractwr; fe wnaed yr ad-daliadau hyn yn ystod 2018-19.

Fe wnaed darpariaeth bellach yn 2018-19 i adlewyrchu anghydfod cytundebol gyda'r cwmni dan sylw.

## Nodyn 12: Prydlesi gweithredu

### Isafswm taliadau prydlesi cyfanredol– swyddfeydd gweithredol

| | 31 Mawrth 2019 | | 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **Nifer yr unedau eiddo** | **£'000** | **Nifer yr unedau eiddo** |
| O fewn blwyddyn | 465 | 3 | 443 | 3 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 1,381 | 3 | 1,735 | 3 |
| Dros bum mlynedd | 52 | 1 | 79 | 1 |
| | 1,898 | | 2,257 | |

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru dair swyddfa weithredol yng Nghaerdydd, Abertawe ac Abergele. Cynhelir adolygiadau rhent cyfnodol o'r prydlesi hyn.

Mae IFRS16 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 ond nad yw'n dod i rym tan 1 Ionawr 2019 yn ei gwneud yn ofynnol cydnabod pob prydles â chyfnod prydlesu o fwy na 12 mis fel asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol. Disgwylir i'r safon hon gael ei mabwysiadu yn y FReM o 1 Ionawr 2020; pe byddai wedi cael ei mabwysiadu ar gyfer 2018-19, byddai wedi arwain at gynnydd o £1.957 miliwn mewn asedau a rhwymedigaethau. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal asesiad o'r effaith ar wariant net ar gyfer y flwyddyn ac wedi tybio nad oes unrhyw effaith berthnasol.

### Isafswm taliadau prydlesi cyfanredol – prydlesi ceir na ellir eu canslo

| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| O fewn blwyddyn | – | 10 |
| | – | 10 |

Nid oes gan Swyddfa Archwilio Cymru brydlesi ceir na ellir eu canslo mwyach.

## Nodyn 13: Ymrwymiadau cyfalaf

Roedd ymrwymiadau cyfalaf o £8,370 mewn perthynas â gwaith adeiladu yn Heol y Gadeirlan nad oedd wedi cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. (31 Mawrth 2018: £28,000).

## Nodyn 14: Colledion a thaliadau arbennig

Yn ystod 2018-19, roedd dwy golled i'w datgelu:

- ad-daliad am TAW a godwyd mewn camgymeriad ar gorff archwiliedig: £8,804;
- taliad i gwmni contractwr am rai costau a ysgwyddwyd na fyddant yn cael eu hadfer gan gyrff archwiliedig am resymau gweithredol: £14,500.

## Nodyn 15: Deilliadau ac offerynnau ariannol

Mae IFRS 7 Datgeliadau Offerynnau Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth am bwysigrwydd offerynnau ariannol i endid, a natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol hynny, mewn termau ansoddol a meintiol. Oherwydd natur gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r swyddfa'n agored i lefel uchel o risg ariannol.

Er y gall Swyddfa Archwilio Cymru fenthyca arian at ddibenion ariannu byrdymor, ni fu'n rhaid i'r swyddfa wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Gall Swyddfa Archwilio Cymru hefyd fuddsoddi arian dros ben. Gan bod balansau arian parod yn cael eu dal yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, ni wnaed hyn yn ystod y flwyddyn.

## Risg hylifedd

O gofio natur ein busnes, mae lefel y risg a oddefir gennym mewn meysydd rheolaeth ariannol yn isel.

Yn sgîl y chwaeth hon am risg, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risgiau sylweddol o ran hylifedd.

## Risg cyfraddau llog

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risg cyfraddau llog.

## Risg arian cyfred tramor

Mae'r risg arian cyfred tramor y mae Swyddfa Archwilio Cymru'n agored iddi'n fach iawn gan mai dim ond pryniannau bach iawn o arian cyfred tramor a wna ymlaen llaw mewn perthynas â theithio dramor a chostau cysylltiedig eraill megis gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd o waith neu secondiadau tramor eu trosi pan ddônt i law. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn.

## Risg o ran credyd

Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru yw prif gleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ffioedd o dan ddeddfwriaeth yn unol â Chynllun Ffioedd cymeradwy ac felly nid yw'n agored i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

## Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2019 (31 Mawrth 2018: dim).

## Nodyn 16: Trafodion â phartïon cysylltiedig

Corff corfforaethol a sefydlwyd o dan statud yw Swyddfa Archwilio Cymru ac mae wedi cynnal trafodion perthnasol â Chronfa Gyfunol Cymru a chyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y'u datgelwyd yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Mae Isobel Everett (Cadeirydd Anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru) yn briod â Phrif Weithredwr cyngor lleol a gaiff ei archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Datgelir hyn er tryloywder, er nad yw'n bodloni'r diffiniad o drafodyn â pharti cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelod arall o'r Bwrdd nac aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwybodaeth am bersonél rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol (tudalen 73).

## Nodyn 17: TAW

Dim ond cyfran fach o TAW y gall Swyddfa Archwilio Cymru ei hadennill ar ei gwariant gros, sef y gyfran o incwm ffioedd anstatudol o'i chymharu â chyfanswm yr incwm am y flwyddyn.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Ar sail croniadau** | Cydnabyddir effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill wrth iddynt ddigwydd (ac nid wrth dderbyn neu dalu arian parod neu eitemau sy'n cyfateb i arian parod) ac fe'u cofnodir yn y cofnodion cyfrifyddu ac adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnodau y maent yn berthnasol iddynt. |
| **Amcangyfrif** | Ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, yr Amcangyfrif blynyddol o Incwm a Threuliau a gymeradwyir mewn cyfarfod llawn drwy Gynnig Cyllidebol. Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu adroddiad i ategu hyn. Cyfeirir at hyn hefyd fel y gyllideb gymeradwy. |
| **Amorteiddio** | Dosrannu cost ased sefydlog anniriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |
| **Ar sail busnes gweithredol** | Caiff datganiadau ariannol eu paratoi ar y sail hon gan dybio y bydd y sefydliad yn parhau i weithredu hyd y gellir gweld. |
| **Ased sefydlog anniriaethol** | Ased, megis hawl, na ellir ei gyffwrdd. |
| **Ased sefydlog diriaethol** | Ased sefydlog (a elwir hefyd yn ased anghyfredol) â bodolaeth ffisegol. Fe'i defnyddir er mwyn ei wahaniaethu oddi wrth Ased sefydlog anniriaethol. |
| **Asedau** | Rhywbeth y mae'r sefydliad yn berchen arno neu'n ei ddefnyddio e.e., offer neu hawliau meddalwedd. |
| **Asedau cyfredol** | Ased y disgwylir iddo gael ei drosi'n arian parod o fewn y 12 mis nesaf. |
| **Asedau sefydlog** | Ased a ddelir gan sefydliad i'w ddefnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ar sail barhaus fel rhan o weithgareddau'r endid sy'n cyflwyno'r adroddiad. Ymhlith enghreifftiau ceir offer, cerbydau, tir ac adeiladau. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y gronfa a ddefnyddir gan y Cynulliad Cenedlaethol i gadw symiau y pleidleisir arnynt gan y Senedd a gaiff wedyn eu dyrannu drwy Gynnig Cyllidebol i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| **Cydnabyddiaeth ariannol** | Y cyflog, neu iawndal arall, a ddarperir yn gyfnewid am wasanaethau cyflogai. |
| **Darpariaeth** | Atebolrwydd o ran amseru neu swm ansicr. |
| **Dibrisiant** | Dosrannu cost ased sefydlog diriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |
| **Ecwiti trethdalwyr** | Asedau net y sefydliad. |
| **Gwaith sy'n mynd rhagddo** | Gwaith a wnaed ac a gydnabuwyd fel incwm yn y cyfrifon na chyflwynwyd anfoneb amdano eto i'r cleientiaid. |
| **Gwariant cyfalaf** | Gwariant ar asedau (sefydlog) anghyfredol. |

| | |
|---|---|
| **Incwm gohiriedig** | Yn cynrychioli incwm a filiwyd ond nas cydnabuwyd eto yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. |
| **Prydlesu** | Caffael y defnydd o ased drwy gytundeb rhentu. |
| **Rhagdaliadau** | Swm a delir ymlaen llaw megis premiymau yswiriant neu flaendaliadau rhent. Caiff ei gydnabod i ddechrau fel ased, wedyn ei drosglwyddo fel traul yn ystod y cyfnod lle daw'r budd yn weithredol. |
| **Rhwymedigaeth gyfredol** | Rhwymedigaeth y disgwylir iddi gael ei setlo o fewn y 12 mis nesaf. |
| **Symiau masnach derbyniadwy** | Symiau sy'n ddyledus gan gleientiaid. |
| **Symiau masnach taladwy** | Symiau sy'n ddyledus i'w talu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. |

Mae'r diffiniadau llawn ar gael yn y Llyfryn Adrodd Ariannol (FReM).

# ATODIADAU

# ATODIAD 1 – RHAGLENNI GWAITH A GYFLAWNWYD YN 2018-19

## Gwaith archwilio lleol

Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol waith lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn 2018-19. Roedd y rhaglen yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

### Tabl sy'n rhestru'r cyrff cyhoeddus a archwiliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn dangos y mathau o waith lleol a gyflawnwyd yn y cyrff hynny

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[64] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 8 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[65] |
| Awdurdod Refeniw Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 4 o gwmnïau Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 8 Comisiynydd, Arolygiaeth a Rheoleiddiwr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 o Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[66] |
| 22 o Gynghorau (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a 4 Prif Gwnstabl | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa Bensiwn | ✓ | | |
| Nifer o gyrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cydbwyllgorau, ardaloedd draenio mewnol ac awdurdodau harbwr | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[67] | | |

64 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Mae gwaith archwilio perfformiad sydd wedi'i gynnal yn y sector hwn yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol ar hyn o bryd.

65 Dim ond ar gyfer cyrff a restrir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

66 Dim ond ar gyfer cyrff a restrir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

67 On a limited assurance basis.

## Archwiliadau ac astudiaethau gwerth-am-arian cenedlaethol

Mae’r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, paratoi adroddiadau cryno o’r canfyddiadau o waith archwilio ar draws cyrff lluosog yn y GIG, y Llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol, ac archwiliadau a gwblhawyd mewn ymateb i faterion sy’n achosi pryder i’r cyhoedd a nodwyd trwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda’r Archwilydd Cyffredinol. Mae’r allbynnau o nifer o elfennau o’r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ac, o bosibl, pwyllgorau eraill y Cynulliad. Mae’r rhaglen waith yn cadw elfen o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a risgiau newidiol.



Tudalen y pecyn 144

## Gwaith a gwblhawyd

- ✓ Darlun o ofal sylfaenol yng Nghymru
- ✓ Siaradwch fy iaith: Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus
- ✓ Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut y mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?
- ✓ Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol
- ✓ Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood
- ✓ Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Gofal Sylfaenol
- ✓ Canllaw i Gyllid Cyhoeddus Cymru
- ✓ Contractau Gwerthu Pren a ddyfarnwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (memorandwm)
- ✓ Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE
- ✓ Rheoli Gwastraff (caffael seilwaith trin gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd)
- ✓ Rheoli apwyntiadau dilynol ar gyfer cleifion allanol ar draws Cymru
- ✓ Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru
- ✓ Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig a Darparu Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol
- ✓ Rheoli gwastraff (ailgylchu trefol)
- ✓ Rheoli effaith Brexit ar y Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru
- ✓ Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i fusnesau
- ✓ Aeddfedrwydd Llywodraeth Leol o ran defnyddio data
- ✓ Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Cymuned a Thref
- ✓ Datganoli cyllidol yng Nghymru (adroddiad dilynol i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid)
- ✓ Cynghorau Tref a Chymuned; trefniadau archwilio mewnol
- ✓ Cynllun teithio rhatach ar fysiau i bobl ifanc Llywodraeth Cymru – Fy Ngherdyn Teithio
- ✓ Gwariant ar staff asiantaeth gan GIG Cymru
- ✓ Papur trafod: chwe thema i helpu i wneud craffu yn 'Addas ar gyfer y Dyfodol'
- ✓ Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'
- ✓ Adolygiad o drefniadau a gefnogodd Benderfyniad Buddsoddi Cyntaf Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- ✓ Rheoli gwastraff (atal gwastraff)

| Gwaith sy’n mynd rhagddo |
| --- |

- Mynd i’r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Gwasanaethau Cynllunio: Gwella llesiant Cymru
- Y Gronfa Gofal Integredig
- Codio clinigol yn y GIG
- Gwasanaethau Orthopedig
- Gwella llesiant pobl ifanc
- Gwella ffordd yr A465 (Darn 2)
- Asesiadau pwynt cyswllt cyntaf
- Trefniadau atal twyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru
- Adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd
- Amseroedd aros y GIG
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd lleol



## Gwaith arfer da

**Pynciau a gyflawnwyd**

**Seminarau**


- Cefnogi pobl yn eu cymunedau: Lleihau derbyniadau diangen i ysbytai
- Pobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â’r hyn sy’n bwysig iddynt
- Manteision Cydfuddiannol: Datblygu cydweithrediad rhwng Cymru a Gwlad y Basg
- Meithrin cymunedau cydnerth
- Ysbrydoli gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni annibyniaeth a llesiant trwy uchelgais digidol

**Gweminarau**

- Dewch i ni siarad am seiberddiogelwch
- Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit ‘heb gytundeb’
- A all yr Economi Gymdeithasol ein hachub?
- Pam bod defnyddio data’n effeithiol yn ein galluogi i wneud penderfyniadau gwell
- Gweithio mewn partneriaeth: dal y drych i fyny
- Caffael cynaliadwy
- Symud o allbynnau i ganlyniadau
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod: Camau bach, newid mawr

**Canllawiau a rhestrau gwirio**

- Canllawiau cryno ar reoli grantiau
- Beth yw’r oedi? Rhyddhau cleifion yng Nghymru



## Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatgelu gwybodaeth

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn 'berson rhagnodedig' ar gyfer gwneud datgeliadau chwythu'r chwiban ynghylch cynnal busnes cyhoeddus yn briodol a thwyll, gwerth am arian a llygredigaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi'r canlynol:

a nifer y datgeliadau a wnaed wrth yr Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn honno sy'n ddatgeliadau cymwys yn ei farn ef[68];

b nifer y datgeliadau cymwys y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu gweithredu arnynt;

c crhynodeb o'r mathau o gamau gweithredu y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u cymryd; a

ch crynodeb o'r ffordd y mae'r wybodaeth a ddatgelwyd wedi effeithio ar allu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau.

Caiff prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu crynhoi yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ac fe'u disgrifir yn fanylach yn ein Canllaw i ddeddfwriaeth archwilio cyhoeddus Cymru.

Yn 2018-19, fe wnaeth 23 o bobl ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru, neu eu ffonio, gan ddweud eu bod am wneud datgeliad chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, dim ond mewn 15 o achosion yr oedd gan yr Archwilydd Cyffredinol sail resymol dros gredu bod y datgeliad yn gymwys ac o fewn y materion y mae wedi'i ragnodi mewn perthynas â hwy. Y rheswm dros hyn oedd am na wnaeth unigolion roi manylion eu sefyllfa gyflogaeth, neu ei bod yn glir nad oeddent yn gyflogeion nac yn weithwyr cymwys eraill.


O'r 15 o ddatgeliadau a ymddangosai'n gymwys, mewn 11 achos adolygodd y tîm archwilio perthnasol y materion a godwyd, ond ni chanfuwyd eu bod yn gyfystyr â materion sylweddol y byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd arnynt neu gymryd unrhyw gamau eraill yn eu cylch. Yn y pedwar achos arall, ar ôl i staff archwilio eu hystyried i ddechrau, fe wnaed cryn dipyn o waith adolygu pellach neu mae yn yr arfaeth. Gallai un neu fwy o'r achosion hyn arwain at gyhoeddi adroddiad.

Yn gyffredinol, lle mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cael gwybodaeth sydd wedi bod yn berthnasol i'w swyddogaethau, mae hyn wedi helpu i lywio ei waith, ac mewn pedwar achos, mae'r wybodaeth wedi galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i nodi materion y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach.

68 Datgeliadau sy'n bodloni'r meini prawf yn adran 43B o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 ac sy'n ennyn yr amddiffyniad rhag anfantais a ddarperir gan y Ddeddf honno.


# ATODIAD 2 – SYLWEBAETH AR GYNNYDD A WNAED TUAG AT GYFLAWNI EIN BLAENORIAETHAU


| Blaenoriaeth | Sylwebaeth |
|---|---|
| Integreiddio dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein trefniadau ar gyfer rhoi ein rhaglenni gwaith archwilio ar waith.<br> | Ym mis Mai 2018, fe gyhoeddom ni Myfyrio ar flwyddyn un, ein hasesiad o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi ymateb i'r gofynion a osodir arnynt gan y Ddeddf. Roedd yr adroddiad wedi'i fwriadu'n arbennig i roi cymorth i sefydliadau yn ystod y cyfnod pontio cynnar hwn.<br>Mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fe wnaethom hefyd gynnal cynhadledd i randdeiliaid yr oedd nifer dda'n bresennol ynddi i rannu a thrafod canfyddiadau'r adroddiad.<br>Cafodd gwaith archwilio perthnasol ei integreiddio wedi hynny yn ein cynlluniau gwaith mewn perthynas â chyrff iechyd a llywodraeth leol ar gyfer 2018 a 2019, ac yn ein rhaglen astudiaethau, i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan y Ddeddf. Mae ein hadroddiadau ar y camau y mae cyrff unigol yn eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant ar gael trwy'r adran cyhoeddiadau ar ein gwefan. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad cenedlaethol a fydd yn crynhoi canfyddiadau allweddol y gwaith hwn yn 2020. |
| Archwilio darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus integredig yng Nghymru o safbwynt pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.<br> | Rydym yn gosod pwyslais ar bwysigrwydd deall safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau wrth ystyried effeithiolrwydd trefniadau darparu gwasanaethau.<br>Yn ystod y cyfnod adrodd fe wnaethom gwblhau adolygiad o wasanaethau Llywodraeth Leol i gymunedau gwledig, a oedd yn cynnwys cynnal arolygon dros y ffôn ac wyneb yn wyneb gyda thros 1,500 o bobl sy'n byw yng Nghymru wledig.<br>Hefyd, fel rhan o'n Hastudiaeth Gasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar hyn o bryd fe wnaethom gyfweld â gofalwyr i ddeall lefel y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael a pha mor dda y mae eu hanghenion yn cael sylw.<br>Roedd ein hadolygiad o Wasanaethau Cynllunio yn cynnwys arolwg cyhoeddus hefyd (a lansiwyd gennym yn Sioe Frenhinol Cymru) i gasglu barn ynglŷn â pha mor dda y mae awdurdodau cynllunio lleol yn cefnogi llesiant hirdymor eu cymunedau.<br>Ym mis Gorffennaf 2018, fe gyhoeddom ni grynodeb o ganfyddiadau ein harchwiliadau lleol o Wasanaethau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau. Roedd ein gwaith yn cynnwys arolwg o gleifion a oedd wedi cysylltu â gwasanaethau y tu allan i oriau yn ddiweddar. Er mwyn deall yn well sut deimlad yw bod yn glaf sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, fe gynhaliodd y tîm ymarfer 'siopwr cudd' hefyd i asesu effeithiolrwydd gwybodaeth am linellau ffôn a gwefannau meddygon teulu. Roedd canfyddiadau'r arolwg cleifion a'r ymarfer siopwr cudd o gymorth i lunio ein hargymhellion ar y lefelau lleol a chenedlaethol. |

| Blaenoriaeth | Sylwebaeth |
|---|---|
| ryfhau'r graddau y mae pwyllgorau'r Cynulliad yn ymgysylltu â'n gwaith a chanfod ffyrdd o wella ein gwaith i gefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol.<br> | Yn ogystal â'n gwaith ymgysylltu helaeth arferol â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, fe wnaethom friffio pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol ar ystod eang o faterion penodol yn ystod 2018-19, gan gynnwys:<br>ein hadroddiad ym mis Mehefin 2018 ar gymorth Llywodraeth Cymru i Pinewood, a ddefnyddiwyd gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad i gefnogi ei ymchwiliad i gynyrchiadau teledu a ffilm yng Nghymru. Fe wnaeth ein tîm astudio friffio aelodau'r Pwyllgor ar ein canfyddiadau, ac yna fe wnaeth gefnogi dwy sesiwn tystiolaeth lafar gyda Gweinidogion Cymru.<br>• cafodd ein hadroddiad diweddaraf ar ddatganoli cyllidol yng Nghymru, ei ystyried gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.<br>• cafodd ein hadroddiad ym mis Chwefror 2019 ar baratoadau ar gyfer Brexit 'heb gytundeb', ei ddefnyddio gan Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad i ategu ei waith craffu parhaus ar baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit.<br>Ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaethom hefyd gyhoeddi 'Canllaw i Gyllid Cyhoeddus Cymru', i roi cymorth i'r rhai sy'n rhan o graffu ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys Aelodau Cynulliad a gwleidyddion etholedig llywodraeth leol. |
| Gwella effaith gyfunol archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau allanol yng Nghymru drwy rannu cuddwybodaeth ac adnoddau yn well.<br> | Yn ystod 2018-19, rydym wedi parhau i gwrdd â'n partneriaid yn Arolygu Cymru i rannu gwybodaeth a chuddwybodaeth, adnabod themâu cyffredin ar draws ein priod raglenni gwaith ac osgoi dyblygu ein gwaith.<br>Fel rhan o ymarfer peilot, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno ein canfyddiadau ar risg a sicrwydd ar y cyd mewn dau gyngor. Cafodd y dull mwy cydgysylltiedig hwn adborth cadarnhaol gan y cynghorau dan sylw, ac mae Bwrdd Rhaglen Arolygu Cymru wedi cytuno i gyflwyno gweithdai risg a sicrwydd o'r fath i bob cyngor, a hynny o wanwyn 2020.<br>Mewn partneriaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru, fe wnaethom hefyd redeg dau ddigwyddiad cydweithredol ym mis Mawrth 2019 a oedd yn amlygu'r heriau allweddol sy'n wynebu pobl ifanc yng Nghymru heddiw. Roedd y digwyddiadau'n canolbwyntio ar sut orau y gallwn gynnwys pobl ifanc yn y broses o ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a rhoddodd y cyfle i bobl ifanc rannu eu profiadau'n uniongyrchol gyda phenderfynwyr, darparwyr gwasanaethau, arolygwyr ac archwilwyr. |

Tudalen y pecyn 149

| Blaenoriaeth | Sylwebaeth |
|---|---|
| Ymgysylltu ag asiantaethau archwilio eraill yn y DU ac yn rhyngwladol er mwyn rhannu a goleuo arfer gorau a chuddwybodaeth.<br> | Fel aelod o Fforwm Archwilio Cyhoeddus y DU, mae'r Archwilydd Cyffredinol ac aelodau o'n staff yn ymgysylltu'n rheolaidd â'n cymheiriaid yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon (NIAO). Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom rannu a chyfnewid gwybodaeth am ystod eang o bynciau sydd o ddiddordeb i bawb, gan gynnwys mewn perthynas â Brexit, datganoli cyllidol a llywodraethu gwybodaeth.<br><br>Un maes y canolbwyntiwyd yn arbennig arno fel rhan o'n gwaith ar y cyd eleni oedd defnyddio dadansoddeg data mewn gwaith archwilio. Ym mis Tachwedd 2018, gan weithio ar y cyd gydag Audit Scotland a NIAO, fe lansiom ni Her GovTech sy'n werth £1.25 miliwn i gwmnïau preifat gystadlu i greu meddalwedd dadansoddeg data pwrpasol.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom barhau i feithrin a chynnal cysylltiadau â swyddfeydd archwilio tramor, gan gynnwys trwy ein aelodaeth o EURORAI, ac ym mis Medi 2018 fe estynnom ni groeso i Archwilydd Cyffredinol Malta a ddaeth ar ymweliad astudio. Ym mis Tachwedd 2018, fe gymerom ni ran hefyd yn Seminar Ymchwiliadau cyntaf erioed EUROSAI, a gynhaliwyd gan NAO ac yr oedd cynrychiolwyr o 15 o swyddfeydd archwilio ledled Ewrop yn bresennol ynddi. Cafodd ein cyflwyniad ar ein gwaith astudiaethau ymchwiliadol dderbyniad da iawn ac roedd yn ddiddorol nodi, yn dilyn eu hymweliad astudio â Swyddfa Archwilio Cymru yn 2017, bod Llys Archwilio'r Iseldiroedd wedi sefydlu eu tîm archwilio astudiaethau ymchwiliadol ers hynny. |
| Gwella darllenadwyedd a hygyrchedd ein cynnyrch archwilio er mwyn cynyddu eu cyrhaeddiad a'u heffaith hyd yr eithaf.<br> | Yn gynnar yn 2018, fe sefydlom ni brosiect tasg a gorffen mewnol i archwilio ffyrdd y gallem drawsnewid y ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn cynyddu ymgysylltiad â'n gwaith. Ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaeth grŵp y prosiect ystod o argymhellion i reolwyr, gan gynnwys gwella darllenadwyedd ein hadroddiadau, a chael gwell dealltwriaeth am wahanol anghenion ein cynulleidfaoedd.<br><br>Ers hynny, rydym wedi bod yn archwilio'r ffyrdd gorau o roi'r argymhellion hyn ar waith. Dau newid pwysig yr ydym wedi'u gwneud yw sicrhau bod ymgysylltu cynharach yn digwydd rhwng ein tîm cyfathrebu a'r tîm archwilio ar bob prosiect archwilio, a rhoi mwy o ddibyniaeth ar adborth gan y gynulleidfa yn ein gwaith parhaus i ddatblygu'r wefan.<br><br>Trwy gydol y flwyddyn, mae ein Tîm Arfer Da wedi parhau i wneud mwy o ddefnydd o weminarau a phodlediadau i gynyddu cyrhaeddiad eu gwaith i'r eithaf, gan gynnwys cyfres ar newid ymddygiad. |

| Blaenoriaeth | Sylwebaeth |
|---|---|
| Defnyddio egin-dechnoleg i wella'r modd yr ydym yn canfod, yn caffael ac yn dadansoddi data, a'r modd yr ydym yn cyflwyno ac yn darlunio ein canfyddiadau.  | Fe wnaethom sicrhau cyllid ychwanegol trwy ein Hamcangyfrif ar gyfer 2018-19 i ganlyn arni â phrosiectau dadansoddeg data ar draws meysydd busnes amrywiol. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi ein galluogi i fod yn fwy arloesol o ran y ffordd yr ydym yn canfod, yn caffael ac yn dadansoddi data a sut yr ydym yn cyflwyno ac yn darlunio ein canfyddiadau<br><br>Ym mis Ionawr 2019, am y tro cyntaf fe gyhoeddom ni offeryn data rhyngweithiol ar-lein i gyd-fynd â'n hadroddiad ar wariant ar Staff Asiantaeth gan GIG Cymru. Mae'r offeryn yn galluogi defnyddwyr i ddwyn cymariaethau graffigol rhwng gwariant ar staff asiantaeth gan wahanol fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG ers 2010. Hefyd, fel rhan o'n gwaith i ystyried paratoadau ar gyfer Brexit, fe wnaethom greu offeryn i dimau archwilio sy'n cronni data'n awtomatig ar gyfer gwaith parhaus, gan ei gwneud yn haws iddynt reoli a darlunio eu tystiolaeth.<br><br>Yn ddiweddar rydym wedi sefydlu strategaeth ddigidol fwy hirdymor ar gyfer y sefydliad sy'n nodi gweledigaeth uchelgeisiol o ran sut rydym yn dymuno manteisio ar dechnoleg yn y dyfodol. Rydym yn canlyn arni â datrysiadau technolegol i gryfhau ein seilwaith, sicrhau diogelwch a'i gwneud yn haws i ni ddefnyddio offer dadansoddi data ar draws ein meysydd busnes. |
| Mabwysiadu dulliau gweithio newydd er mwyn darparu gwasanaeth archwilio effeithlon sy'n addas i'r dyfodol wrth i'n hamgylchedd gweithredu newid.  | Rydym yn parhau i archwilio ffyrdd newydd a mwy arloesol o gyflawni a chyflwyno canfyddiadau ein gwaith archwilio. Mae hyn wedi cynnwys treialu'r dull y byddwn yn ei ddefnyddio i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a gwneud mwy o ddefnydd o 'adrodd ar ffeithiau yn unig' megis yn ein adroddiad ar berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom hefyd lansio prosiect tasg a gorffen sy'n ceisio herio rhai o'n ffyrdd mwy traddodiadol o weithio. Mae meysydd ymchwilio'n cynnwys taro'r cydbwysedd cywir rhwng anghenion gweithio hyblyg staff unigol a gofynion y busnes ar y cyfan; ystyried a yw ein hadeiladau presennol wedi'u cyflunio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac archwilio'r math o swyddfeydd y mae'n debygol y bydd arnom eu hangen yn y dyfodol. Bydd adroddiad ar y prosiect hwn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn haf 2019. |

| Blaenoriaeth | Sylwebaeth |
|---|---|
| Cyflwyno strategaeth pobl sy'n ymateb i ganlyniadau ein harolwg staff, yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ac yn galluogi ein staff i ragori yn eu gwaith.  | Fe lansiom ni ein Strategaeth Pobl ym mis Ebrill 2018, a honno'n nodi ein pedair blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 2018 a 2021 i helpu i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn lle gwych i weithio.<br>Cafodd y blaenoriaethau yn y Strategaeth eu llywio gan y meysydd i'w gwella a amlygwyd yn ein harolwg staff yn 2017 (fel a adroddwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2017-18) a'r dadansoddiad o wybodaeth cyflogaeth a gyhoeddwyd yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb 2017-18.<br>Mae nifer o'r prosiectau sy'n tanategu ein Strategaeth Pobl yn cyd-fynd â'r amcanion cydraddoldeb a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd a byddant yn ein cynorthwyo i'w cyflawni.<br>Yn ystod y cyfnod adrodd rydym wedi dechrau a chyflawni gwaith ar nifer o brosiectau a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r Strategaeth ar y cyfan. Mae cynnwys y Strategaeth Pobl a'r cynllun cyflawni cysylltiedig yn cael eu hadolygu a'u mireinio ymhellach ar hyn o bryd, yn enwedig i ystyried canlyniadau ein harolwg staff yn 2018 a chanfyddiadau adolygiad archwilio mewnol o'n strategaeth ar gyfer y gweithlu. |
| Gwella'r modd yr ydym yn rheoli gwybodaeth a data, gan gynnwys ymateb yn effeithiol i'r broses o gyflwyno'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.  | Erbyn mis Mai 2018, roeddem wedi cwblhau ein rhaglen i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Roedd hyn yn cynnwys datblygu canllawiau i staff, darparu hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer yr holl staff, a chyhoeddi Nodyn Preifatrwydd ar ein gwefan sy'n nodi beth ddylid ei ddisgwyl pan fo Swyddfa Archwilio Cymru yn casglu gwybodaeth bersonol ac yn egluro sut y byddwn yn diogelu preifatrwydd unigolion.<br>Ym mis Mai 2018 fe wnaethom hefyd ysgrifennu at yr holl gyrff archwiliedig ynglŷn â phrosesu teg a throsglwyddo gwybodaeth yn ddiogel. Yn y llythyr fe wnaethom nodi nad yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn effeithio ar hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol ac fe ofynnom ni i'r cyrff hynny sicrhau bod hysbysiadau prosesu teg a gyflwynir ganddynt i gyflogeion, contractwyr a defnyddwyr gwasanaethau'n cynnwys cyfeiriad at gasglu a rhannu data gyda'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â'i waith archwilio.<br>Fe wnaeth adolygiad archwilio mewnol a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2018 ddarparu sicrwydd sylweddol ynghylch y trefniadau yr oeddem wedi'u sefydlu, ac rydym yn parhau i wneud gwaith pellach i leihau swm yr wybodaeth yr ydym yn ei dal yn ddiangen ac i sicrhau bod gwybodaeth yr ydym yn ei dal yn cael ei dogfennu'n llawn. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500


Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru



# WALES AUDIT OFFICE

## Final Audit Findings Report

Year ended 31 March 2019

Presented to the Audit and Risk Committee
By RSM UK Audit LLP

On 4 June 2019

And issued as final on 5 June 2019



THE POWER OF BEING UNDERSTOOD
AUDIT | TAX | CONSULTING

RSM

# CONTENTS

1 Introduction and coverage ..... 2
2 Audit and accounting issues identified at planning stage ..... 3
3 Audit and accounting issues identified during the audit ..... 8
4 Regularity issues identified during the audit ..... 9
5 Unadjusted/adjusted misstatements ..... 10
6 Significant deficiencies in internal control ..... 11
7 Significant findings from the audit ..... 13
8 Uncertainties, risks, exposures, judgemental issues and going concern ..... 14
9 Fees ..... 15
10 Independence ..... 15
Appendix A - Draft letter of representation ..... 16
Appendix B - Updated financial reporting developments ..... 20

This report has been prepared for the sole use of Wales Audit Office and must not be disclosed to any third party, or quoted or referred to, without our written consent. No responsibility is assumed to any other person in respect of this report.

# 1 INTRODUCTION AND COVERAGE

This report summarises our key findings in connection with the audit of the financial statements of Wales Audit Office in respect of the year ended 31 March 2019.

The scope of our work has already been communicated to you via our Audit Plan document dated 27 February 2019.

A summary of adjusted and unadjusted misstatements identified during the audits has been prepared and is included in Section 5.

We consider that the audit approach adopted will provide the Directors with the required confidence that a thorough and robust audit has been carried out and can confirm that, at the date of this report, we anticipate no modifications from our pro-forma audit report provided in the Audit Plan previously communicated to you.

# 2 AUDIT AND ACCOUNTING ISSUES IDENTIFIED AT PLANNING STAGE

| Management over ride of internal controls | |
|---|---|
| **Area of audit focus** | Systems of internal control are designed to mitigate inherent risks of error within the core control systems to an acceptable level. By nature, a management override or by-pass of controls cannot be eliminated by the implementation of controls and therefore as part of our audit we will perform additional tests of detail to address this risk. |
| **Our approach** | We will test the appropriateness of a sample of journal entries recorded in the general ledger and other adjustments made in the preparation of financial statements, tracing selected entries back to source documentation.<br>We will review significant accounting estimates and policies which could involve bias resulting in a material misstatement.<br>We will discuss the basis and business rationale for any significant non-routine or contentious transactions which come to our attention during the course of our audit and will fully report the outcomes of our testing in our audit findings report. |
| **Response** | The testing was completed as planned with no significant issues identified to report to management.<br>We have tested a sample of the journal entries posted during the year, and this did not highlight any erroneous entries, or items indicative of undue management bias.<br>We have reviewed the significant estimates adopted in the preparation of the financial statements, and we have not identified any areas where there appears to be indication of management bias. Our review of the estimates made in respect of the dilapidations provision and the bad debt provision indicated that these appear to have been derived on an appropriate and consistent basis. We have commented later in this report on the judgements made in assessing the stage of completion of the organisation’s long-term contracts. |

## Brexit financial reporting considerations

| | |
|---|---|
| **Area of audit focus** | The longer-term effects of the UK's potential exit from the European Union remain unclear.<br>Businesses face a period of political and economic uncertainty which may expose them to new opportunities and/or risks, or change the scale and likelihood of existing ones, that affect their business model and strategies.<br>Identifying the significant effects, or possible significant effects, of Brexit and assessing their impact may prove challenging in the current political and economic environment. However, we expect management to provide us with their analysis of the potential Brexit effects they have identified, together with supporting evidence in relation to key assumptions and related disclosures. |
| **Our approach** | As part of our audit we will consider management's analysis of the potential Brexit effects on the entity's operations and strategies (eg specific audits, staff costs, and reputational focus), and the forward-looking assumptions<br>used by management in their assessment relating to future activity and decision making.<br>We shall consider the appropriateness of the disclosures in the Annual Report in respect of Brexit related principal risks and uncertainties and future plans.<br>We may seek written representations from management about their plans for mitigating potentially adverse effects of Brexit. |
| **Response** | Our review of the Annual Report indicates there appears to be appropriate disclosure of the risks associated with the UK's potential departure from the European Union.<br>As the nature and timing of any potential departure remains unclear, this is an area which the management and board need to keep under regular review. |

## Income recognition, WIP and deferred income

| | |
|---|---|
| **Area of audit focus** | The recognition of income, WIP and deferred income is considered to be a significant risk due to the level of judgement applied to the stage of completion of an audit assignment and any provisions required. |
| **Our approach** | We will select a sample of projects that have commenced throughout the year and test the revenue recognised with reference to the stage of completion of the assignment in order to determine that the revenue recognition is appropriate and consequently whether the WIP and deferred income are appropriately stated.<br>We will review correspondence with audit managers to establish the estimated costs to complete and any required provisions at the year end, considering the impact of any time spent after the year end on these estimations.<br>We will also review time postings after the year end for any time posted by employees relating to work done before the year end that may not have been factored into the above calculations. |
| **Response** | Our work indicated that the organisation has appropriate systems for assessing the stage of completion of its ongoing contracts, and hence for determining the amount of revenue that should be reported at the year end.<br>Our review of the actual outturn on prior year contracts indicated that the estimates made at the prior year end proved accurate.<br>However, our work did identify the following matters:-<br>a) On one contract, an additional fee of £74k had been agreed to compensate the WAO for the extra time incurred on the completion of the contract. As the finance team had not been notified of this additional fee, no allowance had been made in the reported revenues for the year.<br>b) We noted that there had not been full provision made for the full extent of anticipated losses on contracts where these are foreseen. An additional £87.5k provision is required to be made for such contracts.<br>c) At the year end, there were certain contracts which were closed, and where refunds were due. There are credit balances of £112k on such contracts which should be reclassified as creditors, rather than being held in deferred income.<br>d) The draft accounts made no adjustment for the work in progress relating to work undertaken by third party firms<br>It has been agreed that adjustment will be made for the matters in a) to d) above and these have been reported in Section 5 and adjusted in the final accounts. |

## Reputation

| | |
|---|---|
| **Area of audit focus** | Due to public interest in the financial statements there is a desire to maintain reputation and demonstrate exemplary financial management. Accounting judgements may be influenced by the desire to demonstrate good financial management and remain within the Estimate. |
| **Our approach** | Independent technical review of the accounts and key judgement areas. Review of judgemental aspects in year-end balances particularly focusing on any;<br>• Round sum provisions<br>• Estimates<br>• Recoverability of debtors<br>• Disclosure of remuneration |
| **Response** | During the course of the audit, we have not identified any areas from the WAO's operations that suggests there are any matters whereby the reputation could appear to be significantly damaged.<br>As discussed previously, our review of judgemental areas has not noted any areas of inappropriate activity, or areas where the Office has been acting inappropriately.<br>We are satisfied that there appears to be appropriate disclosure of the remuneration of directors and senior management.<br>We noted two data breaches in the year, one of which resulted in a report to the ICO, and which appears to have been fully followed up.<br>The second matter related to the theft of a business lap top, a personal lap top and various papers from a vehicle. This matter appears to have been subject to appropriate internal review by management and the legal team, which concluded that it was not a data breach that needed to be reported to the board or the ICO.<br>We have included a recommendation in Section 6 in relation to this event and shall also be seeking a representation in respect of this matter. |

## New accounting system

| | |
|---|---|
| **Area of audit focus** | During the year, we are aware that a new accounting system has been implemented.<br>There is an inherent risk that the transition to a new system could result in incomplete or inaccurate data being held on the new finance system. |
| **Our approach** | We will review the process controls implemented by the WAO for the change in accounting system and the method for data transfer.<br>We will also review the closing and opening trial balances on each of the systems and undertake tests on a sample basis, that balance sheet codes have been properly transferred.<br>We will also consult with an internal IT specialist on the proposed approach, to ensure that we undertake appropriate procedures in response the change in the WAO's accounting systems. |

| New accounting system | |
|---|---|
| **Response** | Our review indicated that there were appropriate processes and controls over the implementation of the new accounting system.<br>We undertook detailed targeted testing which helped confirm that the transition of the data from the old accounting system had been properly undertaken. |

# 3 AUDIT AND ACCOUNTING ISSUES IDENTIFIED DURING THE AUDIT

## Ongoing claim

| | |
|---|---|
| **Issue** | Our work identified the existence of an ongoing claim, where the final outcome remains uncertain.<br>Based on legal advice, management consider it more likely than not that the organisation will incur a financial loss as a result of this matter. |
| **Resolution** | Management have proposed a late adjustment to include an accrual for £50,000, being the estimated costs of resolving this matter.<br>Given the uncertainty as to how this matter will be resolved, it is difficult to accurately quantify the loss than the organisation may incur in respect of the matter.<br>However, based on available evidence, the estimate made does not appear unreasonable, but we shall be seeking a specific representation in respect of this matter. |

## Ongoing dispute with contractor firm

| | |
|---|---|
| **Issue** | We are aware that one of the contractor firms used by the WAO continues to dispute the fee structure for the work it undertakes.<br>Therefore, management have made a provision of £89,000 in respect of additional amounts which will become payable should this firm succeed in claiming the additional amounts it believes are due to it.<br>Also, there continues to be issues with some of the work undertaken by this firm, and management have identified the risk that additional costs may need to be incurred to finalise the work they have undertaken in previous years. |
| **Resolution** | We agree that is appropriate to include the £89,000 provision for amounts which may become payable to this firm, representing the excess of the amount already included in accruals, and the maximum potential exposure.<br>Management have included an adjustment to provide for £20,000 of additional costs which may be necessary to finalise the prior year work. We are satisfied that it appears appropriate to make such further provision, and that this estimate appears reasonable in light of the costs incurred to carry out the work in prior years. |

# 4 REGULARITY ISSUES IDENTIFIED DURING THE AUDIT

| Whistleblowing | |
|---|---|
| **Issue** | Our work indicated that there had been appropriate response and follow up to any whistleblowing incidents reported in the year, and there appears to be appropriate procedures for staff to raise any issues of concern.<br>However, we did note that the whistleblowing policy dates from June 2017 and is therefore potentially in need of review and update in light of recent incidents. |
| **Recommendation** | Management should consider reviewing and updating their policy at the earliest opportunity. |
| **Management comment** | The Law & Ethics Team is now reviewing the internal whistleblowing policy in the light of recent experience and will present proposals to the board for updating the policy by September 2019. |

# 5 UNADJUSTED/ADJUSTED MISSTATEMENTS

A summary of the unadjusted/adjusted errors identified during the course of our work is set out below, analysed between errors of fact and differences in judgement.

We have not disclosed below those items that we consider to be "clearly trivial" in the context of our audit. For this purpose, we consider "clearly trivial" to be any matter less than £5,000 individually and £10,000 in aggregate.

We advised management of all these misstatements on 17 May 2019 and requested management to correct them.

| | Profit (£'000) | Net assets (£'000) | |
|---|---|---|---|
| **Adjusted misstatements** | **Dr/(Cr)** | **Dr/(Cr)** | |
| Turnover<br>Work in progress | 87<br>- | -<br>(87) | To recognise the full provision for loss anticipated at the year end |
| Deferred income<br>Other creditors | -<br>- | 111<br>(111) | To reclassify refunds due on closed contracts |
| Turnover<br>Work in progress | (75) | -<br>75 | To recognise additional income agreed on Agri Funds contract |
| Accruals<br>Deferred income<br>Work in progress<br>Prepayments<br>Turnover | -<br>-<br>-<br>-<br>40 | (241)<br>(29)<br>143<br>87<br>- | To adjust for the treatment of work in progress in respect of third-party firms |
| Prepayments<br>Accruals | -<br>- | 177<br>(177) | To amend treatment of invoices dated 31 March 2019 |
| Direct costs<br>Provisions | 20 | -<br>(20) | To make additional provision for amounts complete certain contracts |
| Employee termination costs<br>Accruals | 50<br>- | -<br>(50) | To provide for estimated loss in respect of ongoing claim |
| **Total** | **122** | **(122)** | |
| **Unadjusted misstatements Factual** | **Dr/(Cr)** | **Dr/(Cr)** | |
| **Underlying total** | **-** | **-** | |
| **Unadjusted misstatements Judgemental** | **Dr/(Cr)** | **Dr/(Cr)** | |
| **Underlying total** | **-** | **-** | |

# 6 SIGNIFICANT DEFICIENCIES IN INTERNAL CONTROL

We have set out below deficiencies in internal control which came to our attention during the course of our audit work. This does not constitute a comprehensive statement of all deficiencies that may exist in internal controls or of all improvements which may be made and has addressed only those matters which have come to our attention as a result of the audit procedures performed. An audit is not designed to identify all matters that may be relevant to you and accordingly the audit does not ordinarily identify all such matters.

| Notification of fee changes | |
|---|---|
| **Fact and potential consequence** | Our review of a sample of contracts identified one incidence where the finance team had not been notified of an agreed fee increase on a specific contract.<br>This resulted in an understatement of revenues being reported in respect of this contract. |
| **Possible action** | There should be improved processes to help ensure that the finance department is promptly notified of changes the agreed value of contracts. |
| **Management response** | The finance team rely on fee information held within the audit management system which had not been updated by audit colleagues due to the timing of information being received.  We will strengthen this process to ensure that any significant variances between time charges and fees are followed up immediately to ensure that this scenario cannot recur. |
| **Timing of implementation and responsibility** | Immediate, responsibility Head of Finance. |

| Information held on personal lap tops | |
|---|---|
| **Fact and potential consequence** | The theft of lap tops and papers discussed previously was as least in part contrary to the organisation’s information security policy, though we note that there is scope for clarification of that policy. Such situations risk personal or confidential data becoming compromised. |
| **Possible action** | All staff and board members should be reminded of the organisation’s policy, which should be clarified in respect of the use of personal lap tops, and there should be consideration to gaining a positive statement that all individuals are fully aware of the policy in this regard. |
| **Management response** | We will review our policies in light of the theft so as to ensure expectations are clear and consistently applied for staff and Board members in terms of use of WAO information on personal devices. We will advise staff and board members of any changes and remind them of the requirement to comply with the policies through our annual declarations process. |
| **Timing of implementation and responsibility** | Our IT and legal teams will amend our policies for approval by the board by 26 September 2019. |

## Register of interests

| | |
|---|---|
| **Fact and potential consequence** | It is a requirement that all board members and members of the management committee complete annual declarations of outside interests that are publicly available of the WAO's website.<br>Our work indicated that whilst updated declarations appear to have been obtained, these were not yet available on the website. |
| **Possible action** | Every effort should be made to obtain and publish the latest available declarations for all relevant individuals. |
| **Management response** | We obtained up-to-date declarations (in March 2019) for all relevant individuals, and we are now arranging for those to be posted on the website. |
| **Timing of implementation and responsibility** | The Board Secretary has collated declarations for Board members with a view to publishing them online on receipt of Welsh translation.<br><br>Our Law & Ethics Team is collating declarations for all other relevant individuals with a view to ensuring publication in June 2019. |

# 7 SIGNIFICANT FINDINGS FROM THE AUDIT

## Accounting practices, including accounting policies

We have reviewed the accounting policies adopted by the WAO, and found that these are consistent with those adopted in previous years, remain appropriate and have been generally fully disclosed.

## Accounting estimates

As part of our audit, we review the significant accounting estimates contained within the financial statements of the WAO. We note the following:

**Costs to complete/work in progress**

Our work indicates that the historical estimates of costs to complete are materially accurate, and that estimates made by the Resource Managers are an appropriate basis to determine percentage completion

**Dilapidations provision**

These continue to be derived using latest available third party surveyor reports, and there is no evidence that these are not an appropriate source of evidence to derive such provisions. The results of a surveyor's report produced in the year for the Cardiff office has not identified any significant issues that would necessitate a material increase in the value of the reported provision.

**Other provisions**

Subject to comments made previously, this appears to be derived on an appropriate basis.

## Financial statement disclosures

During the course of our audit, we reviewed the adequacy of the disclosures contained within the financial statements and their compliance with both relevant accounting standards and the requirements of the Companies Act 2006. The following disclosure matters were brought to your attention and subsequently reflected in the revised financial statements:

- expansion of the revenue recognition policy on adoption of IFRS 15

There were no matters of significance that were brought to your attention which have not been reflected in the revised financial statements.

## Significant difficulties encountered during the audit

No significant difficulties were encountered during the course of our audit and we would like to take this opportunity thank the finance team for their assistance during the audit.

# 8 UNCERTAINTIES, RISKS, EXPOSURES, JUDGEMENTAL ISSUES AND GOING CONCERN

There are no further matters that we wish to bring to the attention of the committee.

## Going concern

Given the ongoing funding received from the National Assembly for Wales, we are satisfied that we can agree with the Directors that there are appropriate grounds for concluding that the WAO remains a going concern.

# 9 FEES

We confirm that the fees charged during the year in respect of services performed for Wales Audit Office are consistent with those contained within our Audit Plan submitted to you and dated 27 February 2019.

# 10 INDEPENDENCE

In accordance with International Standard on Auditing (UK) 260 "Communication with those charged with governance", there are no changes to the details of relationships between RSM UK Audit LLP and its related entities and Wales Audit Office and its related entities and directors that may reasonably be thought to bear on RSM UK Audit LLP's independence and the objectivity of the audit principal, Jonathan Da Costa and the audit staff and the related safeguards from those disclosed in the Audit Plan dated 27 February 2019.

# APPENDIX A - DRAFT LETTER OF REPRESENTATION

RSM UK Audit LLP
Third Floor
One London Square
Cross Lanes
Guildford
Surrey
GU1 1UN

Dear Sirs

**Audit of Financial Statements – Year ended 31 March 2019**

We confirm to the best of my knowledge and belief and having made appropriate enquiries of other senior executives of the Wales Audit Office, the following representations given to you in connection with your audit of the financial statements for the period ended 31 March 2019.

The following representations reflect circumstances up to the date of this letter, on which the financial statements were approved, and management's knowledge and intentions regarding the future of the Wales Audit Office.

**Responsibility for financial statements**

We acknowledge our responsibilities under the Public Audit (Wales) Act 2013 and Treasury Directions made in accordance with that Act for maintaining adequate accounting records and for preparing financial statements in accordance with the applicable accounting framework that give a true and fair view and for making accurate representations to you.

We confirm that we have taken all the steps we ought to have taken in order to make ourselves aware of any relevant audit information and to establish that it has been communicated to the auditors. We confirm that, as far as we are aware, there is no relevant audit information of which the auditors were unaware.

**Availability of information**

All the accounting records have been made available to you for the purpose of your audit and all transactions undertaken by the Wales Audit Office have been properly reflected and recorded in the accounting records. All other records and related information have been made available to you, including the minutes of all committee meetings, which are a complete and authentic record of the proceedings at those meetings. I have disclosed to you the results of our assessment of the risk that the financial statements may be materially misstated as a result of fraud

**Related party transactions**

We have disclosed to you the identity of the related parties and all related party relationships and transactions of which I am aware. There were no transactions with the WCF and with the audited bodies other than those in the ordinary course of business (fees) requiring disclosure in the financial statements. There were no other transactions with related parties requiring disclosure during the year.

**Use of funds and regularity**

- We acknowledge our responsibility, as specified by the Public Accounts Committee of the National Assembly under the Public Audit (Wales) Act 2013, for ensuring that expenditure disbursed and income received is applied for the purposes intended by Parliament and the National Assembly for Wales and that the financial transactions conform to the authorities which govern them.
- To the best of our knowledge and belief we confirm that, in all material respects, the expenditure disbursed and income received during the year ended 31 March 2019 have been applied to purposes intended by Parliament and the National Assembly for Wales and the financial transactions conform to the authorities which govern them.
- Neither the board nor the senior management team have knowingly authorised a course of action, the financial impact of which was that transactions infringe the requirements of regularity.
- All transactions undertaken by the Wales Audit Office have been properly reflected and recorded in the accounting records.
- There were no events of which we are aware which involve suspected non-compliance with the framework of authorities which govern the running of the Office.

**Assets**

1. ***General***

All assets included in the Statement of Financial Position belong to the Wales Audit Office and except as disclosed in the accounts were free from any charge. All non-current assets belonging to the Wales Audit Office are included.

2. ***Impairment of non-current assets***

Each non-current asset is worth to the Wales Audit Office at least the amount at which it is included in the Statement of Financial Position, either through continued use by the Wales Audit Office or through the opportunity for sale on the open market.

**Liabilities**

1. ***General***

All known liabilities of the Wales Audit Office at 31 March 2019 have been included in the balance sheet. All secured liabilities are disclosed.

2. ***Contingent liabilities***

There were no contingent liabilities at the balance sheet date. All guarantees or warranties or other financial commitments have been fully disclosed in the financial statements. There were no known actual or possible litigation and claims whose effect should be considered when preparing the financial statements.

We confirm we have disclosed to you all banking and financing arrangements including related contracts and hedging products. We confirm that no tax avoidance schemes were used by the Wales Audit Office.

**Accounting estimates**

We confirm that all significant assumptions used in making accounting estimates, including where applicable those measured at fair value, are reasonable in the circumstances, and appropriately reflect our intentions and our ability to carry out the specific courses of action necessary to justify the accounting estimates and disclosures. The disclosures in the financial statements relating to accounting estimates are complete and appropriate.

We have no plans or intentions that may materially alter the carrying value or classification of assets and liabilities reflected in the financial statements.

We further confirm to you that the estimated value of the dilapidations provisions are, to the best of our knowledge, an accurate assessment of the expected value to return the three properties back to their original state. We hereby confirm to you that the value of the dilapidations provisions in total is £622,000.

We confirm directly to you that the estimated amount which may become payable to a third party supplier for work performed to 31 March 2019 is £89,000. Furthermore, we consider that it is appropriate to make a further provision of £20,000 to reflect additional costs that will be incurred in finalising certain work undertaken by this supplier in prior years.

We are aware of an ongoing claim, where the resolution is uncertain. Given the uncertainties that have been identified, we consider it appropriate to include an accrual for £50,000 to reflect the estimated cost of resolving this claim.

**Commitments**

All commitments of the Wales Audit Office of a material amount, whether of a capital or revenue nature, have either been provided for or noted in the financial statements as appropriate. An adequate provision has been made for any losses, which may be expected to result there from, or from events which had occurred before 31 March 2019.

**Remuneration report**

All amounts paid to members of the Wales Audit Office Management committee have been appropriately included in the Remuneration Report.

All items of personal expenditure paid by the Wales Audit Office on the Management committee's behalf have either been reimbursed by the individuals concerned or have been treated as benefits in kind.

The benefits in kind in respect of the PAYE settlement will be met by the Wales Audit Office. This has been fully disclosed in the remuneration report.

No member of the Management committee or their connected persons had any indebtedness (or agreement concerning indebtedness) to the Wales Audit Office at 31 March 2019 or at any time during the year.

**Governance Statement**

We confirm the Governance Statement within the Annual Report fairly reflects the Wales Audit Office's current position in relation to our compliance with internal control requirements set out in HM Treasury's guidance.

**Fraud and regulation**

We acknowledge that the responsibility for the detection of fraud, error and non-compliance with laws and regulations rests with me. We confirm that we are not aware of any known or suspected frauds, error and non-compliance, involving

management, employees or third parties which may have a material effect on the financial statements. We confirm that, insofar as we are able to determine, in my opinion the financial statements are not materially misstated as a result of fraud.

In particular we confirm that the Wales Audit Office has made full disclosure of actual or suspected fraud brought to our attention by employees, former employees and other external parties.

We confirm that there has been no possible or actual instance of non-compliance with those laws and regulations which are central to the Wales Audit Office's ability to conduct its business, except as explained to you and as disclosed in the financial statements.

**Events subsequent to the date of the Statement on Financial Position**

There were no events, transactions or discoveries since the Statement of Financial Position date which:

- would have a material effect on the financial statements, or
- are of such importance to users of the financial statements that they should be disclosed in the financial statements.

Yours faithfully

Signed on behalf of the board of Wales Audit Office

________________________________________

Auditor General Wales & Accounting Officer

# APPENDIX B - UPDATED FINANCIAL REPORTING DEVELOPMENTS

There are no additional matters from those reported within our Audit Plan.

Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-28-19 P3

Mawrth 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllun Blynyddol 2019-20

## Yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein huchelgeisiau tymor hwy a dangosyddion perfformiad allweddol

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae Cynllun Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020, sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein huchelgeisiau tymor hwy a dangosyddion perfformiad allweddol, wedi ei baratoi ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 25(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 26 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Drwy Reol Sefydlog 18.11(i) mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gwneud darpariaeth i'w Bwyllgor Cyllid fod yn gyfrifol am ystyried y Cynllun Blynyddol, ac adrodd arno i'r Cynulliad.

Os oes angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500

E-bost post@archwilio.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Crynodeb o'n cynllun

Ar ran pobl Cymru, rydym yn edrych ar wariant cyhoeddus ac yn nodi ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn helpu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chynrychiolwyr lleol etholedig i graffu ar arian cyhoeddus yn effeithiol. Rydym yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth.

## Ein diben



**Sicrhau**

pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.



**Egluro**


sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl.




**Ysbrydoli**

a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella.


## Beth yw ein huchelgeisiau




Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw.



Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo.



Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol.



Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

## Y gwaith a wnawn




Prosiectau archwilio

+



Cynyddu ein heffaith a'n gwerth

+



Rhedeg y busnes

# Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20, sef y cynllun corfforaethol cyntaf yn ystod cyfnod Adrian fel Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r galwadau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus, cyllidebau is, diwygiadau i ddulliau o ariannu, modelau llywodraethu mwy cymhleth a gadael yr UE yn rhai o'r meysydd sydd, pan y'u hystyrir gyda'i gilydd, yn cyflwyno amgylchedd heriol a chymhleth iawn i'r sector cyhoeddus a'r economi ehangach yng Nghymru.

Mae archwilio yn chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu'r wybodaeth a'r sicrwydd sydd eu hangen ar y cyhoedd, gwleidyddion, gwneuthurwyr penderfyniadau a dylanwadwyr ynghylch pa mor dda y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario. Mae hyn yn bwysicach fyth yn ystod y cyfnod hwn o her a newid.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi llwyddo i gyflwyno amrywiaeth eang o welliannau i archwiliadau cyhoeddus yng Nghymru a'r ffordd rydym yn rhedeg ein sefydliad. Mae'r rhain yn rhoi sylfeini cadarn iawn i ni er mwyn gwella hyd yn oed ymhellach.

Yn y Cynllun hwn, rydym yn cyflwyno uchelgeisiau'r Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer mynd â'n gwaith i'r lefel nesaf drwy wireddu ein potensial llawn fel gyrrwr gwelliant wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, sef:

- manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw;
- cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo;
- dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol; a
- dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

I gyflawni'r uchelgeisiau hyn ac ymateb yn effeithiol i'n hamgylchedd gweithredu, mae'r Cynllun yn nodi ein rhaglenni gwaith a'n hymrwymiadau allweddol i newid ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod o ran prosiectau archwilio, camau i gynyddu ein heffaith a'n gwerth, ac wrth redeg y busnes.

Rydym yn benderfynol o sicrhau bod sicrwydd archwilio yr ymddiriedir ynddo, sylwadaeth a thystiolaeth yn dylanwadu ar y materion sydd bwysicaf i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Drwy gyflawni'r Cynllun hwn yn llwyddiannus, byddwn yn chwarae ein rhan yn y gwaith o ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am eu defnydd o arian cyhoeddus a sicrhau bod ein safbwynt unigryw, ein harbenigedd a'n dealltwriaeth yn llywio'r penderfyniadau a wneir a thrafodaeth gyhoeddus.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru



**Isobel Everett**
Cadeirydd, ar ran Swyddfa
Archwilio Cymru

Tudalen y pecyn 179

# Cynnwys


Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud 6

Ein huchelgeisiau 8

Ein hamgylchedd gweithredu 9

Ein gwaith 12

Prosiectau archwilio 13

Cynyddu ein heffaith a'n gwerth 15

Rhedeg y busnes 17

Mesur ein perfformiad, ac adrodd arno 19

Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol 20

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 21

3 Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol 23

4 Gwaith arfer da 25

5 Dangos esiampl 26

6 Ein cyllid 28

7 Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau 29

# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o’r sector cyhoeddus yng Nghymru.

2 Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio’r rhan fwyaf o’r arian cyhoeddus sy’n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio i’w ddyfarnu bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo elfennau sylweddol o’r arian hwn i’r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi tua 270 o aelodau o staff proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol gan gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat, er mwyn galluogi’r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau.




**Sicrhau**

pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.



**Egluro**

sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl.



**Ysbrydoli**

a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella.

4 Ymhlith swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol mae archwilio cyfrifon a chynnal gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod eang o gyrff cyhoeddus, ynghyd â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Gall y swyddogaethau hyn gael eu cyflawni, ar y cyd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, er mwyn ystyried gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy’n darparu’r gwasanaethau.


5 Gyda’n gilydd, archwiliwn tua £19 biliwn o incwm a gwariant, sy’n cyfrif am bron i draean o gynnyrch domestig gros (GDP) Cymru.

6 Rydym hefyd yn nodi arfer da o holl waith archwilio’r Archwilydd Cyffredinol ac yn ei ledaenu drwy ein Cyfnewidfa Arfer Da a chyfryngau eraill, gan gynnwys seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd.

7 Rydym yn cyflawni ein gwaith yn unol â Chod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cod yn rhagnodi'r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau archwilio a rhai o swyddogaethau penodol eraill yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae'n nodi'r arfer proffesiynol gorau ym marn yr Archwilydd Cyffredinol

8 Rydym yn gweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith.

## Sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru




Tudalen y pecyn 182

# Ein huchelgeisiau

9 Dros y blynyddoedd i ddod rydym am wireddu ein potensial o ran sbarduno newid a gwelliant wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd.

10 Mae gennym bedair uchelgais eang a fydd, yn ein barn ni, yn ein galluogi i wneud hyn.

**Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw**

- Cryfhau natur rymus ein dealltwriaeth unigryw drwy weithio mewn tîm a rhannu gwybodaeth mewn ffordd fwy integredig.
- Chwilio'n rhagweithiol am synergeddau a thueddiadau yn y wybodaeth sydd gennym.
- Canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ac a wnaiff y gwahaniaeth mwyaf i gyrff cyhoeddus a'r cyhoedd.

**Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo**

- Dod â thystiolaeth a sylwebaeth ddibynadwy i'r amlwg ar y materion cywir ar yr adeg gywir.
- Sicrhau ein bod yn cyflwyno'r ffeithiau'n glir ac yn egluro'n gryno pam ein bod wedi dod i gasgliad neu ddehongliad penodol.
- Bod yn effro ac yn ymatebol i gyfleoedd newydd i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth archwilio lle gall ychwanegu gwerth.

**Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol**

- Canolbwyntio tuag allan mewn ffordd amlwg ac ymgysylltu mewn ffordd sy'n berthnasol i ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Dylanwadu ar ffordd o feddwl ac ymddygiad eraill a llywio'r ddadl gyhoeddus ehangach.
- Ceisio a gwrando ar syniadau a meddyliau y tu hwnt i Gymru a'r sector cyhoeddus.

**Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt**

- Gan ein bod yn arddel barn archwilio ar eraill, sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn rydym yn cynghori eraill i wneud.
- Darparu arweinyddiaeth glir, gyson a dilys a gwneud penderfyniadau'n gyflymach.
- Grymuso pobl drwy'r sefydliad i feddwl am syniadau newydd a gwneud newid cadarnhaol.

# Ein hamgylchedd gweithredu

11 Yn ein barn ni, y ffactorau canlynol yw'r rhai a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y ffordd y byddwn yn gwneud ein gwaith ac yn cyflawni ein huchelgeisiau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

## Rydym yn dal i fod mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol

12 Mae'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i wynebu gostyngiadau mewn cyllidebau blynyddol mewn termau real, wrth geisio cynnal a gwella darpariaeth gwasanaethau a bodloni disgwyliadau cynyddol y cyhoedd a gofynion demograffig sy'n newid ar yr un pryd.

13 Mae angen i wasanaethau cyhoeddus wneud newidiadau radical i'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau ac yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn iddynt adeiladu'n effeithiol ar y cydweithredu a welir fwyfwy yng Nghymru. Gan fod llawer o arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yn disgwyl gwneud toriadau mwy sylweddol i gyllidebau, mae angen dull hirdymor, mwy cyfannol o liniaru effeithiau ar y cyhoedd.

## Mae'r dirwedd wleidyddol a'r dirwedd bolisi yn parhau i ddatblygu

14 Mae amrywiaeth eang o ffactorau polisi a ffactorau gwleidyddol yn debygol o ddylanwadu ar y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac yn darparu adnoddau ar ei gyfer. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

### Goblygiadau Brexit

15 Mae'n dal i fod yn anodd asesu goblygiadau Brexit yn llawn o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys natur cymorth ariannol ar gyfer yr economi wledig yn y dyfodol, ynghyd ag unrhyw beth sy'n cymryd lle Cronfeydd Strwythurol yr UE, ar lefel y DU neu ar lefel Cymru.  Rydym yn ymrwymedig i gynnal rhaglen archwilio 'amser real' ar gyfer y broses gymhleth a dynamig hon, wrth iddi barhau i ddatblygu.

### Newidiadau i'r dirwedd ddatganoli

16 Yn sgil Deddf Cymru 2017 newidiwyd datganoli o fod yn fodel rhoi pwerau i fod yn fodel cadw pwerau, gyda'r potensial i greu cyrff cyhoeddus newydd.

## Datganoli cyllidol

17 Mae a wnelo datganoli cyllidol â throsglwyddo rhai pwerau codi trethi a benthyca o San Steffan i Gymru, a ddechreuodd yn 2018. Mae ein gwaith archwilio yn ehangu i gynnwys ystyried gwaith cynllunio a rhagamcanu cyllidol yng Nghymru, gweithrediadau casglu trethi Awdurdod Refeniw Cymru a goblygiadau cynigion ar gyfer trethi datganoledig newydd i Gymru. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyflwyno Cyfradd Treth Incwm Gymreig o fis Ebrill 2019.

## Sefydlu modelau gweithio mewn partneriaeth a gwaith rhanbarthol

18 Ynghyd â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, cynigiwyd lefel uwch o waith cynllunio rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru, gyda diwygiadau cysylltiedig i ddulliau ariannu a chynnydd yng nghymhlethdod modelau llywodraethu.

## Y gofyniad i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynnar

19 Bydd angen paratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn gynt erbyn 2020-21.

# Mae gan drefniadau llywodraethu gwmpas ehangach

20 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gosod gofynion cyfreithiol ar y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn atgyfnerthu trefniadau llywodraethu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy ddiffiniedig.

21 Mae'n rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid iddynt bennu a chyhoeddi amcanion llesiant y bwriedir iddynt sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant ac wedyn gymryd camau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion hynny. Mae'n ofynnol i'r cyrff a restrir gyflwyno adroddiad blynyddol ar hynt y broses o gyflawni eu hamcanion.

22 O dan Adran 15 o'r Ddeddf, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried i ba raddau y mae'r cyrff cyhoeddus rhestredig wedi gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf wrth osod amcanion llesiant, a chymryd camau i'w cyflawni.

## Rydym yn byw mewn cymdeithas fwyfwy rhwydweithiol

23 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae datblygiadau ym maes technoleg gwybodaeth wedi arwain at ddigideiddio mwy a mwy o brosesau darparu gwasanaethau, mwy o fynediad cyhoeddus at ddata a chyfleoedd newydd i ryngweithio ac ymgysylltu drwy gyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol eraill, ynghyd â ffyrdd newydd o wneud hynny.

24 Mae trawsnewid digidol a chynhwysiant digidol yn rhan ganolog o gynlluniau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn fwy hygyrch ac ystyrlon i'r rhai sy'n eu defnyddio, ac i gyflawni gwell canlyniadau.

25 Nid oes i gymdeithas fwyfwy rhwydweithiol oblygiadau i'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym yn unig. Mae hefyd yn cael cryn effaith ar asiantaethau archwilio a chyrff adolygu allanol eraill. Mae angen i ninnau hefyd fod yn ymwybodol o ddatblygiadau technolegol a gwella ansawdd ein gwaith drwy fanteisio ar ffyrdd newydd o gasglu data a gwybodaeth, adrodd ar ein canfyddiadau a chynyddu ymwybyddiaeth o'n gwaith, a'r lefel o ymgysylltu ag ef.





# Ein gwaith

26 Gall ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2019-20 gael ei rannu'n dair adran yn fras:




27 Mae'r ddwy elfen gyntaf yn cynnwys rhaglen waith a blaenoriaethau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2019-20 wrth gyflawni ei swyddogaethau.

28 Mae'r drydedd elfen yn cwmpasu rhaglen waith a blaenoriaethau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2019-20 wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau.

29 Ar gyfer pob rhan, nodwyd nifer fach o ymrwymiadau newid allweddol a fydd yn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau dros y flwyddyn nesaf. Caiff pob prosiect newid ei noddi gan ein tîm rheoli gweithredol, a chaiff y cynnydd a wneir tuag at gyflawni ein hymrwymiadau ei fonitro'n agos gan y Bwrdd.

30 Caiff yr adnoddau sydd ar gael, ac a all fod ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â'r Amcangyfrif o Incwm a Threuliau ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben 31 Mawrth 2020, sydd wedi'i gymeradwyo, eu defnyddio i gyflawni'r rhaglenni gwaith hyn.

# Prosiectau archwilio


## Gwaith craidd



Cynnal gwaith archwilio mewn dros
**800**



Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau
**gwerth am arian**



Ardystio cynlluniau grant sy'n werth bron i
**£3 biliwn**



Cymeradwyo tua
**£1 biliwn**
o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis

Am ragor o wybodaeth gweler:

Atodiad 1 – Gwaith archwilio lleol
Atodiad 2 – Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

31 Mae ein gwaith archwilio lleol yn cynnwys y canlynol yn bennaf:

a rhoi barn ar y cyfrifon;

b ystyried p'un a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy (rheoleidd-dra);

c ystyried y ffordd y caiff busnes cyhoeddus ei gynnal (priodoldeb);

d archwilio p'un a oes trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian a gwelliant parhaus; ac

e asesu'r graddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant, a chymryd camau i'w cyflawni.

32 Rydym hefyd yn archwilio, ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, £250 miliwn o gronfeydd Ewropeaidd a ddefnyddir i gefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth ledled Cymru, a chyfrifon arian loteri Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru.

33 I‘n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau yn y maes hwn o’n gwaith, byddwn yn canolbwyntio ar yr ymrwymiadau newid canlynol dros y flwyddyn nesaf:

## Ymrwymiadau newid

- Gwella’r ffordd rydym yn cael gafael ar ddata ac yn eu dadansoddi, ynghyd â’r ffordd rydym yn gweld ac yn cyfleu ein canfyddiadau.
- Rhoi mwy o bwyslais ar safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys grwpiau ‘anos eu cyrraedd’, wrth ystyried effeithiolrwydd y broses o ddarparu gwasanaethau.
- Archwilio’n agosach effeithiolrwydd trefniadau darparu gwasanaethau integredig a chydweithredol.




# Cynyddu ein heffaith a'n gwerth

## Gwaith craidd



**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad



Cynnal digwyddiadau **dysgu ar y cyd** i fwy na **1,100** o bobl



Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll** a gwall drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol



Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

Am ragor o wybodaeth gweler:

Atodiad 3 – Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol
Atodiad 4 – Gwaith arfer da

34 Rydym hefyd yn ymrwymedig i weithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU drwy'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus, a chyda'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru drwy fenter Arolygu Cymru, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus ac effaith gyfunol ein gwaith. Ymfalchïwn yn y ffaith y cawn gyfle i gynrychioli Cymru ar y llwyfan archwilio rhyngwladol o bryd i'w gilydd, gan gynnwys yn EURORAI.

35 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu gwneud trefniadau gyda mathau penodol o gyrff er mwyn i'r swyddfa neu'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaethau i'r cyrff hynny, neu arfer eu swyddogaethau, yn y DU a thramor. Er enghraifft, yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, gyda chefnogaeth tîm o Swyddfa Archwilio Cymru, yw Prif Archwilydd Llywodraeth Anguilla ar hyn o bryd. Ond, rydym yn ymwybodol y dylai'r holl weithgareddau hynny fod yn hunangyllidol ac na ddylent amharu ar ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

36 I'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau yn y maes hwn o'n gwaith, byddwn yn canolbwyntio ar yr ymrwymiadau newid canlynol dros y flwyddyn nesaf:

## Ymrwymiadau newid

- Sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn llwyr ymwybodol o ganlyniadau ein gwaith wrth gyflawni pob agwedd ar ei swyddogaeth craffu ar wariant cyhoeddus.
- Ystyried ffyrdd newydd a gwahanol o ddylanwadu ar ffordd o feddwl ac ymddygiad eraill, a helpu i lywio'r drafodaeth gyhoeddus ehangach.
- Bod yn fwy rhagweithiol wrth helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i drechu twyll a llygredd.









Tudalen y pecyn 191

# Rhedeg y busnes


## Gwaith craidd




Pennu'r gyllideb gyffredinol o
**£21 miliwn**
a chodi ffioedd am waith archwilio



Cyflogi tua
**270 o staff**
a rheoli ystod amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth



Darparu
**arweinyddiaeth gadarn**
ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau



**Monitro'r**
modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhoi cyngor iddo

Am ragor o wybodaeth gweler:

Atodiad 5 – Dangos esiampl
Atodiad 6 – Ein cyllid

37 Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am bennu a goruchwylio cyfeiriad strategol y sefydliad, a sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein huchelgeisiau. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys aelodau anweithredol a gweithredol, ynghyd â dau aelod a etholir o blith y cyflogeion sy'n darparu agwedd arall ar ddealltwriaeth a phrofiad.

38 Mae'r Pwyllgor Rheoli, a gadeirir gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn ei gynghori yn rhinwedd ei swydd fel Archwilydd Cyffredinol, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, a rhydd arweinyddiaeth weithredol i'r sefydliad.

39 Rhoddir gwybodaeth fanylach am ein trefniadau llywodraethu yn adran Datganiad Llywodraethu ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.


40 I’n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau yn y maes hwn o’n gwaith, byddwn yn canolbwyntio ar yr ymrwymiadau newid canlynol dros y flwyddyn nesaf:

## Ymrwymiadau newid

- Cyflwyno ffyrdd newydd a mwy deallus o weithio er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol, ac y gallwn ymaddasu i newid mewnol ac allanol.
- Gwella’r ffordd y caiff gwybodaeth a data eu rheoli’n fewnol.
- Mireinio ein strwythurau a’n prosesau arwain a llywodraethu er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â’n huchelgeisiau.









# Mesur ein perfformiad, ac adrodd arno

41 Yn 2019-20, byddwn yn defnyddio cymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur ein perfformiad a'n risgiau ac adrodd a myfyrio arnynt. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau rheolaidd i'n Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd ar y cynnydd a wneir tuag at gyflawni ein hymrwymiadau newid a chyflawni ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol. Bydd hefyd yn cynnwys adroddiadau archwilio mewnol i'n Pwyllgor Rheoli a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

42 Rhown bwyslais arbennig ar werthuso'r cyfeiriad yr awn iddo a pha mor gyflym rydym yn gwella, ynghyd â chymharu â meincnodau priodol.

43 Byddwn yn adrodd ar ein perfformiad yn allanol drwy ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac Adroddiad(au) Interim, a thrwy roi tystiolaeth yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.

44 Wrth baratoi'r cynllun hwn, gwnaethom adolygu ein targedau gan gyfeirio at lefelau perfformiad presennol, meincnodau allanol priodol a'n dyheadau ein hunain o ran gwella. Parheir i graffu ar y targedau a'u mireinio ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon heriol ond bod modd eu cyflawni o fewn y terfynau amser penodedig.

45 Yn 2019-20, byddwn yn cynnal adolygiad manwl o'n dangosyddion perfformiad a'n targedau, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gyd-fynd â'n huchelgeisiau cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth gweler:

Atodiad 7 – Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau

# Atodiad 1 – Gwaith archwilio lleol

46 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio cyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Tabl yn rhestru'r cyrff cyhoeddus a archwiliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn dangos y mathau o waith lleol a wnaed yn y cyrff archwiliedig hynny.

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[1] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 8 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[2] |
| Awdurdod Refeniw Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 4 o gwmnïau Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 8 Comisiynydd, Arolygiaeth a Rheoleiddiwr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 o Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[3] |
| 22 o Gynghorau (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a 4 Prif Gwnstabl | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa Bensiwn | ✓ | | |
| Nifer o gyrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cydbwyllgorau, ardaloedd draenio mewnol ac awdurdodau harbwr | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[4] | | |

1 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Mae gwaith archwilio perfformiad sydd wedi'i gynnal yn y sector hwn yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol ar hyn o bryd.

2 Dim ond ar gyfer cyrff a restrir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3 Dim ond ar gyfer cyrff a restrir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Atodiad 2 – Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

47 Mae’r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau cryno ar ganfyddiadau gwaith archwilio lleol mewn amrywiaeth o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol. Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau mewn ymateb i bryderon cyhoeddus a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda’r Archwilydd Cyffredinol mewn gohebiaeth.

48 Mae allbynnau cryn dipyn o’r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a phwyllgorau eraill y Cynulliad.  Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein rhaglen archwiliadau ac astudiaethau ar ein gwefan.

49 Disgwylir adrodd ar rywfaint, ond nid y cyfan, o’r gwaith a restrir yn 2019-20. Mae’r rhaglen waith yn cynnwys elfen o hyblygrwydd er mwyn ymateb i amgylchiadau newidiol, blaenoriaethau a materion o bryder cyhoeddus neu seneddol, ac er mwyn cynnwys yr hyn a ddysgwyd o waith archwilio lleol sy’n berthnasol yn fwy cyffredinol.




Tudalen y pecyn 196

## Gwaith sy'n mynd rhagddo eisoes

- Gwaith sy'n mynd rhagddo eisoes
- Gwasanaethau gofal sylfaenol
- Cronfa Gofal Integredig
- Codio clinigol y GIG
- Gwasanaethau orthopedig
- Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Gwasanaethau cynllunio
- Asesiadau pwynt cyswllt cyntaf
- Gwella ffordd yr A465 (Rhan 2)
- Llesiant cenedlaethau'r dyfodol
- Gwella llesiant pobl ifanc

## Gwaith newydd arfaethedig yn 2019-20

- Darlun o wasanaethau cyhoeddus
- Brexit
- Atal twyll a llygredd
- Gweinyddu cyllid myfyrwyr
- Tlodi tanwydd / effeithlonrwydd ynni
- Gweithlu Llywodraeth Cymru
- TGCh Llywodraeth Cymru
- Cadernid digidol
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- Effaith cyni cyllidol ar wasanaethau dewisol awdurdodau lleol
- Cynaliadwyedd ariannol mewn llywodraeth leol
- Masnacheiddio mewn awdurdodau lleol
- Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus
- Rheoli grantiau
- Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol
- Amseroedd aros y GIG
- Athrawon cyflenwi

# Atodiad 3 – Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Cynulliad

50 Mae ein gwaith yn chwarae rôl allweddol yn cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth iddo ystyried materion sy'n ymwneud â'r defnydd o adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall ein gwaith hefyd, lle bo'n gymwys, lywio gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol y mae eu cylch gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig.

51 Yn 2019-20, byddwn yn rhoi gwybodaeth friffio reolaidd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gynnwys adroddiadau a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn helpu'r Pwyllgor i bennu'r camau mae angen iddo eu cymryd. Byddwn hefyd yn darparu rhagor o gyngor a chymorth i'r Pwyllgor yn ôl y gofyn, yn enwedig o ran:

- a datblygu briffiadau aelodau ar gyfer sesiynau tystiolaeth gyda thystion o Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill;
- b datblygu adroddiadau'r Pwyllgor; a
- c darparu cyngor ar ba mor ddigonol yw ymatebion ffurfiol Llywodraeth Cymru i argymhellion yn adroddiadau'r Pwyllgor.

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

52 Drwy gydol y flwyddyn, byddwn yn mynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio'r prif gyrff a archwiliwn er mwyn darparu briffiadau rheolaidd ac adrodd ar ein gwaith archwilio.

53 Byddwn hefyd yn darparu rhagor o gyngor a chymorth i bwyllgorau archwilio a chraffu, lle y bo'n gymwys, yn enwedig o ran:


- a darparu cymorth ac arweiniad i gadeiryddion pwyllgorau er mwyn eu helpu i gyflawni eu rôl yn fwy effeithiol; a
- b rhoi cyfleoedd seminarau arfer da a sesiynau codi ymwybyddiaeth i aelodau pwyllgorau ar faterion hynod berthnasol.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol etholedig

54 Rydym yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan aelodau o'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl am y ffordd y caiff arian ac asedau cyhoeddus eu gwarchod. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn 'berson rhagnodedig' ar gyfer codi pryderon chwythu'r chwiban ynghylch cynnal busnes cyhoeddus yn briodol a thwyll, gwerth am arian a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

55 Yn 2019-20, byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn:

- a ymateb i bryderon o'r fath yn gyflym, ac mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol;
- b gwerthfawrogi pwysigrwydd y materion i'r rhai sydd wedi cymryd yr amser i dynnu sylw atynt;
- c cyhoeddi adroddiadau archwilio lle mae angen gwneud hynny yn ein barn ni; a
- d sicrhau nad ydym yn defnyddio arian cyhoeddus i edrych ar faterion sy'n amherthnasol i'n gwaith archwilio, nac yn treulio gormod o amser ar faterion dibwys.




Tudalen y pecyn 199

# Atodiad 4 – Gwaith arfer da

56 Agwedd allweddol ar ein gwaith arfer da yw hwyluso trafodaethau rhwng darparwyr gwasanaethau, lle caiff yr hyn a ddysgwyd o'n gwaith archwilio, ac o'u llwyddiannau a'u methiannau cymharol, ei rannu wyneb yn wyneb. Cyflwynwn farn a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr rhyngwladol i'r sgyrsiau hyn fwyfwy.

57 Mae ein rhaglen seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd yn hyblyg a chaiff mwy o bynciau eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn.

y seminarau dysgu ar y cyd a'r gweminarau a gynlluniwyd ar gyfer 2019-20.

| Pwnc | Digwyddiad[5] | Pryd |
|---|---|---|
| Cynghorau Tref a Chymuned – dysgu ar y cyd o'n hadolygiad o drefniadau archwilio mewnol | Gweminar ar-lein | Ebrill 2019 |
| Cydweithio i drechu twyll yng Nghymru (ar y cyd â CIPFA Cymru) | Seminar | Mai 2019 |
| Dysgu ar y cyd o'n hadolygiad o'r Gronfa Gofal Integredig | Seminar | Mehefin 2019 |
| Ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau gwledig | Seminar | Gorffennaf 2019 |
| Gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau tymor hwy – mynd y tu hwnt i gylchoedd cynllunio blynyddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus | Gweminar ar-lein | Awst 2019 |
| Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cyfrannu at nod llesiant 'Cymru sy'n fwy cyfartal' | Seminar | Medi 2019 |
| Sut mae technoleg yn gwella'r cydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus | Seminar | Hydref 2019 |
| Modelau darparu amgen ar gyfer mynd i'r afael â phrofiadau andwyol yn ystod plentyndod (mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Hyb ACE) | Seminar | Rhagfyr 2019 |
| Atebolrwydd a llywodraethu mewn gwasanaethau partneriaeth | Seminar | Chwefror 2020 |
| Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | Seminar | Mawrth 2020 |
| Effaith tai a gofal cymdeithasol ar iechyd a llesiant | Gweminar ar-lein | I'w gadarnhau |

5 Caiff ein seminarau eu cynnal mewn dau leoliad yng Nghaerdydd a Llanrwst.

# Atodiad 5 – Dangos esiampl

58 Ynghyd â'n hymrwymiadau newid cyffredinol, caiff gwaith Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a'i Bwyllgor Rheoli ar redeg y busnes yn 2019-20 ei lywio gan y blaenoriaethau thematig canlynol:



## Ein pobl a'n hasedau

- Mireinio ein Strategaeth Pobl, gan gynnwys drwy:
  - ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau yn y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd a'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau;
  - creu diwylliant hyfforddi er mwyn sicrhau'r amodau ar gyfer llwyddiant sefydliadol; a
  - datblygu gweledigaeth gweithlu cyfannol er mwyn sicrhau bod gennym y sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i ymaddasu i newid mewnol ac allanol.
- Ymateb i ganlyniadau ein harolwg staff diweddaraf[6] lle, er bod ein perfformiad cyffredinol yn dal i fod yn gryf, y nodwyd sawl maes gan y staff lle mae angen i ni wella, gan gynnwys rheoli newid a darparu cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa.
- Hybu a chefnogi iechyd emosiynol a chorfforol staff, a'u llesiant.
- Gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r amcanion cydraddoldeb yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan gynnwys drwy greu gweithlu mwy amrywiol, yn enwedig ar lefelau uwch.
- Parhau i ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes ac ystyried sut y gallwn gymhwyso'r 'pum ffordd o weithio'[7] at ein gweithrediadau parhaus ymhellach.
- Cyrraedd ein nod o gyflawni Lefel 5 (y lefel uchaf) Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd.
- Defnyddio allbynnau o'n hadolygiad o ffyrdd o weithio newydd a mwy deallus i lywio ailwerthusiad o'n strategaeth ystadau a swyddfeydd.


6 Yn ystod mis Hydref 2018, cynhaliwyd ein harolwg staff blynyddol er mwyn meithrin dealltwriaeth o brofiad cyflogeion yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan ddefnyddio'r un holiadur ag a ddefnyddiwyd yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.

7 Fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



# Ein model cyflawni

- Ehangu ein defnydd o dimau amlddisgyblaethol er mwyn cynnal ein rhaglen o brosiectau archwilio.
- Darparu ar gyfer y newidiadau sydd eu hangen i'n harferion gwaith, yn sgil newidiadau i'n hamgylchedd gweithredu, gan gynnwys mewn perthynas â chau cyfrifon llywodraeth leol yn gynnar, datganoli cyllidol a Brexit.
- Cefnogi Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol wrth iddo ystyried p'un a oes modd i gyfundrefn ffioedd archwilio cyhoeddus gymhleth Cymru gael ei symleiddio, a sicrhau ei bod yn debycach i'r rhai sy'n gymwys i gyrff archwilio eraill yn y DU.
- Cyflwyno rhaglen dreigl o adnewyddu cyfrifiaduron a chyfarpar TG a seilwaith rhwydwaith data, ynghyd â buddsoddi ymhellach mewn 'gwasanaethau cwmwl'.
- Mireinio ein strategaeth ar gyfer darparu gwasanaeth archwilio dwyieithog, a chyfathrebu â'r cyhoedd, cyrff archwiliedig a'r cyfryngau yn y ddwy iaith.
- Gweithredu prif argymhellion ein prosiect trawsnewid cyfathrebu.



# Ein harweinyddiaeth a'n rheolaeth

- Sicrhau bod ein tîm arwain mewn sefyllfa i ateb heriau cyfeiriad y sefydliad yn y dyfodol.
- Sicrhau bod cysylltiad amlwg rhwng ein huchelgeisiau cyffredinol a chynlluniau gwaith ac amcanion unigol.
- Symleiddio ein prosesau gwneud penderfyniadau a sicrhau ein bod yn dirprwyo cyfrifoldeb yn barhaus i'r lefel fwyaf priodol.
- Sicrhau bod gennym y capasiti priodol i newid er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r Cynllun hwn.
- Ailystyried a diweddaru ein dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'n huchelgeisiau.
- Sicrhau bod gennym y rheolaethau a'r ffynonellau sicrwydd cywir ar waith i gefnogi systemau llywodraethu cynhwysfawr a chadarn.
- Adolygu effeithiolrwydd ein Bwrdd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ychwanegu gwerth at Swyddfa Archwilio Cymru.


# Atodiad 6 – Ein cyllid


59 Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar ein defnydd o adnoddau, gan gynnwys drwy ystyried y Cynllun hwn, ein Hamcangyfrif, Cynllun Ffioedd, Adroddiad(au) Interim a'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

60 Daw tua dwy ran o dair o gyllid Swyddfa Archwilio Cymru o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir yn unol â Chynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r hyn sy'n weddill yn cynnwys cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru, ac mae ein defnydd o'r cyllid hwnnw yn destun craffu gan y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn.

61 Caiff y blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein defnydd o adnoddau yn 2019-20 eu cyflwyno yn ein Hamcangyfrif mwyaf diweddar, a ystyriwyd ac a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2018. Mae a wnelo £15.6 miliwn o wariant a gynlluniwyd ag adnoddau a fydd ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal ei raglen waith[8]. Mae £5.9 miliwn arall yn darparu amrywiaeth o wasanaethau galluogi corfforaethol, gan gynnwys swyddfeydd a gwasanaethau cymorth eraill, fel cyngor cyfreithiol, TGCh ac adnoddau dynol[9].

62 Ers ailgyfansoddi Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013-14, erbyn diwedd 2019-20 byddwn wedi lleihau cost gwaith archwilio cyhoeddus yng Nghymru 14% mewn termau real[10]. Bydd yr arbedion cronnol a sicrheir yn ystod y blynyddoedd hynny yn cyfateb i fwy na £13 miliwn.




8 Dyma'r uchafswm adnoddau sydd ar gael, ac a all fod ar gael, y disgwylir iddynt gael eu dyrannu gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol er mwyn cynnal ei raglen waith.


9 Mae hyn yn cyfateb i'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.

10 Yn seiliedig ar ddatchwyddwyr CDG a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2018.


# Atodiad 7 – Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau




Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw



Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo



Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol




Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

Tabl yn rhestru'r dangosyddion perfformiad allweddol a'r targedau cysylltiedig sy'n gysylltiedig â'n tair uchelgais gyntaf.


| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| 1 | Ar amser | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol a gyflawnwyd ar amser. | 95% |
| 2 | Adroddiadau cenedlaethol | Nifer yr adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd. | 18 y flwyddyn |
| 3 | Argymhellion a dderbyniwyd | Cyfran yr argymhellion neu'r cynigion ar gyfer gwella sydd wedi'u derbyn yn llwyr i'w gweithredu gan gyrff archwiliedig. | 90% |
| 4 | Arbedion a nodwyd | Gwerth arbedion posibl a nodwyd drwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn 2018-2021 |
| 5 | Gwneud gwahaniaeth | Canran sgôr arolwg rhanddeiliad gadarnhaol ar gyfer pa mor dda y canfyddir ein bod yn cyflawni ein huchelgeisiau. | 85% |
| 6 | Mynychwyr digwyddiadau arfer da | Nifer y mynychwyr yn ein seminarau a'n gweminarau dysgu ar y cyd. | 1,100 y flwyddyn |
| 7 | Boddhad â digwyddiadau arfer da | Cyfran y mynychwyr yn ein digwyddiadau cyfnewidfa arfer da a nododd fod y digwyddiadau yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn yn gyffredinol. | O leiaf 90% |
| 8 | Ymweliadau â'r wefan – cyfran | Cyfran yr ymweliadau â'r wefan lle caiff o leiaf un peth ei wneud, ee lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | O leiaf 50% |
| 9 | Ymweliadau â'r wefan – nifer | Nifer yr ymweliadau â'r wefan lle caiff o leiaf un peth ei wneud, ee lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | 30,000 y flwyddyn |
| 10 | Ymdrin â gohebiaeth | Nifer yr achosion lle na roddwyd ymateb i bryderon a godwyd ynghylch gwariant cyhoeddus mewn gohebiaeth o fewn 30 diwrnod gwaith i'w derbyn. | Dim |




Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw



Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo



Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol



Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

Tabl yn rhestru’r dangosyddion perfformiad allweddol a’r targedau cysylltiedig sy’n ymwneud â’n pedwerydd uchelgais o fod yn sefydliad model ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| 11 | Ymgysylltu â chyflogeion | Canran sgôr mynegai ymgysylltu gadarnhaol o’r arolwg staff blynyddol (yn gyson ag Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil) | O leiaf y 9fed sgôr ddegymol ar gyfer Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil |
| 12 | Profiad cyflogeion | Canran sgoriau thematig cadarnhaol o'r arolwg staff blynyddol[11]. | O leiaf y 9fed sgoriau degymol ar gyfer yr Arolwg diweddaraf |
| 13 | Absenoldeb oherwydd Salwch | Diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd bob blwyddyn fesul aelod o staff. | Llai na 6 diwrnod |
| 14 | Mantoli'r gyllideb | Lefel yr amrywiad mewn gwariant gros i'r hyn a nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2019-20. | O fewn 2% i'r gyllideb |
| 15 | Taliadau cyflenwyr | Canran y cyflenwyr a dalwyd o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn anfoneb. | O leiaf 90% |
| 16 | Arbedion cost ac effeithlonrwydd | Gwerth arbedion cost ac effeithlonrwydd a nodwyd drwy'r busnes. | £574,000 |
| 17 | Effeithlonrwydd yr ystâd | Costau gan gynnwys costau rhent ac ardrethi fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn. | Llai na £3,300 |
| 18 | Darpariaeth Gymraeg | Nifer y cwynion a gafwyd ac a gadarnhawyd ynghylch ein darpariaeth Gymraeg. | Dim |
| 19 | Rheoli amgylcheddol | Lefel achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Groundwork Cymru. | Lefel 5 (y lefel uchaf) |
| 20 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ cyfatebol o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu’n eu rheoli, o’r defnydd o drydan yr ydym yn ei brynu, neu a gynhyrchir yn anuniongyrchol o ganlyniad i’n gweithgareddau. | Llai na 450 o dunelli |

11 Prif themâu profiadau cyflogeion yr Arolwg yw: amcanion a diben y sefydliad; arweinyddiaeth a rheoli newid; diwylliant sefydliadol; fy rheolwr; fy ngwaith; fy nhîm; cynhwysiant a thriniaeth deg; dysgu a datblygu; adnoddau a llwyth gwaith; tâl a buddiannau; a chymryd camau.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-28-19 P4

Hydref 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Interim

## Asesiad o gynnydd a wnaed o'i gymharu â'n Cynllun Blynyddol 2019-20 yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill hyd 30 Medi 2019

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae’r Adroddiad Interim hwn yn ymdrin â’r cyfnod o 1 Ebrill hyd 30 Medi 2019. Fe’i paratowyd ar y cyd a’i gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae’r Adroddiad Interim yn cynnwys asesiad o’r graddau:

- y bu gweithrediad swyddogaethau yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn gyson â’r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer 2019-20 yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;
- gwnaed cynnydd tuag at gyflawni’r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun; a
- gwnaed cynnydd tuag at gyflawni ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch ei gynnwys, cysylltwch â ni trwy ddefnyddio’r manylion isod.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych chi wedi’i defnyddio. Ni fydd cyfathrebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500
E-bost info@audit.wales
Gwefan www.audit.wales
Twitter @WalesAudit

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Rhagair

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn disgrifio'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud hyd yn hyn i gyflawni ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20.

Yn yr Adroddiad rydym yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill hyd 30 Medi 2019 i gyflawni ein rhaglenni gwaith a gynlluniwyd a'n hymrwymiadau newid cysylltiedig, ac ar gyrraedd ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae cyflawniad ein gwaith wedi'i seilio ar ein pedwar uchelgais newydd, sef:

- defnyddio ein persbectif, arbenigedd a dirnadaeth fanwl unigryw;
- cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdod, annibynnol yr ymddiriedir ynddo;
- cynyddu ein amlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd; a
- bod yn esiampl dda i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

Rydym yn cadarnhau na fu unrhyw angen i wyro'n sylweddol o'r rhaglenni gwaith a nodwyd yn ein Cynllun 2019-20. Mae'r holl waith a gynlluniwyd wedi'i gyflawni neu'n mynd rhagddo yn unol â'r cynllun, sy'n dyst i broffesiynoldeb, ymrwymiad a gwaith caled staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r cydweithrediad a gawn gan y cyrff yr ydym yn eu harchwilio.

Wedi ein llywio gan ein huchelgeisiau newydd a thrwy ddefnyddio ein cylch gwaith unigryw i ddilyn y bunt gyhoeddus, rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r momentwm hwn ar gyfer gweddill y flwyddyn yn ein swyddogaeth fel ysgogydd gwelliant wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus Cymru.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Isobel Everett**
Cadeirydd Bwrdd Archwilio Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Trosolwg | 5 |
| Dadansoddi perfformiad | 6 |
| Prosiectau archwilio | 7 |
| Cynyddu ein heffaith a'n gwerth | 10 |
| Rhedeg y busnes | 13 |
| Dangosyddion perfformiad allweddol | 15 |
| Atodiadau | |
| 1. Gwaith archwilio lleol | 18 |
| 2. Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol | 19 |
| 3. Cefnogi gwaith craffu effeithiol ac atebolrwydd | 20 |
| 4. Gwaith arfer da | 21 |

# Trosolwg

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill hyd 30 Medi 2019, bu gweithrediad swyddogaethau yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer 2019-20.

Ni fu unrhyw angen i wyro'n sylweddol o'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun; mae ein holl waith a gynlluniwyd ar gyfer 2019-20 wedi'i gyflawni neu'n mynd rhagddo yn unol â'r cynllun.

Mae ein gwaith yn ystod hanner cyntaf eleni wedi'i ysgogi gan ein pedwar uchelgais bras ar gyfer datgloi ein potensial llawn fel ysgogydd gwelliant wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

**Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw**

- Cryfhau natur rymus ein dealltwriaeth unigryw drwy weithio mewn tîm a rhannu gwybodaeth mewn ffordd fwy integredig.
- Chwilio'n rhagweithiol am synergeddau a thueddiadau yn y wybodaeth sydd gennym.
- Canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ac a wnaiff y gwahaniaeth mwyaf i gyrff cyhoeddus a'r cyhoedd.

**Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo**

- Dod â thystiolaeth a sylwebaeth ddibynadwy i'r amlwg ar y materion cywir ar yr adeg gywir.
- Sicrhau ein bod yn cyflwyno'r ffeithiau'n glir ac yn egluro'n gryno pam ein bod wedi dod i gasgliad neu ddehongliad penodol.
- Bod yn effro ac yn ymatebol i gyfleoedd newydd i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth archwilio lle gall ychwanegu gwerth.

**Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol**

- Canolbwyntio tuag allan mewn ffordd amlwg ac ymgysylltu mewn ffordd sy'n berthnasol i ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Dylanwadu ar ffordd o feddwl ac ymddygiad eraill a llywio'r ddadl gyhoeddus ehangach.
- Ceisio a gwrando ar syniadau a meddyliau y tu hwnt i Gymru a'r sector cyhoeddus.

**Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt**

- Gan ein bod yn arddel barn archwilio ar eraill, sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn rydym yn cynghori eraill i wneud.
- Darparu arweinyddiaeth glir, gyson a dilys a gwneud penderfyniadau'n gyflymach.
- Grymuso pobl drwy'r sefydliad i feddwl am syniadau newydd a gwneud newid cadarnhaol.

Yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2019-20, byddwn yn cynnwys casgliad o astudiaethau achos enghreifftiol i ddangos sut mae ein gwaith yn ystod y flwyddyn wedi'i lywio gan yr uchelgeisiau hyn.

# Dadansoddi perfformiad

Yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20, mae ein gwaith a gynlluniwyd wedi'i rannu'n fras yn dair adran:




Mae'r ddwy elfen gyntaf yn cynnwys rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2019-20 wrth arfer ei swyddogaethau.

Mae'r drydedd elfen yn ymgorffori rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2019-20 wrth arfer ei swyddogaethau.

Ar gyfer pob adran, nodwyd nifer bach o ymrwymiadau newid allweddol i'n cefnogi ni wrth gyflawni ein huchelgeisiau yn ystod y flwyddyn bresennol.

Mae'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud tuag at gyflawni pob un o'r ymrwymiadau hyn yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn wedi'i grynhoi yn y tudalennau canlynol.

Mae'r atodiadau i'r adroddiad hwn wedyn yn darparu gwybodaeth fanylach am y rhaglenni gwaith a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill hyd 30 Medi 2019.

Ochr yn ochr â'n hymrwymiadau newid cyffredinol, mae gwaith Bwrdd a Thîm Arweinyddiaeth Weithredol Swyddfa Archwilio Cymru i redeg y busnes yn 2019-20 wedi'i lywio gan y blaenoriaethau thematig a restrir yn Atodiad 5 ein Cynllun Blynyddol. Yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2019-20, byddwn yn nodi yn ein Datganiad Llywodraethu sut y mae gwaith y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn wedi'i lywio gan y blaenoriaethau hyn.

## Prosiectau archwilio

### Gwaith craidd

Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800**

Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**

Ardystio cynlluniau grant sy'n werth bron i **£3 biliwn**

Cymeradwyo tua **£1 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis

## Ymrwymiadau newid

| Ymrwymiad | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn |
|---|---|
| Gwella'r ffordd yr ydym yn cael gafael ar ddata ac yn eu dadansoddi a'r ffordd yr ydym yn delweddu ac yn cyfleu ein canfyddiadau. | Rydym wrthi'n gweithredu strategaeth a rhaglen waith dadansoddi data tair blynedd. Mae datblygiadau ac allbynnau allweddol yn hanner cyntaf eleni wedi cynnwys:<br>• llunio a defnyddio meddalwedd sy'n dod o hyd i dystiolaeth o'n gwaith yn ymwneud â Brexit a'i thynnu ynghyd yn awtomatig, gan helpu'r tîm archwilio i lunio'i ganfyddiadau;<br>• cyhoeddi offeryn data rhyngweithiol sy'n tynnu ynghyd ystadegau a gwybodaeth arall o gyfres o adroddiadau archwilio am Lesiant pobl ifanc yn un adnodd hawdd ei ddefnyddio;<br>• ymgorffori dangosfwrdd i'n hadroddiad am y Drws blaen i ofal cymdeithasol i oedolion sy'n caniatáu i ddefnyddwyr archwilio a chymharu safbwyntiau gofalwyr a chanlyniadau ein hadolygiad o'r wefan, a hynny ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol;<br>• paratoi Offeryn Data Cyllid GIG Cymru, sy'n cynnwys ystod o wybodaeth am sefyllfa ariannol cyrff GIG Cymru ac yn dangos tueddiadau dros amser; a<br>• llunio offeryn tebyg i ategu ein hadroddiad am Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru.<br>Rydym hefyd wedi cyflwyno cyfyngiadau geiriau ar gyfer pob adroddiad newydd yn rhan o'n hymdrechion i wella rhwyddineb cael gafael arnynt a'u darllen. |

Tudalen y pecyn 214

| Ymrwymiad | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn |
|---|---|
| Rhoi mwy o bwyslais ar farn a safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys grwpiau 'anoddach eu cyrraedd', wrth ystyried effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. | Rydym yn:<br>• datblygu hyfforddiant a chanllawiau cynhwysfawr i staff ar ddulliau o gasglu safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys grwpiau 'anoddach eu cyrraedd';<br>• parhau i ymgysylltu â phobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau a warchodir ar ein blaenraglen waith fel y nodir yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2018-19;<br>• ymgorffori mwy o astudiaethau ac adolygiadau yn ein rhaglen sy'n ystyried, yn fanylach, farn a safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r archwiliadau hyn yn cynnwys:<br>– Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac effeithiolrwydd gwaith partneriaeth;<br>– mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (y disgwylir ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2019); a<br>– Llesiant pobl ifanc. |
| Archwilio'n fanylach effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau integredig a chydweithredol. | Eleni, mae ein rhaglen o waith archwilio yn cynnwys cyfres o brosiectau â'r bwriad i archwilio'n fanylach effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau integredig a chydweithredol. Mae hyn yn cynnwys adolygiadau o:<br>• Drefniadau llywodraethu Bargeinion Dinesig yng Nghaerdydd; Abertawe a Gogledd Cymru;<br>• Y Gronfa Gofal Integredig;<br>• y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion;<br>• Adolygiad o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;<br>• mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; ac<br>• i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithred yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. |

## Cynyddu ein heffaith a'n gwerth

### Gwaith craidd

**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad

Cynnal digwyddiadau **dysgu ar y cyd** i fwy na **1,100** o bobl

Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll** a gwall drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol

Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

## Ymrwymiadau newid

| Ymrwymiad | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn |
|---|---|
| Sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gwbl ymwybodol o ganlyniadau ein gwaith wrth ymgymryd â holl agweddau ei swyddogaeth craffu ar wariant cyhoeddus. | Rydym wedi:<br>• gweithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i nodi cyfleoedd eraill i godi ymwybyddiaeth o gwmpas ein blaenraglen waith a chanlyniadau ein gwaith, gan gynnwys y posibilrwydd o gyflwyno briff i'r Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau;<br>• mynd ati'n fwy rhagweithiol i adolygu Biliau drafft gerbron y Cynulliad a Senedd y DU, ymchwiliadau Pwyllgorau[1] ac ymgynghoriadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, i sicrhau ein bod yn ymateb ym mhob achos lle gallwn gael effaith; a<br>• datblygu meddalwedd mewn partneriaeth â'r Cynulliad Cenedlaethol, sy'n ein galluogi i fonitro a dadansoddi'n rhagweithiol i ba raddau y caiff ein gwaith ei ystyried a'i gyfeirio ato yn nhrafodion Cyfarfod Llawn y Cynulliad a'r Pwyllgorau. |

1 Gan gynnwys Adolygiad y Pwyllgor Cyllid o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

| Ymrwymiad | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn |
|---|---|
| Archwilio ffyrdd newydd a gwahanol o ddylanwadu ar feddwl ac ymddygiad pobl eraill a ffurfio'r ddadl gyhoeddus ehangach. | Rydym wedi:<br>• ymgynghori â chydgysylltydd y Senedd Ieuenctid Cymru sydd newydd ei sefydlu ynghylch y ffyrdd gorau o godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'n gwaith ymhlith ei Aelodau, gan gynnwys yn arbennig y canfyddiadau yn ein hadroddiad ar lesiant pobl ifanc yng Nghymru;<br>• ehangu ein rhaglen hyfforddiant i staff i gynnwys cyfleoedd ychwanegol i ddatblygu sgiliau dylanwadu ac ymgysylltu;<br>• dechrau adolygiad o ymgysylltiad â'n gwaith ymysg gwahanol gynulleidfaoedd â'r nod o adnewyddu ein hunaniaeth sefydliadol a'n brand ac ehangu ein cyrhaeddiad a'n heffaith;<br>• cynnal digwyddiadau arfer da yng ngogledd a de Cymru, gan ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu, trafod, dysgu a rhwydweithio ar draws y sector. |
| Defnyddio dull mwy rhagweithiol o gefnogi cyrff cyhoeddus Cymru yn eu hymgyrch yn erbyn twyll a llygredd. | Rydym wedi:<br>• cynnal[2] seminarau Arfer Da 'Gweithio mewn partneriaeth i frwydro yn erbyn twyll' sy'n ceisio rhannu technegau ymchwilio a gwybodaeth ac archwilio'r defnydd o ddadansoddi data wrth atal a chanfod twyll;<br>• cyhoeddi trosolwg i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o'r Trefniadau atal twyll yn sector Cyhoeddus Cymru i ddilyn ein hadroddiad yn crynhoi canfyddiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru;<br>• cefnogi'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystod y misoedd diwethaf i gyflwyno gweithdy rhanddeiliaid ar atal twyll, a chyflwyno i'r Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Llywodraeth Leol ar ganlyniadau a buddion y Fenter Twyll Genedlaethol. |


2 Gyda chymorth a chyfraniad gan Wasanaeth Atal Twyll y GIG, Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Rhedeg y busnes


### Gwaith craidd




Pennu'r gyllideb gyffredinol o **£21 miliwn** a chodi ffioedd am waith archwilio



Cyflogi tua **270 o staff** a rheoli ystod amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth



Darparu **arweinyddiaeth gadarn** ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau



**Monitro'r** modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhoi cyngor iddo

## Ymrwymiadau newid

| Ymrwymiad | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn |
|---|---|
| Cyflwyno ffyrdd newydd a mwy craff o weithio i helpu i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon a gallu addasu i newid mewnol ac allanol. | Rydym wedi dechrau gwaith:<br>• i ddatblygu Strategaeth Ystadau i wneud y defnydd gorau o’n gofod swyddfa a chefnogi ffyrdd newydd a mwy hyblyg o weithio;<br>• i ailstrwythuro ein timau archwilio ariannol i gefnogi cyflawniad ein rhaglen waith yn y dyfodol yn well a datblygu gwaith tîm mwy integredig;<br>• i gyfuno cynlluniau adnoddau presennol yn un cynllun lefel uchel i ddarparu’r holl brosiectau archwilio. |

Tudalen y pecyn 218

| Ymrwymiad | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn |
|---|---|
| Gwella a chyfoethogi ein rheolaeth fewnol o wybodaeth a data. | Rydym wedi:<br>• gweithredu system rheoli data cwmwl newydd sy'n cefnogi prosesau dadansoddi data a rhannu gwybodaeth sy'n fwy effeithlon ac effeithiol;<br>• cyflymu ein gwaith archifo a difa papurau a chofnodion electronig, gan gynnwys trwy ddarparu canllawiau a hyfforddiant diwygiedig ar gyfer yr holl berchnogion asedau gwybodaeth; a<br>• datblygu systemau symlach i gasglu, dadansoddi a chofnodi ein gwybodaeth rheoli gan gynnwys trwy adroddiadau rhyngweithiol am ein dangosyddion perfformiad allweddol, risgiau strategol ac ymrwymiadau newid ar gyfer ein Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'n Bwrdd. |
| Adnewyddu ein strwythur a'n prosesau arwain a rheoli i sicrhau eu bod yn gyson â'n huchelgeisiau. | Rydym wedi:<br>• cyfuno rhaglenni gwaith tri o'n pwyllgorau rheoli blaenorol yn Dîm Cyfarwyddwyr sefydledig i sicrhau arweiniad strategol, cyson a chydgysylltiedig;<br>• ailsefydlu ein Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ag aelodau newydd, gan gynnwys Aelod Gyflogeion i sicrhau bod ystod ehangach o safbwyntiau a dirnadaeth yn llywio ein prosesau gwneud penderfyniadau corfforaethol; a<br>• chynnal cyfres o grwpiau ffocws pan wahoddwyd yr holl staff i gynnig awgrymiadau a chynigion ar gyfer y ffordd orau o gyflawni ein huchelgeisiau newydd. |


# Dangosyddion perfformiad allweddol

Crynhoir isod y sefyllfa ar 30 Medi 2019 o ran cyflawni ein 20 o dargedau dangosyddion perfformiad allweddol.


Pan fo'n briodol, rydym yn asesu ein lefel perfformiad ar sail flynyddol dreigl. Ar gyfer mesurau perfformiad pan fo hyn yn berthnasol, mae'r ffigurau yn disgrifio ein perfformiad ar gyfer y cyfnod o 1 Hydref 2018 hyd 30 Medi 2019.




Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw



Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo



Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol



Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

Tabl yn rhestru'r dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â'n tri uchelgais cyntaf.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad hyd at 30 Medi |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Yn brydlon | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol wedi'u cyflawni'n brydlon. | 95% | **92%** |
| 2 | Adroddiadau cenedlaethol | Nifer o adroddiadau cenedlaethol wedi'u cyhoeddi. | 18 | **24** |
| 3 | Argymhellion a dderbyniwyd | Cyfran yr argymhellion neu gynigion ar gyfer gwella a dderbyniwyd yn llawn i'w gweithredu gan gyrff a archwiliwyd. | 90% | **99%** |
| 4 | Arbedion a nodwyd | Gwerth arbedion posibl a nodwyd trwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2018-2021 | **£17.7 miliwn** |
| 5 | Gwneud gwahaniaeth | Canran y sgôr gadarnhaol i'r arolwg rhanddeiliaid o ran y canfyddiad o ba mor dda yr ydym yn cyflawni amcanion yr Archwilydd Cyffredinol. | 85% | **89%** |
| 6 | Nifer y bobl sy'n bresennol mewn digwyddiadau arfer da | Nifer y bobl sy'n bresennol yn ein seminarau a'n gweminarau dysgu ar y cyd. | 1,100 y flwyddyn | **1,307** |
| 7 | Bodlonrwydd â digwyddiadau arfer da | Cyfran y bobl a aeth i'n digwyddiadau cyfnewid arferion da a farnodd fod y digwyddiadau yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn ar y cyfan. | O leiaf 90% | **92%** |
| 8 | Ymweliadau â'r wefan – cyfran | Cyfran yr ymweliadau â'r wefan a arweiniodd at gyflawni o leiaf un cam, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | O leiaf 50% | **38%** |
| 9 | Ymweliadau â'r wefan – nifer | Nifer yr ymweliadau â'r wefan a arweiniodd at gyflawni o leiaf un cam. | 30,000 | **21,431** |
| 10 | Trin gohebiaeth | Nifer yr achosion pan na roddwyd ymateb llawn neu dros dro i bryderon ynghylch gwariant cyhoeddus a godwyd trwy ohebiaeth o fewn 30 diwrnod gwaith i'r pryder ddod i law. | Dim | **1 o 41** |

Wedi cyflawni ein targed · Yn agos at gyrraedd ein targed · Mae angen gwelliant · Mae angen gwelliant sylweddol

| Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw | Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo | Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol | Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt |
|---|---|---|---|

## Tabl yn rhestru'r dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â'n pedwerydd uchelgais o fod yn sefydliad sy'n esiampl dda i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad hyd at 30 Medi |
|---|---|---|---|---|
| 11 | Ymgysylltu â chyflogeion | Canran y sgôr mynegai ymgysylltu cadarnhaol yn yr arolwg staff blynyddol (wedi'i alinio ag Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil).[3] | | |
| 12 | Profiad cyflogeion | Canran y sgoriau thematig cadarnhaol i'r arolwg staff blynyddol. | | |
| 13 | Absenoldeb oherwydd Salwch | Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gollwyd i bob aelod o staff y flwyddyn. | Llai na 6 diwrnod | **5.2** |
| 14 | Balans ariannol | Lefel yr amrywiant mewn gwariant gros o hwnnw a nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2019-20. | O fewn 2% o'r gyllideb | **0.01%** |
| 15 | Taliadau cyflenwyr | Cyfran y cyflenwyr a delir o fewn deng niwrnod gwaith i'r anfoneb ddod i law. | O leiaf 90% | **84%** |
| 16 | Arbedion ac effeithlonrwydd cost | Gwerth yr arbedion ac effeithlonrwydd cost a nodir drwy gydol y busnes. | £574,000 | **£574,000[4]** |
| 17 | Effeithlonrwydd yr ystâd | Costau gan gynnwys rhent ac ardrethi fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn. | Llai na £3,300 | **3,425** |
| 18 | Darpariaeth Gymraeg | Nifer y cwynion a gafwyd ac a gymeradwywyd ynghylch ein darpariaeth Gymraeg. | 0 | **0** |
| 19 | Rheoli'r amgylchedd | Lefel achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Groundwork Cymru. | 5 | **5** |
| 20 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ cyfwerth o ffynonellau sy'n eiddo i ni neu yr ydym ni'n eu rheoli, yn sgil defnydd trydan a brynwyd, neu a gynhyrchwyd yn anuniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgareddau. | Llai na 450 tunnell | **385** |

Wedi cyflawni ein targed · Yn agos at gyrraedd ein targed · Mae angen gwelliant · Mae angen gwelliant sylweddol

3 Cynhaliwyd yr arolwg staff diwethaf ym mis Hydref 2018 a chyhoeddwyd y canlyniadau yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon; caiff ei gynnal eto ym mis Tachwedd 2019 a chaiff y canlyniadau eu cyhoeddi yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2019-20.

4 Mae hwn yn ffigur a ragwelir adeg cyhoeddi, ni fydd yr union ffigur yn hysbys tan fis Tachwedd 2019.

# Atodiad 1 – Gwaith archwilio lleol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio cyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Tabl yn rhestru'r cyrff cyhoeddus a archwiliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn dangos y mathau o waith lleol a wnaed yn y cyrff hynny.

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[1] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 8 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[2] |
| Awdurdod Refeniw Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 4 o gwmnïau Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 8 Comisiynydd, Arolygiaeth a Rheoleiddiwr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 o Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[3] |
| 22 o Gynghorau (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a 4 Prif Gwnstabl | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa Bensiwn | ✓ | | |
| Nifer o gyrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cydbwyllgorau, ardaloedd draenio mewnol ac awdurdodau harbwr | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[4] | | |

Nodiadau:

1 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Mae gwaith archwilio perfformiad sydd wedi'i gynnal yn y sector hwn yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol ar hyn o bryd.

2 Dim ond ar gyfer cyrff a restrir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3 Dim ond ar gyfer cyrff a restrir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4 Ar sail sicrwydd cyfyngedig.

# Atodiad 2 – Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau cryno o'r canfyddiadau o waith archwilio lleol ar draws cyrff y GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol. Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion pryder y cyhoedd a nodir trwy ein gwaith archwilio neu a godwyd mewn gohebiaeth â'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r allbynnau o lawer o'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a phwyllgorau eraill y Cynulliad. Mae rhagor o wybodaeth am ein rhaglen archwiliadau ac astudiaethau ar gael ar ein gwefan.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r gwaith sy'n mynd rhagddo, ynghyd â gwaith a gwblhawyd neu a gwblhawyd i raddau helaeth ar 30 Medi 2019. Mae Cynllun Blynyddol 2019-20 yn cynnwys astudiaethau eraill nad ydynt wedi'u dechrau hyd yma.

### Gwaith sy'n mynd rhagddi

- Codio clinigol y GIG
- Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Llesiant cenedlaethau'r dyfodol
- Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol
- Rhaglen cael gwared ar asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd – BIP Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (cam 2)
- Trefniadau llywodraethu ansawdd yng nghyrff y GIG
- Gwasanaethau orthopedig
- Masnacheiddio mewn awdurdodau lleol
- Effaith cyni ar wasanaethau dewisol awdurdodau lleol
- Rheolaeth Llywodraeth Cymru o gyllid Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
- Trefniadau atal twyll yn sector cyhoeddus Cymru

### Gwaith a gwblhawyd neu a gwblhawyd i raddau helaeth

- Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol
- Offeryn data cyllid y GIG
- Trefniadau atal twyll yn sector cyhoeddus Cymru (trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus)
- Y Gronfa Gofal Integredig
- Drws blaen i ofal cymdeithasol
- Llesiant pobl ifanc
- Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit heb gytundeb (gwaith dilynol)
- Tueddiadau gwariant cyhoeddus yng Nghymru
- Tlodi tanwydd
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (cam 1)
- Gwella ffordd yr A465 (Rhan 2) – canfyddiadau interim
- Gwasanaethau gofal sylfaenol

# Atodiad 3 – Cefnogi gwaith craffu effeithiol ac atebolrwydd

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Cynulliad

Mae ein gwaith yn parhau i chwarae rhan allweddol mewn cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth iddo ystyried y defnydd o adnoddau a chyflawniad swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod adrodd interim cefnogodd allbynnau ein gwaith 11 o gyfarfodydd y Pwyllgor, gan gynnwys sesiynau tystiolaeth ar Wasanaethau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau, Rheoli Gwastraff, Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru, rheoli cleifion allanol, effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol a'r Gronfa Gofal Integredig.

Mae ein gwaith hefyd wedi llywio gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol sydd â chylch gwaith ehangach sy'n cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig. Yn ystod y chwe mis diwethaf mae hyn wedi cynnwys y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn ystyried papur dilynol ar y Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'.

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Trwy gydol y cyfnod adrodd interim rydym wedi parhau i fynychu rhan fwyaf cyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu y prif gyrff yr ydym yn eu harchwilio, gan ddarparu sesiynau briffio ac adroddiadau rheolaidd ar ein gwaith archwilio ynghyd â chyngor a chymorth i gryfhau effeithiolrwydd y drefn lywodraethu.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

Rydym yn derbyn gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. Yn ystod y cyfnod adrodd interim rydym wedi derbyn 41 darn o ohebiaeth o'r fath ac wedi sicrhau ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny yn brydlon ac mewn modd teg, cymesur a phroffesiynol. Hefyd, cysylltodd 11 o unigolion â ni rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2019 yn nodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban.

# Atodiad 4 – Gwaith arfer da

Pwyslais allweddol ein gwaith arfer da yw hwyluso sgyrsiau rhwng darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau lle rhennir y gwersi o'n gwaith archwilio ac o'u llwyddiannau a methiannau cymharol â phobl yn yr ystafell. Yn gynyddol, rydym yn cyflwyno safbwyntiau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr byd-eang yn y trafodaethau hyn.

Mae ein rhaglen o seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd yn hyblyg ac ychwanegir pynciau eraill yn ystod y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth am ein Rhaglen o waith arfer da, ar gael ar ein gwefan.

Tabl yn rhestru'r seminarau a'r gweminarau dysgu ar y cyd a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd interim.

| Pwnc | Digwyddiad [5] |
|---|---|
| Cydweithio mewn partneriaeth i atal twyll yng Nghymru (mewn partneriaeth â CIPFA Cymru) | Seminar |
| Trefniadau archwilio mewnol mewn Cynghorau Tref a Chymuned – rhannu gwersi o'n hadolygiad o drefniadau archwilio mewnol | Gweminar |
| Materion allweddol ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol | Gweminar |
| Dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau gwledig | Seminar |
| Diogelu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer y dyfodol | Gweminar |
| Gwneud 'Cymru Gyfartal' yn realiti | Seminar |

5 Darperir ein seminarau mewn dau leoliad, yng Nghaerdydd a Llanrwst.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-28-19 P5

Hydref 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Amcangyfrif o Incwm a Threuliau'r Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben ar 31 Mawrth 2021

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Paratowyd ar y cyd a gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 20(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2019

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Isobel Everett**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

# Rhagymadrodd

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn peri iddi fod yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi ar y cyd amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.

Yn unol ag adran 20 o'r Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif drafod (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau sydd eu hangen ar yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol wneud addasiadau i'r amcangyfrif fel y gwêl yn dda, ond ni all wneud unrhyw addasiadau oni bai ei fod:

- wedi ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru;
- wedi ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan y naill neu'r llall.

Bob blwyddyn, rhaid i Weinidogion Cymru gynnig cynnig yn y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau a ddefnyddir (gan gynnwys adnoddau cronnus) a'r taliadau i'w gwneud gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau i'w cynnwys mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys Cynllun Ffioedd drafft a baratowyd o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i'w ystyried ochr yn ochr â'r Amcangyfrif gan eu bod yn ddibynnol ar ei gilydd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 5 |
| Gwerth am arian yn Swyddfa Archwilio Cymru | 8 |
| Cost archwilio cyhoeddus yng Nghymru | 8 |
| Fframwaith Gwerth am Arian – Doethach, Symlach, Gwell | 9 |
| Cyllideb 2020-21 | 10 |
| Uchelgeisiau ein cynllun blynyddol | 10 |
| Trosolwg ar dreuliau ac incwm 2020-21 | 11 |
| Ariannu ein gwaith - Cronfa Gyfunol Cymru 2020-21 | 20 |
| Newidiadau i'n galwadau ar y Gronfa rhwng 2019-20 a 2020-21 | 20 |
| Sut y byddwn yn defnyddio arian y Gronfa tuag at ein costau refeniw | 21 |
| Buddsoddi cyfalaf | 30 |
| Newidiadau posibl i'r gyllideb hon | 32 |
| Cwmpas cyllideb 2020-21 | 34 |
| **Atodiadau** | |
| Atodiad 1 – Datganiad o egwyddorion | 36 |
| Atodiad 2 – Cynllun Ffioedd drafft 2020-21 | 37 |

# Rhagair

Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n bodoli i roi hyder i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i bobl Cymru fod y sector cyhoeddus yn atebol ac yn perfformio at safon uchel. Ar adeg pan fo ymddiriedaeth y cyhoedd mewn llywodraeth, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn edwino, mae ein gwaith yn bwysicach nag erioed i ddiogelu uniondeb democratiaeth ddatganoledig Cymru.

Mae ein rhaglen eang o waith gwerth am arian yn hollbwysig i atebolrwydd seneddol cadarn drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. Rydym yn archwilio cyfrifon a threfniadau llywodraethu dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru gan ddarparu'r prif gyfrwng o gael sicrwydd am y ffordd y mae arian cyhoeddus yn cael ei reoli yng Nghymru. O Lywodraeth Cymru ei hun i'r cyngor cymuned lleiaf, drwy bron i bob maes lle darperir gwasanaethau cyhoeddus, gall yr Archwilydd Cyffredinol ddilyn y bunt gyhoeddus lle bynnag y caiff ei gwario.

Mae cyfanswm cost flynyddol rhoi'r sicrwydd a'r mewnwelediad annibynnol hwn yn gyfwerth ag ychydig dros un geiniog am bob £10 sy'n cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn 2020-21, byddwn yn costio llai i'r pwrs cyhoeddus na'r flwyddyn gyfredol.

Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn brawf nas gwelwyd ei fath o'r blaen i'r Cynulliad Cenedlaethol, i Lywodraeth Cymru ac i sector cyhoeddus ehangach Cymru. Mae cynaliadwyedd ariannol yn risg real iawn sy'n cynyddu i rai cyrff cyhoeddus. Mae gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau cynyddol i ymateb i newidiadau cymdeithasol a demograffig, datblygiadau technolegol cyflym, newid hinsawdd, newidiadau i systemau ariannu, a modelau llywodraethu mwy cymhleth fel partneriaethau Bargen Ddinesig. Ac, wrth i gymdeithas a thechnoleg newid, mae risgiau newydd yn codi o ran twyll a llygredd.

Ar yr un pryd, mae'r proffesiwn archwilio ei hun dan y chwyddwydr. Ar ôl nifer o fethiannau corfforaethol amlwg yn y sector preifat a phryderon am ddigonolrwydd trefniadau archwilio cyhoeddus lleol Lloegr, mae adolygiadau annibynnol wedi argymell yn ddiweddar y dylid cryfhau ansawdd, annibyniaeth, cwmpas a disgwyliadau archwiliadau. Mae llawer o'r argymhellion hyn eisoes ar waith ym model archwilio cyhoeddus presennol Cymru, ond nid ydym yn hunanfoddhaus. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni archwiliadau annibynnol a thrwyadl o ansawdd uchel ac ar wella ein gweithrediadau ein hunain yn barhaus.

Yn 2018, penodwyd Archwilydd Cyffredinol newydd. Ers hynny, mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, a'r sefydliad cyfan, wedi ymrwymo ar y cyd i wireddu ein potensial llawn i gynorthwyo'r Cynulliad Cenedlaethol i ddwyn y llywodraeth i gyfrif dros y modd y mae'n gwario arian cyhoeddus ac i hybu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus. Hwn yw'r cyfle cyntaf i'r Archwilydd Cyffredinol newydd a'r Bwrdd gyflwyno Amcangyfrif sy'n seiliedig ar y weledigaeth honno a'n huchelgeisiau, sef:

- manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, ein dealltwriaeth graff a'n safbwynt unigryw;
- cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo;
- dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol;
- dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'n darparu ar gyfer **gostyngiad** cyffredinol o 2.5% mewn termau real yng nghyfanswm cyllideb Swyddfa Archwilio Cymru, ac eithrio cost y Fenter Twyll Genedlaethol bob yn ail flynedd.

Rydym yn ymwybodol iawn bod arnom gyfrifoldeb o ran rhannau eraill o'r sector cyhoeddus i gyfyngu ar ein costau gweithredol a'r ffioedd a godir gennym, ar yr amod nad yw hyn yn peryglu ansawdd ein harchwiliadau a'r sicrwydd y gallwn ei roi. Mae'r Amcangyfrif hwn yn disgrifio ein rhaglen gwerth am arian, Doethach, Symlach, Gwell, a'r cyfleoedd i barhau i arbed costau ac i wneud arbedion effeithlonrwydd yn ein model busnes dros y blynyddoedd i ddod. Gan adeiladu ar yr arbedion sylweddol a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol, ein targed ar gyfer 2020-21 yw arbed £476,000 – bydd hon yn gryn her inni.

Mae bron i ddau draean o'n hincwm blynyddol o £22 miliwn yn deillio o'r ffioedd a godir ar y cyrff cyhoeddus a archwilir. Dros y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi gostwng ffioedd y rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus hyn mewn termau real.

Bydd y Pwyllgor Cyllid yn gyfarwydd â diffyg hyblygrwydd y drefn statudol bresennol o'n hariannu. Mae'n cyfyngu'n sylweddol ar allu'r Archwilydd Cyffredinol i ailgyfeirio unrhyw gapasiti a ryddheir gan arbedion effeithlonrwydd yn ein gweithgareddau ennill ffioedd i fathau eraill o waith archwilio.

I oresgyn y diffyg hyblygrwydd hwn yn rhannol, rydym yn cynnig symud tua 1% o'r adnodd o incwm ffioedd i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru. O drosglwyddo £180,000 o'r naill ffynhonnell ariannu i'r llall, bydd modd inni barhau i ostwng y ffioedd blynyddol a godir ar gyrff cyhoeddus drwy gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig o ran archwiliadau, gan gadw'r capasiti a'r arbenigedd archwilio. Byddwn yn defnyddio'r capasiti arbenigol hwn i roi sicrwydd a mewnwelediad i'r Cynulliad Cenedlaethol ac eraill na fyddai modd inni ei roi fel arall, a hynny ar sail ein gwaith cyfrifon blynyddol. Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw gynnydd net i'n costau na'n cyllid i gyflawni hyn.

Yn ychwanegol at y symudiad hwn, byddwn yn defnyddio'r adnoddau refeniw a chyfalaf ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru at y dibenion hyn:

- buddsoddi yn ein capasiti a'n galluoedd digidol i ehangu ein gwaith cynnar o ran dadansoddeg data yn bennaf, gan arwain at arbedion mwy hirdymor ac effaith gynyddol, ac i gryfhau ein trefniadau seiberddiogelwch;
- ehangu ein cynlluniau uchel eu bri ar gyfer graddedigion a phrentisiaid.

I wneud hyn, rydym yn ceisio cynnydd o £615,000[1] yn y cyllid yr ydym yn ei gael o Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd ein hincwm ffioedd £711,000 yn is, felly bydd cost archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn is y flwyddyn nesaf na'r gost eleni.

Rydym yn ymhelaethu ar ein cynlluniau a'n cynigion ariannu drwy'r ddogfen hon. Fe'i lluniwyd yn unol â'r Datganiad o egwyddorion[2] a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Mai 2019 a'r briff dilynol a ddarparwyd gan y Pwyllgor i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ym mis Gorffennaf 2019.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn amlinellu'r hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ym mis Mawrth eleni, gosodwyd Cynllun Blynyddol 2019-20 gerbron y Cynulliad. Mae'r Amcangyfrif hwn yn sicrhau arian ar gyfer blaenoriaethau 2020-21, a byddwn yn gosod ein Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2020.

Rydym yn edrych ymlaen at drafod ein Hamcangyfrif â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad.



**Isobel Everett**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 Gweler arddangosyn 5
2 Gweler Atodiad 1


# Gwerth am arian yn Swyddfa Archwilio Cymru

## Cost archwilio cyhoeddus yng Nghymru

1 Ers sefydlu Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013-14, byddwn wedi lleihau cost archwilio cyhoeddus yng Nghymru 13% mewn termau real[3]. Dangosir hyn yn Arddangosyn 1. Byddwn wedi cynhyrchu dros £16 miliwn o arbedion cronnus dros y blynyddoedd hyn.

2 Rydym wedi lleihau'r gwariant er inni ddyrannu adnoddau ychwanegol i feysydd gwariant newydd yn ystod y cyfnod, megis cynnal Astudiaethau Ymchwiliol, cynyddu gwaith ein Cyfnewidfa Arfer Da, buddsoddi mewn cynllun hyfforddi graddedigion, a buddsoddi mewn gweithgarwch i drawsnewid y sefydliad.

Arddangosyn 1 – cost archwilio cyhoeddus 2013-14 i 2019-20




3 Yn unol ag Amcangyfrif 2020-21, mae'n ofynnol inni arbed £476,000 i fantoli'r gyllideb. Isod, rydym yn nodi'r fframwaith a ddefnyddir gennym i bennu'r arbedion hyn.

3 Yn seiliedig ar y datchwyddwyr cynnyrch domestig gros (GDP) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mehefin 2019.

# Fframwaith Gwerth am Arian – Doethach, Symlach, Gwell

## Ein pobl

- Paru adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru â'i huchelgeisiau
- Ailfodelu'r gweithlu a'r cymysgedd sgiliau
- Modelu cyflenwad/galw
- Adolygu'r gwasanaethau cymorth a'r dull o gyflawni archwiliadau

**Arbedion hyd yma**[4] (£967,000)

- Cynyddu'r defnydd o hyfforddeion graddedig £178,000
- Lleihau nifer y Cyfarwyddwyr £587,000
- Lleihau'r gwariant ar gontractwyr £100,000
- Adolygiad 2015 o'r gwasanaethau corfforaethol £102,000

**Potensial yn y dyfodol**

- Diweddaru'r cynlluniau adnoddau ar gyfer gwaith archwilio
- Paru'r gwaith yn agos â'r uchelgeisiau
- Cynllunio'r gweithlu'n strategol

## Lleoedd

- Gweithio doethach – swyddfeydd a theithio
- Strategaeth ystadau
- Effeithlonrwydd adeiladau
- Cynllun teithio a chynhaliaeth
- Gwaith a hwylusir gan TG

**Arbedion hyd yma** (£132,000)

- Arbed 10% o'r costau teithio yn sgil adolygiad 2016 £120,000
- Cyfyngu ar y costau teithio er inni gyflawni gwaith cwmnïau'n fewnol
- Gostwng costau teithio drwy fuddsoddi mewn fideogynadledda/Skype
- Arbedion yn sgil symud swyddfa'r Gogledd £12,000

**Potensial yn y dyfodol**

- Arbed costau drwy'r prosiect Ffyrdd o Weithio
- Adolygu'r strategaeth ystadau

Arbedion o ran amser

## Prosesau

- Gwaith a hwylusir gan ddata a digidol
- Gweithio doethach – systemau a phrosesau angenrheidiol, effeithlon ac effeithiol
- Adolygiad y Cynulliad o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf)
- Rhaglen newid gorfforaethol
- Adnoddau integredig

**Arbedion hyd yma**

- Arbedion effeithlonrwydd yn y system treuliau
- Arbedion effeithlonrwydd o ran adroddiadau llywodraethu

**Potensial yn y dyfodol**

- Adolygu'r Ddeddf
- Arbedion effeithlonrwydd archwilio drwy Ddadansoddeg Data
- Adolygu prosesau'n barhaus
- Rhaglen newid gorfforaethol
- Adleoli adnoddau integredig

## Caffael

- Caffael costeffeithiol
- Cyflawni gwaith cwmnïau'n fewnol

**Arbedion hyd yma** (£785,000)

- Cyflawni gwaith cwmnïau'n fewnol yn 2016 £640,000
- Archwilio mewnol a'r gyflogres dan gontract allanol £75,000
- Systemau TG £70,000

**Potensial yn y dyfodol**

- Terfynu contractau'r cwmnïau yn 2020
- Adolygu'r defnydd o fframweithiau caffael

4 Arbedion blynyddol a bennwyd ers 2013

# Cyllideb 2020-21

## Uchelgeisiau ein cynllun blynyddol

4 Mae Cynllun Blynyddol 2019-20 yn nodi'r uchelgeisiau a ganlyn ar gyfer gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r cyllid y bydd ei angen arnom ar gyfer 2020-21 er mwyn inni gyflawni'r uchelgeisiau hyn.

### Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw

- Cryfhau natur rymus ein dealltwriaeth unigryw drwy weithio mewn tîm a rhannu gwybodaeth mewn ffordd fwy integredig.
- Chwilio'n rhagweithiol am synergeddau a thueddiadau yn y wybodaeth sydd gennym.
- Canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ac a wnaiff y gwahaniaeth mwyaf i gyrff cyhoeddus a'r cyhoedd.

### Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo

- Dod â thystiolaeth a sylwebaeth ddibynadwy i'r amlwg ar y materion cywir ar yr adeg gywir.
- Sicrhau ein bod yn cyflwyno'r ffeithiau'n glir ac yn egluro'n gryno pam ein bod wedi dod i gasgliad neu ddehongliad penodol.
- Bod yn effro ac yn ymatebol i gyfleoedd newydd i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth archwilio lle gall ychwanegu gwerth.

### Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol

- Canolbwyntio tuag allan mewn ffordd amlwg ac ymgysylltu mewn ffordd sy'n berthnasol i ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Dylanwadu ar ffordd o feddwl ac ymddygiad eraill a llywio'r ddadl gyhoeddus ehangach.
- Ceisio a gwrando ar syniadau a meddyliau y tu hwnt i Gymru a'r sector cyhoeddus.

### Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

- Gan ein bod yn arddel barn archwilio ar eraill, sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn rydym yn cynghori eraill i wneud.
- Darparu arweinyddiaeth glir, gyson a dilys a gwneud penderfyniadau'n gyflymach.
- Grymuso pobl drwy'r sefydliad i feddwl am syniadau newydd a gwneud newid cadarnhaol.

## Trosolwg ar dreuliau ac incwm 2020-21

5 Rydym wedi defnyddio'r un fformat ar gyfer ein Hamcangyfrif a'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon i'w gwneud yn haws darllen ein cynlluniau gwario a'n halldro gwirioneddol ochr yn ochr â'i gilydd.

6 Mae cyfanswm y gwariant a gynlluniwyd ar gyfer 2020-21 yn is mewn termau arian parod na'r flwyddyn ariannol gyfredol – ac mae'n gyfwerth â gostyngiad o 1.9% mewn termau real. O hepgor cost gylchol y Fenter Twyll Genedlaethol, bydd ein gwariant y flwyddyn nesaf 2.5% yn is mewn termau real.


## Arddangosyn 2 – treuliau ac incwm 2020-21

| Treuliau | Amcangyfrif 2020-21 £'000 | Amcangyfrif[5] 2019-20 £'000 | Cynnydd/ (Gostyngiad) £'000 |
|---|---|---|---|
| Costau staff | 16,504 | 15,917 | 587 |
| Staff dan gontractau tymor byr | 311 | 737 | (426) |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,205 | 1,216 | (11) |
| Swyddfeydd | 940 | 993 | (53) |
| Cwmnïau'r sector preifat | 598 | 905 | (307) |
| TAW na ellir ei adennill | 500 | 500 | - |
| TGCh | 546 | 480 | 66 |
| Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | 300 | 300 | - |
| Hyfforddiant allanol | 289 | 289 | - |
| Cyfieithu | 145 | 165 | (20) |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 180 | 162 | 18 |
| Dibrisiant | 280 | 280 | - |
| Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | 675 | 739 | (64) |
| Targed arbedion | (476) | (540) | 64 |
| **CYFANSWM** | **21,997** | **22,143** | **(146)** |
| Costau cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | 130 | - | 130 |
| **Cyfanswm treuliau** | **22,127** | **22,143** | **(16)** |


5 Yn unol â Memorandwm y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad ar 15 Mai 2019

| Incwm | Amcangyfrif 2020-21 £'000 | Amcangyfrif 2019-20 £'000 | Cynnydd/ (Gostyngiad) £'000 |
|---|---|---|---|
| Ffioedd archwilio | 12,135 | 12,377 | (242) |
| Archwilio Cronfeydd Amaethyddol yr UE | 759 | 900 | (141) |
| Ffioedd ardystio grantiau | 870 | 1,198 | (328) |
| **CYFANSWM INCWM** | **13,764** | **14,475** | **(711)** |
| | | | |
| **Cyfanswm i'w ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru** | **8,363** | **7,668** | **695** |

Arddangosyn 3 – dadansoddiad o dreuliau 2020-21



Arddangosyn 4 – dadansoddiad o incwm 2020-21




## Egluro'r prif feysydd treuliau

### Costau staff £16.5 miliwn (77% o'r gwariant)

7 Mae'r rhan fwyaf o'n treuliau'n ymwneud â chost cyflogi ein staff. Mae cyllideb 2020-21 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer 274 swydd cyfwerth ag amser llawn. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru[6] rydym wedi cynnwys cynnydd dangosol o 2% yn y gyllideb ar sail setliad tâl disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2020.

8 Rydym yn disgwyl cynnydd bach yng nghyfanswm y staff o'i gymharu â 2019-20 sy'n adlewyrchu cymysgedd symlach a mwy costeffeithiol o staff/graddau, estyniad i'n rhaglen hyfforddi graddedigion a'n rhaglen brentisiaethau uchel eu parch, a rhywfaint o gapasiti arbenigol ar gyfer ein prosiect Dadansoddeg Data ac i fodloni ein gofynion seiberddiogelwch. Rydym yn defnyddio llai o staff ar gontractau tymor byr wrth inni recriwtio mwy o hyfforddeion a phrentisiaid.

6 Llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf 2019 gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

## Teithio a chynhaliaeth £1.2 miliwn (6% o'r gwariant)

9 Mae cyllideb 2020-21 yn dangos gostyngiad bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd ein bod yn disgwyl teithio llai yn sgil ein prosiect Ffyrdd o Weithio.

10 Rydym yn disgwyl gwireddu arbedion pellach a fydd yn cyfrannu at ein targed arbedion cyffredinol wrth inni fynd ati i roi argymhellion y prosiect trawsnewid 'Ffyrdd o Weithio' ar waith yn llwyr. O wneud hyn, mae'n debygol y bydd mwy o'n staff yn gweithio o bell neu o 'hybiau archwilio' yn hytrach na theithio bob dydd i safleoedd cleientiaid.

11 Byddwn yn cynnal adolygiad gwerth am arian o'n cynllun teithio erbyn diwedd y flwyddyn hon. Gyda chytundeb Pwyllgor Cyllid y Cynulliad, rydym wedi penodi ein harchwilwyr allanol, RSM UK LLP, i gynnal yr adolygiad hwn.

## Swyddfeydd £0.9 miliwn (4% o'r gwariant)

12 Ar hyn o bryd, mae gennym dair swyddfa: yng Nghaerdydd, Abergele ac Abertawe – bydd prydlesi'r tair swyddfa'n dod i ben rhwng 2021 a 2025. Rydym yn diweddaru ein Strategaeth Ystadau, gan ystyried canfyddiadau ein prosiect Ffyrdd o Weithio, i bwyso a mesur yr atebion gorau ar gyfer ein gofynion yn y dyfodol.

## Cwmnïau'r sector preifat £0.6 miliwn (3% o'r gwariant)

13 Ar ôl ystyried arfarniad o'r opsiynau a'r achos busnes mewn manylder, cytunodd y Bwrdd ym mis Ionawr 2019 na fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni gwaith archwilio drwy gontractau allanol â chwmnïau yn y sector preifat mwyach. Bydd y contractau presennol yn dod i ben yn yr hydref 2020 ac yna bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru'n ymgymryd â'r gwaith. Ni fydd y newid yn lleihau ansawdd y gwaith archwilio mewn unrhyw ffordd a bydd yn gyfle i wireddu buddion eraill, gan gynnwys:

- lleihau costau i sicrhau bod modd i Swyddfa Archwilio Cymru gyflawni ei strategaeth a'i chynllun ariannol tymor canolig;
- yn unol ag egwyddorion cynllunio'r gweithlu, osgoi dileu swyddi staff Swyddfa Archwilio Cymru (a'r costau cysylltiedig) os byddwn, yn ôl y disgwyl, yn colli'r incwm a geir o archwilio cronfeydd amaethyddol yr UE ac ardystio grantiau Llywodraeth Cymru;
- osgoi costau rheoli contractau a datrys anghydfodau;
- creu'r potensial i ddarparu gwasanaeth mwy pwrpasol i'r cyrff a archwilir, er enghraifft drwy ein darpariaeth Gymraeg;
- ein galluogi i gefnogi gwelliant strategol o ran rheolaeth ariannol y sector cynghorau tref a chymuned.

14 Ar hyn o bryd, nid ydym yn disgwyl y bydd angen ymgymryd ag unrhyw recriwtio helaeth gan fod disgwyl i'r gwaith ychwanegol hwn gyd-daro â diwedd ein gwaith presennol i archwilio cronfeydd amaethyddol yr UE yn 2020-21[6].

### TGCh £0.5 miliwn (2% o'r gwariant)

15 Rydym yn bwriadu gwario £546,000 ar TGCh yn 2020-21, a hynny'n bennaf ar drwyddedau meddalwedd (gan gynnwys Microsoft Office a systemau craidd) a rhentu llinellau ffôn ar gyfer ein seilwaith TGCh.

16 Mae ein gwariant ar TGCh yn cynyddu wrth inni wneud defnydd cynyddol o feddalwedd dadansoddeg arbenigol ac ymateb i'r gofynion cynyddol i wella seiberddiogelwch.

### Treuliau eraill

17 Fel y nodir yn Arddangosyn 2, rydym yn ysgwyddo treuliau eraill amrywiol i gynnal Swyddfa Archwilio Cymru, fel hyfforddiant allanol, ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol (gan gynnwys ein harchwilwyr mewnol ac allanol), cyfieithu i'r Gymraeg, dibrisiant ein hasedau cyfalaf, a'r costau sydd ynghlwm wrth y Fenter Twyll Genedlaethol.

## Incwm

18 Rydym yn cael incwm i ariannu ein gwaith o ddwy ffynhonnell: y ffioedd a godir ar gyrff a archwilir (62%) a Chronfa Gyfunol Cymru (38%).

19 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud elw o'i ffioedd. Yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ni chaniateir i'n ffioedd fod yn uwch na chost lawn cyflawni'r swyddogaeth y mae'r ffi'n berthnasol iddi. Mae hon yn ddarpariaeth gaeth iawn gan ei bod yn cyfyngu ar ein gallu i ddefnyddio ein hadnoddau mewn ffordd hyblyg. Felly, rydym yn croesawu bwriad y Pwyllgor Cyllid i lunio Bil drafft i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac i ymgynghori arno.

20 Pan roddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Gorffennaf 2019 ynghylch cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth, cyfeiriodd at y diffyg hyblygrwydd hwn a'r ffordd y mae'n ei rwystro rhag symud unrhyw gapasiti staffio o waith sy'n ennill ffioedd i fathau eraill o waith archwilio.

21 Dywedodd: ‘Administratively, when I try to take staff who are fee funded away from that work, or encourage them to be more efficient, to free up some of their time to deliver something new and fresh, we're left in this vicious circle…locked into this straitjacket of the 'no more than cost' rule, keeping our resource locked in to particular areas of work, and not freeing it up, as I'd like to be able to do’.

6 Gweler paragraff 88

22 I oresgyn y diffyg hyblygrwydd hwn, mae'r Amcangyfrif hwn yn cynnig gostwng ffioedd incwm 1.2% ac ariannu'r swm hwnnw o £180,000 o Gronfa Gyfunol Cymru yn lle hynny. O wneud hyn, bydd modd inni gadw capasiti archwilio arbenigol a rhyddhau arbenigedd drwy arbedion effeithlonrwydd archwilio i'w ddefnyddio mewn meysydd gwaith newydd ac i gael mwy o effaith. Mae'n bwysig nodi na fydd hyn yn cynyddu cyfanswm cost y gwaith a gyflawnir (ni chaiff unrhyw effaith net ar gyllideb bloc Cymru), ond bydd yn sicrhau bod modd inni barhau i ostwng y ffioedd blynyddol a godir ar gyrff cyhoeddus drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd archwilio.

## Incwm ffioedd

23 Rydym yn disgwyl dau ostyngiad sylweddol i'n hincwm o ffioedd archwilio yn 2020-21. Mae'r rhain yn deillio'n rhannol o Brexit a'r disgwyliad y byddwn yn colli'r gwaith o archwilio cronfeydd amaethyddol yr UE, ac o benderfyniad Llywodraeth Cymru i leihau'r gwaith sicrwydd a gyflawnir gennym i ardystio grantiau.

24 Yn 2019-20, rydym yn cael bron i £1 miliwn mewn ffioedd i ariannu'r gwaith o archwilio cronfeydd amaethyddol yr UE ledled Cymru. Mae ein Hamcangyfrif yn rhagdybio y bydd y swm yn gostwng oddeutu £140,000 yn 2020-21 ac y bydd y ffrwd incwm ffioedd hon yn dod i ben yn llwyr yn y blynyddoedd canlynol yn sgil ymadawiad y DU â'r UE.

25 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r incwm ffioedd blynyddol a gynhyrchwyd yn bennaf drwy ein gwaith ardystio grantiau ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi gostwng o oddeutu £2.5 miliwn i ddim ond £1.2 miliwn yn 2019-20. Ym mis Mehefin 2019, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i'r Archwilydd Cyffredinol ei bod yn bwriadu rhoi'r gorau i gomisiynu'r gwaith hwn o 2019-20. Felly, mae'r Amcangyfrif hwn yn cynnwys gostyngiad o £328,000 o ran incwm ardystio grantiau 2020-21, ac rydym yn disgwyl gostyngiad sylweddol iawn pellach i'r ffrwd incwm ffioedd hon mewn blynyddoedd i ddod.

26 I sicrhau nad oes llai o sicrwydd archwilio o ran y modd y mae rhaglenni grantiau neilltuedig Llywodraeth Cymru'n gweithredu, byddwn yn ystyried yn ofalus dros y misoedd nesaf a oes angen inni ymgymryd â gwaith archwilio ychwanegol i gefnogi barn yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru a/neu a oes angen ymgymryd ag astudiaethau gwerth am arian yn amlach o ran gwariant a ariennir ag arian grant. Byddwn yn amlinellu ein bwriad yn ein Cynlluniau Blynyddol yn y dyfodol ac yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cyllid yn unol â hynny.

27 Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol ar bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r cyfrifoldeb arnom i gyflawni ein gwaith archwilio mor effeithlon â phosibl. O'r herwydd, rydym yn gwneud ein gorau glas o hyd i leihau cyfanswm cost archwilio'r cyrff cyhoeddus heb aberthu ansawdd y gwaith archwilio.

28 Rydym wedi ystyried y newidiadau hyn i'n llwyth gwaith, ynghyd â'r bwriad i gyflawni gwaith cwmnïau'r sector preifat yn fewnol, wrth bennu gofynion cynllunio'r gweithlu ac wrth gynllunio ein cyllid a'n hadnoddau yn y tymor canolig.

29 Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn peri inni ennill dros £700,000 yn llai drwy ein hincwm ffioedd y flwyddyn nesaf – gostyngiad o 4.9% mewn arian parod a 6.6% mewn termau real.

30 Mae'r incwm yr ydym yn ei gael o ffioedd yn cael ei reoli gan Gynllun Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru a gymeradwyir gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae'n ofynnol inni gyhoeddi Cynllun Ffioedd o leiaf unwaith y flwyddyn.

31 Mae'r Amcangyfrif hwn yn cynnwys Cynllun Ffioedd drafft 2020-21 (Atodiad 2). Fe'i hatodir i ddangos sut y mae'r incwm ffioedd a'r Amcangyfrif cymeradwy'n ddibynnol ar ei gilydd. Ar ôl i'r Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd drafft gael eu hystyried, byddwn yn gosod Cynllun Ffioedd 2020-21 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yn rhoi gwybod i'r cyrff a archwilir beth fydd ffioedd amcangyfrifedig y flwyddyn nesaf.

32 Ym mis Awst 2019, bu inni ymgynghori â 268 unigolyn ar draws 96 sefydliad ynghylch graddfeydd ffioedd arfaethedig 2020-21 sydd oddeutu 1% yn is na'r rheini a ddefnyddir yn 2019-20.

33 Dim ond naw ymateb a ddaeth i law. Mae hyn yn awgrymu nad yw ein ffioedd yn destun pryder i'r rhan fwyaf o'r cyrff. Dywedodd y rhai a ymatebodd yr hyn a ganlyn wrthym:

- mae'r cyrff a archwilir yn croesawu'r gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac agwedd broffesiynol ein staff;
- mae'r cyrff a archwilir yn parhau i groesawu'r cyfle i fod yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol am ddim;
- maent yn croesawu'r gostyngiad arfaethedig i lefelau'r ffioedd canolrifol;
- maent yn dal i ddisgwyl i Swyddfa Archwilio Cymru ddangos gwerth am arian yn unol â'r pwysau ariannol y mae'r cyrff a archwilir yn ei wynebu;
- byddai un corff a archwilir yn croesawu mwy o dryloywder o ran y modd y caiff ffioedd eu pennu; byddwn yn trafod hyn â'r corff;
- mae'r Parciau Cenedlaethol yn pryderu ynghylch y modd y mae ein ffioedd ninnau'n cymharu â'r rheini a delir gan gyrff cyfatebol yn Lloegr; byddwn yn trafod y mater hwn â nhw.

34 Mae'r Bwrdd yn croesawu'r adborth ac mae wedi ei ystyried wrth gwblhau'r Amcangyfrif hwn a'r Cynllun Ffioedd drafft atodedig.

## Incwm o Gronfa Gyfunol Cymru

35 Ar gyfer 2020-21, rydym yn ceisio £8.363 miliwn o arian refeniw o Gronfa Gyfunol Cymru. Ar ôl cyfrif am y newid cylchol i gyllid y Fenter Twyll Genedlaethol, mae hyn yn gyfwerth â chynnydd o 7.2% mewn arian parod a chynnydd o 5.3% mewn termau real o'i gymharu â'r swm a gafwyd ar gyfer 2019-20. Gellir priodoli cyfran sylweddol o'r cynnydd hwn i'r newid o incwm ffioedd i incwm Cronfa Gyfunol Cymru a ddisgrifir uchod.

36 Yn yr adran nesaf, rydym yn egluro mewn mwy o fanylder yr hyn y byddwn yn ei gyflawni â'r incwm y byddwn yn ei gael o Gronfa Gyfunol Cymru.

# Ariannu ein gwaith – Cronfa Gyfunol Cymru 2020-21

## Newidiadau i'n galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru rhwng 2019-20 a 2020-21

37 Mae'r Amcangyfrif hwn yn ceisio cynyddu ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru (y Gronfa) 5.7% mewn termau real ar ôl cyfrif am y cynnydd cylchol yng nghyllid y Fenter Twyll Genedlaethol. Ceir crynodeb o'r newidiadau yn Arddangosyn 5.


Arddangosyn 5 – newidiadau i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru rhwng 2019-20 a 2020-21

| | **Refeniw £'000** | **Cyfalaf £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|
| 2019-20 | 7,668 | 210 | 7,878 |
| Cyllid cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | 130 | - | 130 |
| **Amcangyfrif o linell sylfaen 2020-21** | **7,798** | **210** | **8,008** |
| **Newidiadau ar gyfer 2020-21** | | | |
| Rhaglen gyfalaf | - | 50 | 50 |
| Gwaith archwilio a ariennir ac eithrio drwy ffioedd | 95 | - | 95 |
| Cyllid i gefnogi rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru – dadansoddeg data, digidol a seiberddiogelwch | 250 | - | 250 |
| Cyllid ar gyfer prosiectau penodol er budd y sector cyhoeddus ehangach | 100 | - | 100 |
| Cyfraniad at gostau rhedeg sy'n cyfrannu'n rhannol at gytundeb tâl | 120 | - | 120 |
| Cyfanswm cyllid Cronfa Gyfunol Cymru 2020-21 | 8,363 | 260 | 8,623 |
| Newid o'r llinell sylfaen | 565 | 50 | 615 |

## Sut y byddwn yn defnyddio arian Cronfa Gyfunol Cymru

38 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n defnyddio'r arian y mae'n ei geisio o'r Gronfa mewn pedair prif ffordd, fel y dangosir yn Arddangosyn 6.

Arddangosyn 6 – y modd y bwriedir defnyddio £8.363 miliwn o arian refeniw Cronfa Gyfunol Cymru yn 2020-21




Tudalen y pecyn 248

## Gwaith archwilio a ariennir ac eithrio drwy ffioedd: £3.6 miliwn (cynnydd o £95,000 o'i gymharu â 2019-20)

39 Mae incwm o'r Gronfa'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gefnogi gwaith y Cynulliad Cenedlaethol yn uniongyrchol drwy ei raglen o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Rhoddir adroddiadau am yr astudiaethau hyn i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ac fe'u disgrifir yn Ein Rhaglen Waith 2019-20.

40 Y Pwyllgor hwn yw un o'r prif gyfryngau a ddefnyddir gan y Cynulliad i ddwyn y sefydliadau a ariennir ganddo'n uniongyrchol neu drwy Lywodraeth Cymru i gyfrif. Felly, rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn rhoi cefnogaeth dda i'r Pwyllgor â'i waith.

41 Yn gynyddol, mae pwyllgorau eraill y Cynulliad yn comisiynu astudiaethau gan Swyddfa Archwilio Cymru, neu'n dibynnu ar ei hastudiaethau ac arbenigedd a gwybodaeth arbenigol ein staff. Er enghraifft, yn ddiweddar rhoddwyd cymorth i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol o ran Brexit ac i'r Pwyllgor Cyllid o ran ei ymchwiliad i ffynonellau arian cyfalaf Llywodraeth Cymru. Rydym yn bwriadu ehangu ymhellach hyd a lled y cymorth yr ydym yn ei ddarparu i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac mae'r Amcangyfrif hwn yn cynnwys arian i'n galluogi i wneud hyn.

42 Bydd y cyllid hefyd yn sicrhau bod modd i'r Archwilydd Cyffredinol ymateb mewn ffordd hyblyg i faterion sy'n codi yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys pryderon a godir gan y Cynulliad Cenedlaethol, ei bwyllgorau, ei Aelodau neu eraill.

43 Fel yr eglurwyd eisoes, mae'r Amcangyfrif hwn yn cynnwys darpariaeth i ariannu £180,000 o'r adnodd archwilio drwy arian Cronfa Gyfunol Cymru yn hytrach nag incwm ffioedd

44 Byddwn yn defnyddio gallu ac arbenigedd ein harchwilwyr i roi sylwebaeth a mewnwelediad sy'n rhoi gwerth ychwanegol ar sail ein gwaith archwilio cyfrifon. Bydd hyn o fudd uniongyrchol i'r Cynulliad Cenedlaethol, i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ar hyd a lled y sector cyhoeddus, ac i'r cyhoedd. Bydd yn gydnaws â'n huchelgais i ysbrydoli ac i rymuso gwasanaethau cyhoeddus i wella ac i egluro sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio, gan fynd tu hwnt i'r datganiadau sicrwydd craidd a ddarperir ac y codir amdanynt drwy ein ffioedd ar hyn o bryd.

45 Yn benodol, bydd yr hyblygrwydd ychwanegol yn sicrhau bod modd inni ymgymryd â darnau blynyddol o waith i bwyso a mesur themâu penodol sy'n codi o'n gwaith archwilio cyfrifon. Er enghraifft, gallem ymchwilio i gynlluniau diswyddo gwirfoddol neu drefniadau rheoli asedau ar draws y sector cyhoeddus; cynnal adolygiadau sectoraidd blynyddol o iechyd a chynaliadwyedd ariannol ledled Cymru; neu roi adroddiadau cyhoeddus am ffeithiau neu faterion allweddol sy'n deillio o gyfrifon cyrff unigol.

46 Yn 2019-20, roedd ein Hamcangyfrif yn cynnwys £85,000 ar gyfer gwaith archwilio i adolygu parodrwydd cyrff cyhoeddus Cymru ar gyfer Brexit. Bu inni gyhoeddi adroddiad (a'i ddiweddaru'n ddiweddar), cynnal tair seminar, ar y cyd ag Academi Wales, ar ffurf 'sioeau teithio' y daeth nifer dda iddynt, a chynnal gweminar Arfer Da.

47 Yn amlwg, bydd yr angen i roi sicrwydd sylweddol ac i ymgymryd â gwaith archwilio gwerth am arian o ran effeithiau Brexit yn awr, yn y tymor canolig ac yn y tymor hir yn parhau, ond ar hyn o bryd rydym yn disgwyl y bydd modd inni gynnwys hyn yn ein prif raglen waith, yn hytrach na gofyn am arian penodol ychwanegol. O'r herwydd, byddwn yn ailddyrannu'r cyllid hwn i sicrhau bod cyfanswm y cynnydd ar gyfer gwaith archwilio a ariennir ac eithrio drwy ffioedd yn cael ei gyfyngu i £95,000.

## Cyllid penodol (i gefnogi Swyddfa Archwilio Cymru) – £1.5 miliwn (cynnydd o £250,000 o'i gymharu â 2019-20)

48 Rhoddir manylion y prosiectau hyn yn Arddangosyn 7. Rhoddir mwy o fanylion am bob prif faes isod.

### Arddangosyn 7 – prosiectau a gefnogir gan y Pwyllgor Cyllid (i gefnogi rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru)

| | Amcangyfrif 2020-21 £'000 | Amcangyfrif[8] 2019-20 £'000 | Cyllid ychwanegol £'000 |
|---|---|---|---|
| Cynnydd i gostau pensiynau'r Gwasanaeth Sifil 2019-20 | 732 | 732 | - |
| Prosiectau trawsnewid | 656 | 406 | 250 |
| Cau cyfrifon llywodraeth leol yn gynnar | 120 | 120 | - |
| **Cyfanswm** | **1,508** | **1,258** | **250** |

### Cynnydd i gostau pensiynau'r gwasanaeth sifil 2019-20

49 Yn 2019-20, darparodd y Trysorlys gyllid i dalu'r costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth adolygiad actiwari o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac, yn sgil hynny, bu i'r Cynulliad gefnogi darparu cyllid ychwanegol i Swyddfa Archwilio Cymru.

8 Yn unol â Memorandwm y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad ar 15 Mai 2019

## Prosiectau trawsnewid

50 Ers 2016, rydym wedi dyrannu cyllid i wireddu newid trawsnewidiol strategol o ran y ffordd yr ydym yn cyflawni ein gwaith archwilio. Mae'r arian hwn wedi cefnogi prosiectau i gyflawni'r hyn a ganlyn:

- pwyso a mesur potensial Dadansoddeg Data a chynyddu ein defnydd ohoni. Mae ein gwaith yn y maes hwn wedi dangos y bydd technoleg yn gwireddu arbedion effeithlonrwydd o ran ein gwaith archwilio craidd. Mae Dadansoddeg Data hefyd wedi dechrau trawsnewid y ffordd yr ydym yn cyflwyno ac yn cyfleu ein gwaith, a manylder yr wybodaeth y gallwn ei darparu. Mae'r Amcangyfrif hwn yn ceisio cyllid ychwanegol er mwyn inni estyn dadansoddeg data tu hwnt i'r cyfnod treialu ac arbrofi i'w ymgorffori yn ein holl waith;
- adolygu'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu'n allanol i sicrhau bod ein gwaith yn cael cymaint o effaith â phosibl;
- adolygu ein ffyrdd o weithio i sicrhau eu bod yn 'addas ar gyfer y dyfodol' – er enghraifft drwy ddefnyddio technoleg i leihau'r teithio y mae angen i'n staff ei wneud, ac i ailystyried ein modelau gweithredu i wella llesiant a chymhelliad y staff.

## Dadansoddeg data

51 Rydym yn disgwyl i'n prosiect Dadansoddeg Data wireddu pum prif fudd:

- cynyddu hyder yn ein gwaith;
- gwella sylfaen dystiolaeth ein gwaith;
- ehangu'r ystod o ddelweddau a dulliau dadansoddi;
- arbed amser/costau o ran ein gwaith archwilio a'n prosesau mewnol;
- cymell eraill i fabwysiadu ein syniadau.

52 Wrth i'r prosiect fynd rhagddo, rydym yn monitro i ba raddau y mae'r buddion hyn yn cael eu gwireddu.

53 Rydym yn ceisio cyllid ychwanegol o £180,000 i gynyddu ein buddsoddiad mewn Dadansoddeg Data i sicrhau bod modd inni gael mynediad at ddata'r cyrff a archwilir mewn ffordd saff a diogel i sicrhau'r budd mwyaf.

54 Bydd y cyllid ychwanegol yn sicrhau bod modd inni storio'r data a ddarperir gan y cyrff a archwilir yn ddiogel ac yn goresgyn y risgiau seiberddiogelwch cynyddol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data (2018).

55 Bydd y cyllid hefyd yn sicrhau bod modd inni gynyddu maint y tîm sy'n gweithio ar y prosiect hwn er mwyn iddo wireddu uchelgais hirdymor yr Archwilydd Cyffredinol i ddefnyddio Dadansoddeg Data yn ein gwaith.

56 Dros y tymor canolig i'r tymor hir, ar ôl inni ymgorffori dadansoddeg data'n llwyr yn ein gwaith archwilio, rydym yn credu bod potensial i leihau cost archwilio cyfrifon 5-10%. Er ei bod yn anodd iawn dweud yn bendant beth yw'r tebygolrwydd o gyflawni arbedion o'r fath a'r union amserlenni, mae'n dal i fod yn rhan graidd o'r dull a ddefnyddir gennym i wireddu buddion. Fodd bynnag, gallwn ddweud yn bendant na fydd modd cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd hyn oni bai inni fuddsoddi ymhellach i barhau i arbrofi, i ddatblygu ac i roi'r rhaglen ar waith.

57 Heb y cyllid ychwanegol hwn, byddwn yn parhau i ddatblygu rhai offerynnau data, ond bydd hynt y datblygiadau'n llawer arafach a byddant yn fwy ad hoc.

## Seiberddiogelwch a'r weledigaeth ddigidol

58 Mae sefydliadau ym mhob man yn wynebu bygythiad seiberddiogelwch cynyddol gan unigolion maleisus sy'n ceisio torri i mewn i systemau, dwyn gwybodaeth ac achosi difrod. Mae hyn yn tarfu ar fusnesau ac yn arwain at gostau sylweddol, niwed i'w henw da, beirniadaeth, a dirwyon gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth os caiff systemau eu peryglu.

59 Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru gynyddu ei pharodrwydd o ran seiberddiogelwch yn gymesur â'r risg, gan sicrhau bod modd iddi barhau i drin data archwilio'n saff ac yn ddiogel, a bod Swyddfa Archwilio Cymru yn barod i ymateb i unrhyw achos lle ceir mynediad diawdurdod at ddata.

60 Mae gwefan Swyddfa Archwilio Cymru yn gynyddol bwysig fel cyrchfan gyntaf i'r rheini sy'n chwilio am adroddiadau neu sydd am ymgysylltu â'r sefydliad a'i waith. Mae angen inni sicrhau ein bod yn diweddaru ac yn cynnal y wefan er mwyn iddi barhau i fodloni'r safonau hygyrchedd a diogelwch.

61 Felly, rydym yn ceisio cyllid ychwanegol o £170,000 i dalu costau datblygwr gwefannau arbenigol, i brynu meddalwedd hanfodol ac i ddarparu hyfforddiant i wella seiberddiogelwch.

62 Os na fydd yr arian hwn ar gael, ni fydd Swyddfa Archwilio Cymru mor barod i wynebu digwyddiad seiberddiogelwch ag y dylai fod o ystyried y bygythiad, ac fe allai Swyddfa Archwilio Cymru ei chael yn anodd bodloni ei hymrwymiadau o ran hygyrchedd y wefan gyhoeddus, heb gwtogi ar feysydd gweithgarwch pwysig eraill.

## Prosiectau trawsnewid eraill

63 Gan fod y prosiectau trawsnewid wedi symud o'r cam dichonoldeb i'r cam gweithredu, byddwn yn ailddyrannu'r £100,000 a ddyrannwyd yn flaenorol ar gyfer y blaenoriaethau uchod, gan ofyn am ddim ond £250,000 o gyllid ychwanegol.

## Cau cyfrifon llywodraeth leol yn gynnar

64 Yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2018-19, nodwyd bod angen cyllid dros gyfnod o dair blynedd i sicrhau bod modd inni gydweithio'n agos â chyrff llywodraeth leol wrth iddynt baratoi i gael eu cyfrifon wedi'u hardystio erbyn 31 Gorffennaf yn hytrach na 30 Medi bob blwyddyn.

65 Erbyn 31 Gorffennaf 2019, roedd cyfrifon y pedwar heddlu, y tri awdurdod tân ac achub, ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol wedi'u cyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf yn ôl y gofyn. Ni fydd rhaid ardystio cyfrifon y 22 awdurdod unedol erbyn 31 Gorffennaf tan 2021. Fodd bynnag, rydym yn falch bod 30% o'r awdurdodau hyn eisoes wedi bodloni'r dyddiad cau newydd yn 2019.

66 Fel yr ydym wedi'i ddweud wrth y Pwyllgor Cyllid yn flaenorol, 2020-21 fydd y flwyddyn olaf y byddwn yn ceisio'r cyllid trosiannol hwn.

## Cyllid penodol (er budd y sector cyhoeddus ehangach) – £1.4 miliwn (cynnydd o £100,000 o'i gymharu â 2019-20, ynghyd â £130,000 o arian cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol)

67 Rhoddir manylion y prosiectau hyn yn Arddangosyn 8.

### Arddangosyn 8 – prosiectau a gefnogir gan y Pwyllgor Cyllid (budd ehangach)

| | Amcangyfrif 2020-21 £'000 | Amcangyfrif 2019-20 £'000 | Cyllid ychwanegol £'000 |
|---|---|---|---|
| Arweinwyr ariannol y dyfodol – meithrin sgiliau ariannol ledled Cymru | 667 | 567 | 100 |
| Y Gyfnewidfa Arfer Da | 540 | 540 | - |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | 180 | 50 | 130 |
| **Cyfanswm** | **1,387** | **1,157** | **230** |

### Arweinwyr ariannol y dyfodol – meithrin sgiliau ariannol ledled Cymru

68 Sefydlwyd y fenter genedlaethol hon a gydgysylltir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2016 i greu cronfa o weithwyr cyllid proffesiynol cymwysedig iawn i'w cyflogi ar draws cyrff cyhoeddus Cymru. Ochr yn ochr â hyfforddiant ariannol ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel, rydym hefyd yn rhoi cyfle i'n hyfforddeion graddedig fynd ar secondiad i weithio mewn cyrff cyhoeddus eraill i'w helpu i baratoi ar gyfer swyddi yn y dyfodol yn rheoli cyllid cyhoeddus Cymru.

69 Yn 2018, gyda chefnogaeth y Pwyllgor Cyllid, bu modd inni ehangu'r rhaglen i gynnwys prentisiaethau, gan greu llwybr gyrfa newydd i rai nad ydynt yn raddedigion.

70 Erbyn hyn, rydym yn cyflogi bron i 50 o hyfforddeion graddedig ac wyth prentis sy'n gyfwerth ag oddeutu 20% o'r gweithlu cyfan. Yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar ein model cymysgedd sgiliau archwilio, mae wedi gwireddu buddion ehangach o ran diwylliant ac amrywiaeth y sefydliad.

71 Eleni (2019) yw'r flwyddyn gyntaf y mae rhai o'r hyfforddeion sydd wedi elwa ar y rhaglen a gefnogir gan arian Cronfa Gyfunol Cymru yn cymhwyso ac yn gadael Swyddfa Archwilio Cymru.

72 O blith y naw hyfforddai sydd wedi ymadael eleni, mae chwech wedi dewis aros yn y sector cyhoeddus, pump yng Nghymru ac un yn Lloegr. Mae hyn yn golygu bod y sector cyhoeddus yn elwa'n uniongyrchol ar y buddsoddiad a wnaed yn unol â'r bwriad pan sefydlwyd y cynllun.

73 Mae'r arian sy'n dod i law o Gronfa Gyfunol Cymru'n cyfrannu at gostau rhedeg y rhaglen hon, gan ddarparu secondeion am ddim i gyrff cyhoeddus eraill Cymru, a chostau cynnal cynhadledd hyfforddeion flynyddol ar gyfer oddeutu 190 o fyfyrwyr cyllid o bob rhan o sector cyhoeddus Cymru.

74 Ar gyfer 2020-21, rydym yn gofyn am gynnydd o £100,000 a ddefnyddir yn benodol i wella amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol ac i gynyddu hyd a lled y cyfleoedd secondio sydd ar gael i'n prentisiaid a'n hyfforddeion graddedig.

75 Heb y cyllid hwn, ni fydd modd inni wireddu'r buddion ychwanegol a gynlluniwyd a bydd y rhaglen yn parhau i gael ei chynnal ar y lefel bresennol.

## Y Gyfnewidfa Arfer Da

76 Mae'r arian a ddarperir gan Gronfa Gyfunol Cymru'n sicrhau bod modd inni ddarparu ein rhaglen Arfer Da uchel ei bri am ddim i gyrff cyhoeddus a chyrff y trydydd sector ledled Cymru. Y llynedd, daethom â 1,400 o bobl ynghyd drwy ddeunaw digwyddiad dysgu ar y cyd. Mae 88% o'n rhanddeiliaid yn dweud bod ein gwaith arfer da wedi bod o fudd i wasanaethau cyhoeddus, felly heb y cyllid hwn, byddem yn colli'r buddion a'r cyfleoedd hyn.

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

77 Ers 2015, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cefnogi cyfranogiad holl gyrff cyhoeddus Cymru yn y Fenter Twyll Genedlaethol heb unrhyw gost i'r cyrff hynny. Pennodd ein hadroddiad diwethaf a gyhoeddir bob dwy flynedd ordaliadau ac arbedion posibl o £5.4 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynyddu'r arbedion cronnus i £35.4 miliwn ers 1996. Mae'r rhain yn adenillion sylweddol ar fuddsoddiad.

78 Mae'r costau sydd ynghlwm wrth y fenter hon yn cynyddu £130,000 bob yn ail flwyddyn i ariannu costau'r gwaith gwirio data a wneir gan Swyddfa'r Cabinet.

79 Heb y cyllid hwn, byddai angen trosglwyddo costau cyflawni'r gwaith hwn yn uniongyrchol i'r cyrff sy'n cymryd rhan yn y fenter ar ffurf ffioedd ychwanegol. Gallai hyn leihau'n sylweddol nifer y cyrff sy'n dewis cymryd rhan ynddi.

## Cyfraniad tuag at gostau rhedeg £1.8 miliwn (cynnydd o £120,000 o'i gymharu â 2019-20)

80 Darperir cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu rhai o gostau Swyddfa Archwilio Cymru nad ydynt yn cael eu trosglwyddo drwy ffioedd i'r cyrff a archwilir. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfraniad at gostau cymorth technegol, sicrhau ansawdd a chydymffurfiaeth, sef elfennau hanfodol i gyflawni gwaith archwilio cyhoeddus cadarn;
- cyfraniad at gyfanswm ein costau teithio i sicrhau nad yw'r cyrff a archwilir dan anfantais oherwydd eu lleoliad daearyddol;
- buddsoddiad mewn cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer y staff;
- costau llywodraethu, megis ar gyfer Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, costau cymorth cysylltiedig ac agweddau eraill ar y broses o gydymffurfio â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

81 Ar gyfer 2020-21, rydym yn gofyn am £120,000 o arian ychwanegol; cyfran o'r £320,000 yr ydym wedi'i gynnwys yn yr Amcangyfrif ar gyfer cynnydd yn ein cyllideb cyflogau. Cafodd balans y costau tâl ychwanegol eu cynnwys yng nghyfraddau ffioedd arfaethedig 2020-21 i'w hadlewyrchu yn y ffioedd a delir gan y cyrff a archwilir.

82 Pe na bai'r cyfraniadau hyn at ein costau rhedeg yn cael eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru, byddai'n rhaid eu trosglwyddo i'r cyrff a archwilir ar ffurf ffioedd uwch. Byddai hyn yn gyfwerth â chynnydd o 13% ar gyfer pob corff a archwilir.

## Buddsoddi cyfalaf

83 Yn Arddangosyn 9, dangosir ein blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf rhwng 2019-20 a 2023-24 sy'n gysylltiedig â'n Cynlluniau TG ac Ystadau tymor canolig ac yn cael eu diweddaru bob blwyddyn. Ariennir yr holl fuddsoddiad cyfalaf o Gronfa Gyfunol Cymru drwy'r Amcangyfrif hwn.

Arddangosyn 9 – buddsoddi cyfalaf 2020-21 i 2024-25

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 | 2022-23 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Seilwaith TGCh/digidol | 120 | 120 | 150 | 150 | 150 |
| Systemau corfforaethol | 50 | 80 | 100 | 150 | 200 |
| Strategaeth ystadau | 40 | 60 | 100 | 500[9] | 200 |
| **Cyfanswm** | **210** | **260** | **350** | **800** | **550** |

## Seilwaith TGCh/digidol

84 Cynhelir rhaglen dreigl i adnewyddu cyfrifiaduron/cyfarpar TG i sicrhau parhad busnes ac i sicrhau bod y cyfarpar yn gyfredol ac yn ddibynadwy. Rydym wedi cynyddu'r dyraniad ar gyfer y flaenoriaeth hon o 2021-22 i sicrhau bod modd inni ymateb i welliannau technolegol i gefnogi uchelgeisiau ein strategaeth ddigidol.

## Systemau corfforaethol

85 Pennodd ein prosiect trawsnewid Ffyrdd o Weithio fod angen systemau gwybodaeth fusnes gwell a mwy cysylltiedig i sicrhau bod modd i'n staff weithio yn y ffyrdd mwyaf effeithlon. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein systemau a'n prosesau'n angenrheidiol, yn syml, yn effeithlon ac yn effeithiol, ac rydym yn rhagweld y byddwn yn parhau i fuddsoddi ynddynt dros y pum mlynedd nesaf, yn unol â'n fframwaith gwerth am arian, Doethach, Symlach, Gwell.

## Strategaeth ystadau

86 Yn ystod ein rhaglen bum mlynedd, bydd prydlesi ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Abertawe ac Abergele yn dod i ben neu bydd angen eu hadnewyddu. Mae ein rhaglen gyfalaf yn rhoi awgrym cynnar o'r costau amcangyfrifedig a fydd yn gysylltiedig ag unrhyw symud posibl. Mae'n anodd amcangyfrif y costau ar hyn o bryd ond mae disgwyl i newidiadau i'n ffyrdd o weithio arwain at arbedion o ran costau swyddfeydd y bydd angen gwneud buddsoddiad ymlaen llaw ar eu cyfer.

9 Gall fod angen i'r gyllideb hon gynyddu'n sylweddol yn ddibynnol ar ganlyniad ein hadolygiad o'r strategaeth ystadau. Mae effaith IFRS16 hefyd yn debygol o fod yn sylweddol ond nid oes modd ei hamcangyfrif hyd yma (gweler paragraffau 95 i 97).

## Newidiadau posibl i'r gyllideb hon

87 Isod, rhestrir y materion a allai effeithio ar gyllideb 2020-21 ac a allai beri iddi fod yn ofynnol inni baratoi Amcangyfrif Atodol yn ystod y flwyddyn.

### Cronfeydd amaethyddol yr UE

88 Mae'r Amcangyfrif hwn yn seiliedig ar sefyllfa lle bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Hydref gyda chytundeb trosiannol a fydd yn peri i'n gwaith o ran cronfeydd amaethyddol yr UE barhau tan yr hydref 2020 pan fyddwn yn mynd ati i gyflawni'n fewnol y gwaith archwilio a wneir gan gwmnïau preifat ar hyn o bryd.

89 Ar hyn o bryd, mae ein cyllideb yn caniatáu ar gyfer incwm o £760,000 o'r gwaith hwn.

90 Os bydd y DU yn ymadael â'r UE ar 31 Hydref 2019 (neu'n fuan ar ôl hynny) heb gytundeb, rydym yn disgwyl i'n gwaith ddod i ben erbyn mis Mawrth 2020 fan bellaf. Os digwydd hyn, bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n wynebu dau ddewis, a bydd angen Amcangyfrif Atodol ar gyfer y naill neu'r llall:

- ailddyrannu'r staff hynny i brosiectau newydd tan yr hydref, gyda chyllid ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru i wneud iawn am yr incwm a gollir i bontio'r bwlch o chwe mis o ran y llwyth gwaith disgwyliedig sy'n cynhyrchu ffioedd; neu
- cynnig pecynnau dileu swyddi i nifer o staff gan wybod y bydd angen recriwtio staff ychwanegol ryw chwe mis yn ddiweddarach.

91 Rydym yn ffafrio'r dewis cyntaf oherwydd y costau a'r amser rheoli sy'n debygol o fod ynghlwm wrth ddileu swyddi ac yna mynd ati i gynnal ymarfer recriwtio sylweddol ychydig fisoedd yn ddiweddarach.

92 Pe bai'r DU yn parhau i fod yn aelod o'r UE ar ôl 31 Hydref 2019, gallai hefyd effeithio ar waith Swyddfa Archwilio Cymru pe bai'n parhau i fod yn ofynnol iddi archwilio cronfeydd amaethyddol yr UE ar ôl yr hydref 2020. Rydym yn paratoi cynlluniau wrth gefn i ddarparu'r adnodd ychwanegol y byddai ei angen mewn sefyllfa o'r fath, o bosibl dros dro.

## Cynyddu cyflogau'r sector cyhoeddus

93 Rydym wedi gwneud darpariaeth dros dro ar gyfer cynnydd o 2% i'n cyllideb cyflogau yn unol â'r sefyllfa a amlinellwyd gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

94 Os cytunir ar gytundeb tâl uwch ar draws y sector cyhoeddus ehangach, mae'n bosibl na fydd y sefyllfa hon yn gynaliadwy o ran ein gallu i ddenu ac i gadw staff, a gall fod angen inni ailedrych ar y mater hwn gyda'r Pwyllgor Cyllid.

## Safonau adrodd newydd

95 Disgwylir i Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (IFRS 16) ar gyfrifyddu prydlesi gael ei chyflwyno o 2020-21.

96 Ni fydd effaith cyfrifyddu'r dibrisiant a'r llog sy'n gysylltiedig â chyfalafu prydlesi sy'n bodoli eisoes o'i gymharu â chostau rhedeg y prydlesi hynny'n sylweddol i Swyddfa Archwilio Cymru gan fod ein prydlesi eiddo ar fin dod i ben. Felly, nid oes angen addasu ein cyllideb ar gyfer y newid hwn yn 2020-21.

97 Os byddwn yn ymrwymo i drefniant prydlesu newydd, gall fod angen newid ein gofyniad gwariant cyfalaf yn 2022-23 fel y dangosir yn Arddangosyn 9. Nid oes modd amcangyfrif yr effaith hon ar hyn o bryd.

## Brexit heb gytundeb

98 Ac eithrio'r effaith uniongyrchol ar incwm yn sgil colli'r gwaith o archwilio cronfeydd amaethyddol yr UE, mae'n anodd amcangyfrif unrhyw oblygiadau uniongyrchol eraill i'n cyllid a'r camau i reoli ein llwyth gwaith yn sgil Brexit heb gytundeb. Mae gennym gynlluniau a fydd yn caniatáu inni ailflaenoriaethu peth gwaith archwilio os bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tybio bod angen gwneud hynny, ond gall fod angen inni ailedrych ar hyn os bydd y sefyllfa'n wahanol iawn i'r hyn y mae ein cynlluniau'n caniatáu ar ei gyfer.

## Y gofyniad arian parod net

99 Mae Cwmpas y Gyllideb yn caniatáu ar gyfer symudiad o £500,000 yn y croniadau ar ddiwedd 2020-21. Mae'n anodd iawn rhagweld y symudiad hwn ar adeg paratoi'r Amcangyfrif ac felly bydd angen ei adolygu ar ôl paratoi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20.

# Cwmpas y gyllideb

## Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021

100 O dan adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig y Gyllideb yn y Cynulliad Cenedlaethol i ganiatáu i bersonau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, ddefnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru.

101 O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021, bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r hyn a ganlyn:

- swm yr adnoddau y caniateir i Swyddfa Archwilio Cymru eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol (yn unol â chyllideb y flwyddyn honno);
- swm yr adnoddau a gronnir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol y gellir eu cadw yn hytrach na'u talu i Gronfa Gyfunol Cymru; ac
- y swm y caniateir ei dalu o'r Gronfa Gyfunol i Swyddfa Archwilio Cymru.

102 Yn Arddangosyn 10 isod, ceir crynodeb o'r gofynion hyn. Oherwydd natur amrywiadwy'r ffrydiau incwm, dim ond amcangyfrifon ydynt.

Arddangosyn 10 – crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2020-21

| | £'000 |
|---|---|
| Adnoddau, ac eithrio adnoddau cronnus, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ac i weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru: | |
| • Refeniw | 8,363 |
| • Cyfalaf | 260 |
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; costau eraill a adenillir mewn perthynas â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol sy'n deillio o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol, a chostau yr aethpwyd iddynt ar ran trydydd parti a adenillir – y cyfan i'w ddefnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, i ddarparu gwasanaethau cysylltiedig ac i weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | 13,764 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 8,843 |

103 Mae Arddangosyn 11 yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021.

Arddangosyn 11 – cysoni'r gofyniad adnoddau â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

| | £'000 |
|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 8,623 |
| Addasiad anariannol – dibrisiant | (280) |
| Addasiad anariannol – symudiadau o ran y cyfalaf gweithio | 500 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru | 8,843 |

# Atodiad 1 – Datganiad o egwyddorion

| Gofyniad | Ymateb |
|---|---|
| Dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach. | Mae'r ceisiadau cyllidebol yn ymwneud yn unig â mentrau newydd a chyfraniad at gytundeb tâl yn unol ag argymhelliad Llywodraeth Cymru. |
| Dylai ceisiadau ddangos sut y caiff amcanion blynyddol ac amcanion amlflwydd eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni. | Mae ein Hamcangyfrif yn cyfeirio at y Cynllun Blynyddol a'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon sy'n rhoi'r manylion hyn. |
| Ni ddylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ragdybio unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau, waeth beth fo'r newid yn y grant bloc, gan fod unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill. | Mae pob cynnydd yn gysylltiedig â cheisiadau penodol. |
| Dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus. | Mae'r Amcangyfrif yn cynnwys datganiad Gwerth am Arian. |
| Mewn achosion lle y gwneir cais am gynnydd mewn cyllid, dylid cefnogi unrhyw gais o'r fath gyda thystiolaeth o'r angen a'r budd sydd ynghlwm wrth y cais, a thystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i leihau costau cysylltiedig. Yn ogystal, dylid egluro a meintioli'r canlyniadau sydd ynghlwm wrth beidio â sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau y gofynnwyd amdano. | Rhoddwyd manylion ar gyfer pob cais. |

# Atodiad 2 – Cynllun Ffioedd drafft 2020-21

Paratowyd y cynllun ffioedd hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Gosodir y cynllun ffioedd hwn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 24(4)(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2019

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Isobel Everett**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

## Cynllun Ffioedd


Cyflwyniad 39

Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd 40

Codi ffioedd 43


## Atodiadau


Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24 44

Rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi godi ffioedd oddi tanynt 46

Graddfeydd ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2020 48

## Cyflwyniad

1 Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (Atodiad 1). Ar ôl ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, bydd y Cynllun Ffioedd hwn yn darparu'r sail a ddefnyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru i godi ffioedd.

2 Mae'r Bwrdd wedi gwrando'n astud ar adborth rhanddeiliaid ynghylch ein hagenda costeffeithlonrwydd a'r cyfraddau ffioedd a bennir gennym. Wrth geisio cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol i'n Hamcangyfrif ar gyfer 2020-21, bu inni gynnig yr hyn a ganlyn yn yr Amcangyfrif:

- gwneud gostyngiad bach i'n graddfeydd ffioedd ar gyfer 2020-21 o'u cymharu â'r rheini ar gyfer 2019-20.
- yn unol â chytundeb blaenorol y Cynulliad Cenedlaethol, parhau i ariannu gwaith y Fenter Twyll Genedlaethol o'r arian a gawn o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thrwy godi ffioedd ar y cyrff sy'n cymryd rhan ynddi. Mae'r adborth yn dangos bod y cyrff a archwilir yn croesawu'r drefn hon.
- parhau i roi cyfleoedd i'n hyfforddeion cyfrifyddu fynd ar secondiad yn y sector cyhoeddus, heb effeithio ar y ffioedd a godir am waith archwilio

3 Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn adlewyrchu'r Amcangyfrif cymeradwy ac, yn fras, mae'n nodi'r hyn a ganlyn:

- y deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd archwilio oddi tanynt.
- y trefniadau i bennu'r ffioedd hynny sy'n cynnwys naill ai:
  - graddfeydd ffioedd sy'n nodi'r amrediad ffioedd a godir am feysydd penodol o waith archwilio mewn llywodraeth leol; neu
  - cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith nad yw wedi'i gynnwys yn y graddfeydd ffioedd.

4 Yn fras, caiff 62% o'n gwariant ei ariannu drwy'r ffioedd a godir ar gyrff a archwilir a thrwy grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith o ran asesiadau gwella. Darperir y 38% sy'n weddill yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru drwy bleidlais y Cynulliad Cenedlaethol. Ceir mwy o wybodaeth am ein gwariant a'n cyllid yn ein hamcangyfrifon blynyddol o'n hincwm a'n gwariant a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

## Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd

5 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud elw o ffioedd. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae'n ofynnol inni sicrhau nad yw'r ffioedd a godir gennym yn uwch na chost lawn cyflawni'r swyddogaeth y mae'r ffi'n berthnasol iddi. Pennir ein cyfraddau ffioedd ar lefel lle'r ydym yn adennill y gost honno'n llwyr.

6 Ceir tensiwn rhwng rhoi ffi ymlaen llaw i'r cyrff a archwilir ar gyfer y gwaith a wneir ar archwiliadau penodol a chael gweithdrefn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiadau'n anochel. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio ar sail amcangyfrif o'r gwariant, amcangyfrif o'r cymysgedd sgiliau, ac amcangyfrif o nifer y diwrnodau y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Os yw'r gwaith gofynnol yn llawer mwy na'r amcangyfrif gwreiddiol o ganlyniad i gymhlethdodau sy'n dod i'r amlwg yn ystod yr archwiliad, mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu inni godi ffi uwch.

7 Aethom tu hwnt i'r gofynion statudol i ymgynghori ar ffioedd ac, ym mis Awst 2019, bu inni ymgynghori â'r holl gyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill ynghylch graddfeydd ffioedd 2020-21. Bu inni ymgynghori â 96 corff gwahanol. Daeth ymatebion i law gan ddim ond naw o'r cyrff hyn. Dywedodd yr ymatebion hynny yr hyn a ganlyn wrthym:

- mae'r cyrff a archwilir yn croesawu'r gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac agwedd broffesiynol ein staff;
- mae'r cyrff a archwilir yn parhau i groesawu'r cyfle i fod yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol am ddim;
- maent yn croesawu'r gostyngiad arfaethedig i lefelau'r ffioedd canolrifol;
- maent yn disgwyl i Swyddfa Archwilio Cymru ddangos gwerth am arian yn unol â'r pwysau ariannol y mae'r cyrff a archwilir yn ei wynebu;
- byddai'r cyrff a archwilir yn croesawu mwy o dryloywder o ran y modd y caiff ffioedd eu pennu;
- ceir rhywfaint o bryder ynghylch ein ffioedd o'u cymharu â'r rheini a delir gan gyrff cyfatebol yn Lloegr.

8 Croesawodd y Bwrdd yr adborth ac mae'n ymateb iddo drwy'r Cynllun Ffioedd hwn a'n Hamcangyfrif.

9 Mae Arddangosyn 1 yn rhestru cyfraddau ffioedd fesul awr ein staff archwilio.

Arddangosyn 1 – cyfraddau ffioedd ein staff archwilio

| | Cyfradd arfaethedig (£ yr awr) 2020-21 | Cyfradd (£ yr awr) 2019-20 |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 160 | 161 |
| Rheolwr Archwilio | 117 | 115 |
| Prif Archwilydd | 95 | 94 |
| Uwch-archwilydd | 76 | 73 |
| Archwilydd | 58 | 57 |
| Hyfforddai graddedig | 48 | 46 |
| Prentis | 36 | 46 |

10 Mae'n ofynnol inni bennu graddfeydd ffioedd ar gyfer:

- gwaith sy'n ymwneud ag archwilio cyrff llywodraeth leol;
- gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- gwaith paru data (y Fenter Twyll Genedlaethol).

11 Dangosir y graddfeydd ffioedd i archwilio cyfrifon ariannol 2019-20 ac i gynnal archwiliadau ac asesiadau gwella 2020-21 yn Atodiad 3 mewn perthynas â'r gwaith a gynhelir mewn awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned, a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol. Darperir graddfa ffioedd ar wahân mewn perthynas â'r Fenter Twyll Genedlaethol.

12 Mae'r graddfeydd ffioedd yn ffordd o reoleiddio costau archwiliadau cyhoeddus, drwy bennu terfynau a thrwy adolygu ffioedd yn erbyn y terfynau hynny. Mae'r graddfeydd ffioedd hefyd yn rhoi fframwaith i archwilwyr asesu faint o waith archwilio blynyddol sydd ei angen a'r ffi i'w chodi am y gwaith hwnnw o fewn y corff penodol a archwilir.

13 Yn achos cyrff a archwilir nad yw'r gofyniad statudol i bennu graddfa ffioedd yn berthnasol iddynt, caiff eu ffioedd archwilio amcangyfrifedig eu cyfrifo yn yr un ffordd – hynny yw, drwy gymhwyso'r cyfraddau a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn i'r amcangyfrif o gymysgedd sgiliau'r tîm a'r oriau sydd eu hangen i gynnal yr archwiliad.

14 Mae archwilwyr yn ymgymryd â gwaith ardystio grantiau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae swm y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau a gaiff eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Cyfrifir y tâl am y gwaith hwn gan ddefnyddio'r cyfraddau ffioedd a chan ystyried maint a chymhlethdod y grant o dan sylw neu faterion penodol eraill sy'n gysylltiedig ag ef.

15 Mae'r cyfraddau ffioedd yn berthnasol i'r holl waith archwilio y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn codi tâl amdano, ac eithrio i'r graddau y mae'r graddfeydd ffioedd, lle bo hynny'n gymwys, yn rheoleiddio'r swm a godir. Os bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n tybio'n ddiweddarach bod y gwaith sydd ynghlwm wrth archwiliad penodol yn wahanol iawn i'r gwaith a ragwelwyd yn wreiddiol, caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi sy'n wahanol i'r ffi a bennwyd yn wreiddiol.

16 O ran unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill a ddarperir, codir ffioedd yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod nad yw'r symiau hynny'n fwy na chost lawn darparu'r gwasanaeth. I gyflawni eu cyfrifoldebau statudol, gall fod rhaid i archwilwyr wneud gwaith sydd tu hwnt i'w dyletswyddau cyffredinol o bryd i'w gilydd. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn perthynas â chwestiynau a gwrthwynebiadau etholwyr, a gwaith i atal gwariant anghyfreithlon. Bydd y ffioedd a godir am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith gofynnol.

17 Os bydd angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall, codir tâl ar y cyrff a archwilir yn ychwanegol at gost staff Swyddfa Archwilio Cymru.

## Codi ffioedd

18 Bydd Cyfarwyddwr Ymgysylltu pob corff yn egluro cymysgedd sgiliau'r corff hwnnw ar gyfer yr archwiliad a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfanswm y ffi. Cytunir ar drefniadau codi tâl â'r cyrff a archwilir, ac fe allai'r rhain gynnwys taliadau untro, achlysurol, rheolaidd neu flynyddol, fel y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau.

19 Disgwylir i gyrff a archwilir dalu anfonebau Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'u targed perfformiad ar gyfer talu credydwyr, sef 10 diwrnod fel arfer yn y sector cyhoeddus. Gallwn godi ffi am unrhyw gostau gweinyddol yr eir iddynt i gael gafael ar daliadau hwyr.

20 Ar ôl cwblhau aseiniadau archwilio, byddwn yn asesu'r costau gwirioneddol yr aethpwyd iddynt wrth ymgymryd â'r aseiniad o'u cymharu â'r ffi a godwyd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffi a dalwyd sy'n fwy na'r gost ac, i'r gwrthwyneb, gallwn godi ffi ychwanegol pan fo'r ffi a godwyd yn rhy fach. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol mewn modd sy'n ceisio cadw'r costau gweinyddol mor isel â phosibl, er enghraifft drwy eu gwrthbwyso yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar ein gwaith archwilio.

# Atodiad 1 – Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

(1) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

- a rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt;
- b pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;
- c pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw; a
- d pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo'r ffi a godir.

(3) Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill:

- a cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol, a
- b darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

(4) O ran y cynllun:

- a rhaid i SAC ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr,
- b caiff SAC ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, a
- c rhaid i SAC ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:

a adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu

b adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd),

i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

(7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

(8) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

# Atodiad 2 – Rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi godi ffioedd oddi tanynt

## Arddangosyn 1 – rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi godi ffioedd oddi tanynt

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| • Archwilio cyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (heblaw am gyfrifon llywodraeth leol). | • Adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Astudiaethau gwerth am arian a wneir drwy gytundeb. | • Adran 23(3)(a)-(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Archwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 o ran Datganiad Treth Awdurdod Refeniw Cymru. | • Adran 23(3)(ba) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Archwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2) (archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu'r graddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy). | • Adran 23(3)(ca) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Unrhyw rai o swyddogaethau awdurdod perthnasol a gyflawnir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. | • Adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol. | • Adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| • Ymarferion paru data. | • Adran 64F(A1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>• Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn |
| • Cyngor a chymorth a roddir i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan yr Archwilydd Cyffredinol. | • Adran 145D(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998<br>• Ni chaniateir ond gwneud telerau talu yn unol â chynllun i godi ffioedd o dan a24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus 2013 |

Tudalen y pecyn 273

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| • Gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. | • Adran 27 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<br>• Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn |
| • Gwasanaethau ardystio grantiau. | • Adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Astudiaethau ar gais cyrff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. | • Adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol a gwneud astudiaethau drwy gytundeb â chorff llywodraeth leol. | • Adran 20(A1)(a)-(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>• Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol |
| • Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaeth o weinyddu budd-daliadau dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud trefniadau i dalu ffi i Swyddfa Archwilio Cymru am yr astudiaeth. Rhaid i'r ffi fod yn swm rhesymol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno arno. | • Adran 45 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| • Cynorthwyo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i arolygu awdurdodau lleol. Ni wnaiff Archwilydd Cyffredinol Cymru ddarparu cymorth o'r fath oni fydd y Prif Arolygydd, cyn iddo wneud hynny, wedi cytuno i dalu ffi i Swyddfa Archwilio Cymru. | • Adran 41A o Ddeddf Addysg 1997 |
| • Rhaglenni astudio yn ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gynhelir drwy gytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd yn un o amodau unrhyw raglen o'r fath bod yn rhaid i Weinidogion Cymru dalu swm i Swyddfa Archwilio Cymru am y costau yr eir iddynt. | • Adran 145C(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |

# Atodiad 3 – Graddfeydd ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2020

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

21 Mae'n ofynnol inni ymgynghori ynghylch y ffioedd i baru data ar gyfer cyrff y mae'n rhaid iddynt gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, a rhagnodi'r ffioedd hynny. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol gan ddefnyddio ei bwerau statudol i baru data o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

22 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn offeryn effeithiol dros ben o ran canfod ac atal twyll a gordaliadau. Ers iddi ddechrau ym 1996, mae ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol wedi arwain at ganfod ac atal mwy na £35.4 miliwn o hawliadau twyllodrus a gordaliadau yng Nghymru, ac £1.69 biliwn ledled y DU.

23 Ers mis Ebrill 2015, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi talu am y costau o gynnal y Fenter Twyll Genedlaethol drwy daliadau o Gronfa Gyfunol Cymru, fel y'u cymeradwywyd drwy Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru. Diben hyn yw annog sefydliadau i gymryd rhan yn wirfoddol, ac mae hefyd yn symleiddio'r trefniadau i gyfranogwyr sy'n gorfod cymryd rhan. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, dangosir y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn Arddangosyn 3.

### Arddangosyn 3 – ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol

| | Ffi 2020-21 |
|---|---|
| Awdurdodau unedol; comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol. | Dim |
| Cyfranogwyr gwirfoddol | Dim |
| Gall pob cyfranogwr hefyd gael mynediad at Wirydd Cymwysiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (App Check). | Dim |

## Awdurdodau unedol


### Arddangosyn 4 – graddfa ffioedd i archwilio cyfrifon 2019-20

| Gwariant gros £m | Amrediad ffioedd £'000 | | | Blwyddyn flaenorol canolrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 100 | 113 | 133 | 153 | 138 |
| 200 | 136 | 160 | 184 | 166 |
| 300 | 152 | 178 | 205 | 185 |
| 400 | 164 | 192 | 221 | 199 |
| 500 | 174 | 204 | 235 | 211 |
| 600 | 182 | 214 | 247 | 222 |
| 700 | 190 | 223 | 257 | 231 |
| 800 | 197 | 231 | 266 | 240 |
| 900 | 203 | 239 | 275 | 247 |
| 1,000 | 209 | 246 | 282 | 254 |
| 1,100 | 214 | 252 | 290 | 261 |
| 1,200 | 219 | 258 | 297 | 267 |

### Arddangosyn 5 – graddfa ffioedd gwaith archwilio perfformiad 2020-21

| Pob awdurdod unedol | Amrediad ffioedd £'000 | | | Blwyddyn flaenorol canolrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 92 | 100 | 112 | 99 |

## Arddangosyn 6 – llun o gyfanswm graddfa ffioedd yr awdurdodau unedol[9]




# Cronfeydd pensiwn

## Arddangosyn 7 – graddfa ffioedd i archwilio cyfrifon 2019-20

| Pob cronfa bensiwn | Amrediad ffioedd £'000 | | | Blwyddyn flaenorol canolrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 30 | 41 | 48 | 40 |

9 ystyr 'agweddau ansawdd gwell' yw ansawdd y broses o baratoi'r cyfrifon hy ansawdd y datganiadau ariannol drafft a'r papurau gweithio ategol.

## Awdurdodau tân ac achub


### Arddangosyn 8 – graddfa ffioedd i archwilio cyfrifon 2019-20

| Gwariant gros £m | Amrediad ffioedd £'000 | | | Blwyddyn flaenorol canolrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 20 | 33 | 39 | 45 | 40 |
| 40 | 40 | 47 | 54 | 49 |
| 60 | 44 | 52 | 60 | 54 |
| 80 | 48 | 56 | 65 | 58 |
| 100 | 51 | 60 | 69 | 62 |

### Arddangosyn 9 – graddfa ffioedd gwaith archwilio perfformiad 2020-21

| Pob awdurdod tân ac achub | Amrediad ffioedd £'000 | | | Blwyddyn flaenorol canolrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 16 | 16 | 16 | 16 |

## Arddangosyn 10 – llun o gyfanswm graddfa ffioedd yr awdurdodau tân ac achub




Tudalen y pecyn 279

## Awdurdodau'r parciau cenedlaethol


### Arddangosyn 11 – graddfa ffioedd i archwilio cyfrifon 2019-20

| Gwariant gros £m | Amrediad ffioedd £'000 | | | Blwyddyn flaenorol canolrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 2 | 21 | 24 | 28 | 25 |
| 4 | 25 | 29 | 33 | 30 |
| 6 | 28 | 32 | 37 | 34 |
| 8 | 30 | 35 | 40 | 36 |
| 10 | 32 | 37 | 43 | 38 |

### Arddangosyn 12 – graddfa ffioedd gwaith archwilio perfformiad 2020-21

| Pob awdurdod parc cenedlaethol | Amrediad ffioedd £'000 | | | Blwyddyn flaenorol canolrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 14 | 17 | 19 | 17 |

## Arddangosyn 13 – llun o gyfanswm graddfa ffioedd awdurdodau'r parciau cenedlaethol




Tudalen y pecyn 281


## Comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid

24 Mae archwilwyr yn archwilio dau gorff statudol yn ardal pob heddlu – y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) a'r Prif Gwnstabl. Yr archwilwyr fydd yn pennu sut y bydd cyfanswm y ffi yn cael ei rannu rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, a hynny ar sail y gofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol sydd ar waith gan bob un o'r cyrff.

### Arddangosyn 14 – graddfa ffioedd i archwilio cyfrifon 2019-20

| Gwariant gros cyfun y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl £m | Amrediad ffioedd cyfun ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl £'000 | | | Blwyddyn flaenorol canolrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 50 | 54 | 64 | 74 | 66 |
| 100 | 64 | 76 | 88 | 79 |
| 150 | 71 | 84 | 97 | 87 |
| 200 | 77 | 91 | 104 | 94 |
| 250 | 81 | 96 | 110 | 99 |
| 300 | 85 | 100 | 116 | 104 |
| 350 | 88 | 104 | 120 | 108 |

## Arddangosyn 15 – llun o gyfanswm graddfa ffioedd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid



## Cynghorau tref a chymuned a chanddynt incwm neu wariant blynyddol o hyd at £2.5 miliwn

25 Ceir cyfundrefn archwilio sicrwydd cyfyngedig ar gyfer cynghorau tref a chymuned Cymru. Ers 2016-17, rydym wedi codi am waith ar sail amser yn hytrach na defnyddio'r hen ddull o godi ffi benodedig yn unol â bandiau gwariant/incwm.

26 Mae cyfraddau'r ffioedd fel y'u nodir yn Arddangosyn 1.

27 Mewn amgylchiadau lle mae'r archwilydd yn gofyn am dystiolaeth bellach er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, gan gynnwys ar ôl cyhoeddi adroddiad cysylltiedig er budd y cyhoedd, cynhelir profion ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd.

28 Dylid pwysleisio y bydd y tâl gwirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn ddibynnol ar yr amser gwirioneddol a dreuliwyd yn gweithio ar yr archwiliad hwnnw. Darperir yr amrediadau a geir yn Arddangosyn 16 at ddibenion dangosol yn unig.

### Arddangosyn 16 – taliadau am archwilio cyfrifon 2019-20 cynghorau tref a chymuned ar sail amcangyfrif o amser

| | Tâl sylfaenol dangosol | Ffi uchaf ddangosol |
|---|---|---|
| £0 – £5,000 | £140 | £280 |
| £5,001 – £100,000 | £160 | £320 |
| £100,001 – £500,000 | £200 | £380 |
| £500,001 – £2,500,000 | £240 | £460 |

## Cyfraddau ffioedd am waith arall mewn llywodraeth leol

29 Ac eithrio'r mathau hynny o gyrff y rhagnodwyd graddfeydd ffioedd ar eu cyfer uchod, mae nifer fach o gyrff llywodraeth leol o fathau eraill lle'r ydym yn rhagnodi'r raddfa ffioedd drwy drosi'r gofynion o ran adnoddau yn ffioedd naill ai ar sail cost cyflawni'r gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a bennir yn Arddangosyn 1. Byddwn yn dal i gynllunio archwiliadau'r cyrff hyn ar sail sero.

30 Er mwyn i gyrff llywodraeth leol o bob math gyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae angen weithiau i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy'n mynd tu hwnt i'w ddyletswyddau cyffredinol (y rheini a bennir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn perthynas â her etholwr a gwaith i atal gwariant anghyfreithlon. Bydd y ffioedd a godir am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith gofynnol.

31 Gall archwilwyr hefyd ymgymryd â gwaith ardystio grantiau mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae swm y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau a gaiff eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir tâl am y gwaith hwn fesul awr a bydd yn adlewyrchu maint a chymhlethdod y grant o dan sylw ac unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig ag ef, fel y dangosir yn Arddangosyn 17.

### Arddangosyn 17 – Amcangyfrifon o gyfrannau cymharol graddau'r staff archwilio a ddefnyddir ar gyfer gwahanol fathau o waith grantiau

| | Cymysgedd staff ar gyfer grantiau cymhleth % | Cymysgedd staff ar gyfer pob grant arall % |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 1 i 2 | 0 i 1 |
| Rheolwr Archwilio | 4 i 6 | 1 i 2 |
| Prif Archwilydd/Uwch-archwilydd | 18 i 21 | 12 i 16 |
| Archwilydd/hyfforddai graddedig /prentis | 71 i 77 | 81 i 87 |

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a'r dreth gyngor
- LA01 Ffurflenni ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflenni pensiynau athrawon

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon